# ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2025

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 02 | Cyflwyniad y Cadeirydd |
| 04 | Adolygiad yr Is-ganghellor |
| 06 | Ffeithiau a Ffigurau |
| 10 | Ein Gweledigaeth Strategol |
| 12 | Ein Pobl, ein Gwerthoedd a'n Diwylliant |
| 14 | Ein Haddysg a Phrofiad ein Myfyrwyr |
| 16 | Ein Hymchwil a'n Menter |
| 20 | Ein Prifysgol Ryngwladol |
| 22 | Ein Hystad |
| 24 | Ein Cynaliadwyedd |
| 30 | Adolygiad Ariannol |
| 42 | Prif Risgiau a Ffactorau Ansicrwydd |
| 44 | Datganiad Budd y Cyhoedd |
| 46 | Datganiad o Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad o Reolaeth Fewnol |
| 54 | Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol - Prifysgol Abertawe |
| 56 | Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol |
| 60 | Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor |
| 62 | Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu |
| 70 | Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Cyfunol a'r Sefydliad |
| 71 | Datganiad o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn Cyfunol a rhai'r Sefydliad |
| 72 | Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfunol a'r Sefydliad |
| 73 | Datganiad o Lifoedd Arian Parod Cyfunol |
| 74 | Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol |




# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Fel Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd Cyngor y Brifysgol, mae'n bleser gennyf, ar ran y Cyngor, gyflwyno Adolygiad Blynyddol y Brifysgol. Dyma achlysur allweddol i ni fyfyrio ar y flwyddyn academaidd a aeth heibio a dathlu ein cyflawniadau, gan hefyd gydnabod yr heriau sylweddol a wynebir gan sector addysg uwch y DU a'r Brifysgol ar hyn o bryd. Mae'n gyfle hefyd i ni gydnabod ymroddiad, ymrwymiad a gwydnwch ein staff y mae eu cyfraniadau'n parhau i ysgogi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i ymateb i'r heriau hyn ac i lywio llwyddiant hirdymor y Brifysgol.

Yn y cyd-destun hwn, mae llywodraethu cryf yn bwysicach nag erioed fel sylfaen Prifysgol lwyddiannus a gwydn. Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw, strategol ac er buddiannau gorau'r Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel corff llywodraethu'r Brifysgol, mae'r Cyngor wedi chwarae rôl allweddol wrth sicrhau craffu gwydn ar strategaeth a chyllid y Brifysgol a'u bod yn cael eu llywodraethu'n effeithiol. Mae hefyd wedi cynnal y safonau uchaf o lywodraethu i gefnogi'r Brifysgol drwy'r cyfnod hwn o newid anodd a sylweddol sy'n effeithio ar y sector cyfan. Fel rhan o ymrwymiad diwyro i wella'n barhaus, mae'r Cyngor wedi parhau i gryfhau strwythurau llywodraethu'r Brifysgol, gan gynnwys cyflwyno newidiadau i Lys y Brifysgol er mwyn gwella ei rôl fel fforwm i ymgysylltu â'r gymuned ehangach a bod yn gyswllt pwysig â rhanddeiliaid y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn falch o ansawdd ein profiad i fyfyrwyr, ac mae'n parhau'n ymrwymedig i wrando ar leisiau ein myfyrwyr a gweithredu arnynt. Mae llais y myfyrwyr yn chwarae rôl hollbwysig wrth lywodraethu'r Brifysgol, gan weithredu fel conglfaen ar gyfer tryloywder, atebolrwydd a phrosesau cynhwysol wrth wneud penderfyniadau. O safbwynt llywodraethu, mae cynnwys myfyrwyr mewn prosesau sefydliadol, megis datblygu polisïau, cynllunio strategol a sicrhau ansawdd, yn gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn parhau'n ymatebol i'w hanghenion a'u profiadau. Yn ogystal â hyn, mae sicrhau bod llais y myfyrwyr yn rhan annatod o strwythurau llywodraethu yn cynyddu ymddiriedaeth, yn hyrwyddo gwerthoedd democrataidd ac yn cefnogi gwella'n barhaus drwy ymgorffori safbwyntiau amrywiol yn arweinyddiaeth a goruchwyliaeth y sefydliad.

Hoffwn dynnu sylw at ddau yn unig o lwyddiannau diweddar y Brifysgol. Yr un cyntaf o'r rhain yw'r gwelliannau yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025, sy'n darparu negeseuon pwysig a chadarnhaol i ddarpar fyfyrwyr, a hynny ar adeg o gystadlu sylweddol wrth recriwtio myfyrwyr. Yr ail lwyddiant yw'r Brifysgol yn sicrhau ei safle gorau erioed yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS, gan wella enw da'r Brifysgol yn fyd-eang. Ar ran y Cyngor, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r staff y mae eu hymdrechion cyfunol wedi bod yn allweddol i'r cyflawniadau hyn, ac i gydnabod y rôl hollbwysig sydd gan ein holl staff wrth lywio llwyddiant y Brifysgol a'i dyfodol.

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dyngedfennol, i ni ac i holl brifysgolion eraill y DU. Mae angen i ni gynnal ein henw fel Prifysgol sy'n ymfalchïo mewn ymchwil ragorol ac addysgu o'r ansawdd uchaf. Cyhyd ag ein bod yn parhau i gydweithio, mae gennyf bob ffydd y byddwn yn goresgyn yr heriau o'n blaenau ac yn parhau i ffynnu.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Is-ganghellor, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a holl staff ein Prifysgol am eu hymroddiad a'u gwaith caled parhaus. Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau Cyngor y Brifysgol a'i bwyllgorau, sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol i gefnogi'r Brifysgol, am eu hymrwymiad a'u cyfraniad parhaus i'r Brifysgol.



**Mr Goi Ashmore**
**Cadeirydd y Cyngor**

**28 Tachwedd 2025**



# ADOLYGIAD YR IS-GANGHELLOR

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar adeg o her sylweddol i addysg uwch yn y DU. Nid yw Prifysgol Abertawe wedi gallu osgoi'r pwysau hyn, sy'n golygu bod angen canolbwyntio ar gyflawni amcanion ein Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol (cyfuniad o arbedion cyflogau a heblaw am gyflogau a mentrau cynhyrchu incwm i wella ein rhagolygon ariannol) eleni, ochr yn ochr â'n hymrwymiad parhaus i ddarparu profiadau dysgu trawsnewidiol, wedi'u llywio gan ein hymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang.

Diolch i wydnwch ein harweinwyr a'n cydweithwyr, a chefnogaeth Cyngor y Brifysgol, rydym yn gwneud cynnydd da wrth ail-lunio ein sefydliad, fel y bydd yn wydn yn wyneb amgylchiadau allanol heriol. Er gwaethaf newidiadau diweddar mewn polisïau yn y DU sy'n effeithio'n sylweddol ar ein gallu i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, a sylfaen gostau sy'n cynyddu oherwydd pwysau parhaus chwyddiant, mae gennym ffydd yn ein gallu i barhau i ganolbwyntio ar ein pwrpas a'n cenhadaeth craidd fel rydym wedi'i wneud eleni.

Rydym yn agos at gwblhau ein rhaglen Ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol; dyma drawsnewidiad sylweddol sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob maes gwasanaeth yn ein sefydliad.

Rydym hefyd wedi cyflawni llwyddiant sylweddol yn ystod 2024/25 ym mhob un o'n pileri strategol (gweler tudalen 10). Rydym wedi dechrau ar raglen o bwys i drawsnewid ein cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod ein haddysgu yn diwallu anghenion ein dysgwyr ac yn eu galluogi i feithrin y sgiliau y bydd eu hangen ar weithlu'r dyfodol. Rydym hefyd wedi lansio Hwb, sef un pwynt mynediad ar gyfer cymorth a gwybodaeth i fyfyrwyr. Ac roeddem yn falch iawn o weld gwelliannau mewn nifer o fesurau yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025, gan gynnwys sgôr o 84% ar gyfer boddhad cyffredinol â'r cwrs.

Mae ein hymrwymiad i ragoriaeth ymchwil wedi cael ei gefnogi gan ein llwyddiant wrth sicrhau grantiau eleni (gweler tudalen 14) ac mae hyn wedi sbarduno gwelliant pellach yn ein safle yn Nhabl QS o Brifysgolion y Byd 2026. Mae Prifysgol Abertawe bellach yn safle 292 yn y byd, sef ein safle uchaf erioed. O ran menter, roeddem wrth ein boddau gyda'n 8fed safle yn y DU yn yr adroddiad *Spotlight on Spinouts* eleni (2025), ac i gael ein cydnabod fel un o bum prifysgol yn unig yn y DU i gofrestru mwy na 100 o gwmnïau deillio.

Rydym wedi cadw ein hymdeimlad cryf o genhadaeth, i'n planed a'i phobl. Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol ar ein cynllun Llwybr i Sero (gweler tudalen 24) sydd wedi ein galluogi i leihau allyriadau Cwmpas 1 a 2 ein campysau 39% ers 2015/16. Gyda chymorth cyllid allanol, megis arian gan Gynllun Di-garbon Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n huchelgais i fod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2035. Roeddem hefyd yn hynod falch pan ddyfarnwyd statws Prifysgol Noddfa i ni yn 2025, sy'n adlewyrchu tosturi ac ymrwymiad ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr wrth greu amgylchedd gwirioneddol groesawgar i'r rhai hynny sy'n ffoi rhag gwrthdaro ac erledigaeth.

Yn olaf, drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnal ein ffocws sefydliadol ar bartneriaeth, yn lleol (gan gynnwys cynnydd parhaus ar ein prosiectau mawr o dan Fargen Ddinesig Bae Abertawe) ac yn fyd-eang, gan lansio Sefydliad Addysg ar y Cyd â Phrifysgol Dechnegol Nanjing yn Tsieina a chofrestru carfan gyntaf o 247 o fyfyrwyr; dyma un enghraifft yn unig o nifer o fentrau rhyngwladol sy'n datblygu (gweler tudalen 20). Yr ymrwymiad hwn i weithio ar y cyd er lles ein rhanbarth a chymunedau ledled y byd yw sylfaen ein strategaeth datblygu'r dyfodol y byddwn yn ei lansio yn 2025/26. Drwy'r weledigaeth ddiwygiedig hon, ac er gwaethaf yr heriau o'n blaenau, rydym yn benderfynol o gynnal ymrwymiad cryf ein sefydliad i bartneriaeth, sydd wedi ein galluogi i ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a gwneud gwahaniaeth drwy gydol ein hanes.

PJ Boyle


**Yr Athro Paul Boyle**
**Is-ganghellor**

**28 Tachwedd 2025**



# FFEITHIAU A FFIGURAU

Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i gynorthwyo wrth fonitro'r Brifysgol yn erbyn ei hamcanion. Dangosir detholiad o'r prif DPA isod. Lle bynnag y bo modd, defnyddir ffigurau 2024-25 ond, mewn rhai achosion, bydd y data diweddaraf sydd ar gael gan HESA yn berthnasol i 2023-24.



## NIFEROEDD MYFYRWYR

**16,348**
O ISRADDEDIGION

**6,264**
O ÔL-RADDEDIGION

**17,699**
O FYFYRWYR CARTREF

**5,102**
O FYFYRWYR TRAMOR

## CANLYNIADAU MYFYRWYR

**84%** O FYFYRWYR YN FODLON

NSS National Student Survey

(NSS 2025)

**77%** WEDI ENNILL GRADD DOSBARTH CYNTAF NEU 2:1

(DATA HESA23 - 24)

**81.0%** O RADDEDIGION WEDI CAEL CANLYNIAD CADARNHAOL

(TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2026)



## SAFLEOEDD CYNALIADWYEDD

36AIN Times Higher Education Impact Rankings

Tablau Effaith THE 2024

12 ARFERION DEFNYDDIO A CHYNHYRCHU CYFRIFOL – SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

2IL YN Y BYD

Tablau Effaith THE 2025

15 BYWYD AR Y TIR – SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

15FED YN Y BYD

Tablau Effaith THE 2025

16 HEDDWCH, CYFIAWNDER A SEFYDLIADAU CADARN – SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

22AIN YN Y BYD

Tablau Effaith THE 2025

121AIN QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS

SAFLEOEDD CYNALIADWYEDD

Safleoedd Cynaliadwyedd y Byd QS 2026

people & planet UNIVERSITY LEAGUE

21AIN YN Y DU

Cynghrair Prifysgolion 2024/25 People and Planet

## PRIFYSGOLION Y BYD

SAFLE 292

QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS

Tablau Prifysgolion y Byd QS 2026

THE World University Rankings 2026

301 - 350

Tablau Prifysgolion y Byd THE

## PRIFYSGOLION Y DU

37AIN

Times Good University Guide 2026

29AIN The Guardian

Guardian University Guide 2026

40AIN Complete University Guide

Complete University Guide 2026

# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

**Ein Gweledigaeth**

**Mae dogfen Gweledigaeth Strategol a Phwrpas ein Prifysgol (a gyhoeddwyd yn 2020) yn nodi ein bod, ac y byddwn, yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi o safon fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ddisgleirio.**

Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner dibynadwy, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.

**Ein Strategaeth**

Mae ein Strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth hon. Mae ein cymuned o gydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn nodweddiadol am y gwerthoedd, y diwylliant a'r ymddygiadau arbennig sy'n greiddiol i ni.

Mae ymrwymiad ein cymuned yn sylfaen i bum piler strategol allweddol ein Prifysgol: ein cenhadaeth ddinesig, profiad y myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ymchwil a menter. Mae pob un o'r rhain yn cael ei ategu gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, i fod yn gyfrifol yn gymdeithasol, i ymdrechu am ragoriaeth ac i gynnal meddylfryd byd-eang sy'n ein galluogi i fod yn Brifysgol i'r gymuned a chanddi gyrhaeddiad ac enw da rhyngwladol.

Caiff ein gwaith ei hwyluso gan arweinyddiaeth gref a llywodraethiant cadarn, cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad i gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol. Mae'n seiliedig ar ein hisadeiledd digidol a diriaethol, ein strategaeth ryngwladoli, a'n hymagwedd at recriwtio cydweithwyr dawnus a brwdfrydig.

**Pileri Allweddol**

**Ein Cenhadaeth Ddinesig**

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe ac i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe ehangach, ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, a bod gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'n cymuned a Chymru ac er eu lles.

**Profiad ein Myfyrwyr**

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol. Rydym yn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth wneud penderfyniadau ac rydym yn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n dewis Abertawe fel ei gartref yn cael y profiad gorau gyda ni.

**Ein Dysgu a'n Haddysgu**

Mae rhannu gwybodaeth i feithrin meddwl annibynnol, beirniadol yn hanfodol i'n pwrpas. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn wydn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith sy'n newid. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac rydym yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

**Ein Hymchwil**

Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal ag ar ein hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym yn ysgogi newidiadau mewn polisïau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.


**Ein Menter**

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau i fod yn driw i uchelgeisiau ein sylfaenwyr drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol a'r sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angor a busnesau bach a chanolig yng Nghymru ac â'r sefydliadau niferus rydym yn cydweithredu â nhw'n rhyngwladol.

**Edrych i'r dyfodol**

Mae'n bum mlynedd ers i ni lansio ein gweledigaeth strategol bresennol. Ers hynny, mae ein sefydliad a'n sector wedi wynebu cyfnod o newid allanol digynsail, gan gynnwys effeithiau yn sgîl Brexit, y trawsnewidiad a orfodwyd arnom gan bandemig byd-eang, cyfraddau chwyddiant uchel cyson a newidiadau sylweddol i bolisïau ynghylch fisâu myfyrwyr rhyngwladol yn y DU.

Rydym felly yn cynnal ymarfer i ddiwygio ein strategaeth er mwyn gosod sylfeini ein gweledigaeth i'r dyfodol. Yn dilyn ymgysylltu cynnar â'n Cyngor ac uwch-arweinwyr ar draws ein Prifysgol, rydym yn gweithio i ail-lunio ein strategaeth er mwyn diffinio ein cryfderau a'n cyfraniad unigryw at y byd a manteisio i'r eithaf ar y rhain. Rydym yn bwriadu lansio'r strategaeth ddiwygiedig hon yn ddiweddarach yn 2025/26.



# EIN POBL, EIN GWERTHOEDD A'N DIWYLLIANT

**Ein pobl yw ein hased mwyaf, maen nhw'n ymgorffori ein gwerthoedd ac yn llunio diwylliant ein Prifysgol. Rydym yn ymdrechu i feithrin amgylchedd cefnogol a chynhwysol, ac yn gweithio ar y cyd fel un sefydliad, gan gydnabod cyfraniadau unigryw pob cydweithiwr a myfyriwr.**

Mae ein Pwyllgor Strategaeth Pobl a Diwylliant y Brifysgol yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth lunio a chyflawni blaenoriaethau Prifysgol Abertawe ar gyfer ein cymuned. Gan gwrdd unwaith y tymor dan gyd-gadeiryddiaeth yr Is-ganghellor a'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod mentrau sy'n canolbwyntio ar bobl yn cyd-fynd â nodau strategol cyffredinol y Brifysgol.

Yn 2024/25, buom yn parhau i wneud cynnydd yn y meysydd strategol a nodwyd yn fersiwn ddrafft ein Strategaeth Pobl a Diwylliant y Brifysgol. Gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi ein cymuned wrth i ni barhau i weithredu mewn cyd-destun ariannol heriol, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi blaenoriaethu cymorth lles a datblygu arweinyddiaeth i'n staff.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn**

Mae Prifysgol Abertawe'n arweinydd o hyd ym maes gwella cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn. Rydym yn falch mai ni oedd y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Arian Sefydliadol Athena Swan, ac mae gwobrau arian gan ddwy o'n tair Cyfadran hefyd. Yn ogystal, mae dau o gydweithwyr Prifysgol Abertawe wedi'u hyfforddi i fod yn adolygwyr Panel Athena Swan.

Eleni, dyfarnwyd Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil i ni am y tro cyntaf, gan gydnabod ein hymrwymiad i gydraddoldeb hil ar draws y sefydliad. Mae'r garreg filltir hon yn dyst i'n hymroddiad i greu amgylchedd cynhwysol lle mae gan yr holl gydweithwyr a myfyrwyr, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd ethnig leiafrifol, ymdeimlad o berthyn a chyfle cyfartal i ffynnu. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i wneud cynnydd mewn perthynas â'n Cynllun Gweithredu Hil dan arweinyddiaeth ein Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn.

**Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth**

Yn 2024/25, cadarnhawyd ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan sicrhau bod yr holl gydweithwyr yn cael cyflog teg sy'n cyd-fynd â gwir gostau byw.

Yn sgîl ymgysylltu â'n cymuned academaidd, cyflwynwyd ein Llwybrau Gyrfa Academaidd newydd yn llwyddiannus, gan symud 1,070 o gydweithwyr academaidd i lwybrau sy'n adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol maent yn cyfrannu drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae ein llwybrau newydd yn gyson ag arfer gorau'r sector ac yn cefnogi defnydd cyfrifol o fetrigau, yn unol â'r Declaration on Research Assessment (DORA) a'n haelodaeth o'r Coalition for Advancing Research Assessment (CoARA).

Roeddem yn falch o gynnal rownd lwyddiannus o ddyrchafiadau academaidd yn 2024/25, yn dilyn y penderfyniad anodd i atal y broses dros dro y flwyddyn flaenorol. Eleni, cafodd 112 o gydweithwyr academaidd eu dyrchafu ar draws ein llwybrau newydd.

**Gwella Cynwysoldeb**

Yn 2025, roedd Prifysgol Abertawe'n falch o gyflawni Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil a gwnaethom lansio cynllun gweithredu cadarn i adeiladu ar y cynnydd hwn. Mae mentrau megis Eid yn y Parc wedi cryfhau ymdeimlad o berthyn cymunedol ac wedi grymuso staff a myfyrwyr i greu newid cadarnhaol.

Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth wedi'i dargedu ar Islamoffobia a Gwrth-semitiaeth a gwnaethom gyd-greu cwrs ymwybyddiaeth hil sydd bellach ar gael i'r holl fyfyrwyr. Mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb a rhoi gwybod amdanynt i staff a myfyrwyr, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â gwahaniaethu.

Drwy gydol y flwyddyn, buom yn dathlu digwyddiadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes LHDT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Ddu a gweithgareddau rhyng-ffydd amrywiol. Dechreuon ni hefyd gyflwyno ein hyfforddiant gorfodol ar hil i'r holl staff, gan ategu ein hyfforddiant presennol ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Rhagfarn Ddiarwybod.

**Cefnogi ein cymuned**

Eleni, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i gefnogi ein cymuned wrth i ni geisio cyflawni nodau ein Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. O ganlyniad, mae ein hymdrechion wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth lles a pharatoi ein harweinwyr i wynebu'r cyfnod hollbwysig hwn.

Buom yn parhau i gefnogi rhaglen Ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol, sydd â'r nod o sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob gwasanaeth yn ein Prifysgol. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi cydweithwyr y mae eu rolau wedi newid ac ymgysylltu ac ymgynghori'n ffurfiol â'r Undebau a gydnabyddir ar ein campysau ynghylch effaith unrhyw newidiadau arfaethedig mewn rolau neu yn strwythurau timau.

Rydym hefyd wedi darparu arweiniad ac adnoddau i gydweithwyr sydd wedi dewis defnyddio ein Cynllun Ymadael yn Wirfoddol i adael ein Prifysgol yn ystod y cyfnod hwn. Caeodd ein Cynllun Ymadael yn Wirfoddol i'n staff academaidd ym mis Ionawr 2025, ac i'r rhan fwyaf o gydweithwyr yn y Gwasanaethau Proffesiynol ym mis Gorffennaf 2025. Rydym yn parhau i gefnogi'r nifer bach o gydweithwyr sy'n gymwys o hyd am y Cynllun oherwydd gweithgarwch parhaus i Ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol yn eu meysydd gwasanaeth.

Mae datblygu a chefnogi arweinwyr wedi parhau'n ffocws allweddol drwy gydol eleni, wrth i ni ddeall rôl hollbwysig ein harweinwyr wrth gefnogi ein cymuned ehangach. Eleni, roedd ein rhaglenni'n cynnig cyfuniad o hyfforddiant unigol a sesiynau grŵp wyneb yn wyneb, ac ategwyd y rhain ymhellach gan ddysgu hunangyfeiriedig drwy LinkedIn Learning.

Yn olaf, buom yn parhau i hyrwyddo lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol ar draws ein cymuned drwy wasanaethau megis Iechyd Galwedigaethol, cwnsela a'r platfform iechyd meddwl digidol, Togetherall. Yn ogystal â chymorth iechyd meddwl, buom yn ymdrechu i gefnogi lles corfforol ein cydweithwyr drwy ymagwedd gyfannol a thrwy gynnig asesiadau iechyd, ac atgyfeiriadau golwg.



# EIN HADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

**Rydym yn ymrwymedig, nid yn unig i ddarparu profiad dysgu ac addysgu o safon uchel i'n myfyrwyr, ond hefyd i gynnig iddynt y cymorth, y gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n gwella ac yn cyfoethogi eu hamser gyda ni a'r tu hwnt.**

**Trawsnewid ein Cwricwlwm**

Yn 2023, gwnaethom lansio rhaglen Trawsnewid y Cwricwlwm uchelgeisiol sydd â'r nod, yn y pen draw, o adolygu ac ailgynllunio ein darpariaeth dysgu ac addysgu ym mhob un o ddisgyblaethau a Chyfadrannau'r Brifysgol, ar lefel israddedig a Meistr. Bydd y prosiect hefyd yn gwella sgiliau a chyflogadwyedd drwy wreiddio ein Priodoleddau Graddedigion Abertawe (gweler isod). Rydym yn falch o fabwysiadu ymagwedd Prifysgol gyfan at y fenter ac mae timau Cyfadrannau, academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol yn cydweithio i gyflawni newid trawsnewidiol i'n myfyrwyr.

Ers dechrau'r prosiect, rydym wedi datblygu Fframwaith Cwricwlwm cadarn, sy'n cwmpasu cynnwys addysgu, cyflwyno a chynllunio asesiadau. Bellach, mae gan gydweithwyr set glir a chyson o strwythurau ar gyfer cynllunio neu ailgynllunio rhaglenni presennol a rhai newydd. Mae chwech egwyddor gynllunio yn sylfaen i'r fframwaith, gan gynnwys creu ar y cyd â chydweithwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol; dysgu cynhwysol a hygyrch; ac integreiddio technoleg newydd.

Yn 2024/25, gwnaethom gymeradwyo'r 29 rhaglen gyntaf sydd wedi bod drwy ein proses Trawsnewid y Cwricwlwm. Disgwylir i'r rhain ddechrau yn 2025/26 a thros y 12 mis nesaf, byddwn yn parhau i weithio ar y 300-400 o raglenni sy'n weddill i'w hystyried a disgwylir i'r rhain ddechrau ym mis Medi 2026.

**Priodoleddau Graddedigion**

Mae diffinio a gwreiddio priodoleddau graddedigion yn ein cwricwlwm a thaith ein myfyrwyr wedi bod yn flaenoriaeth allweddol eleni. Mae priodoleddau graddedigion yn ymestyn y tu hwnt i wybodaeth academaidd, gan gynnwys galluoedd personol, proffesiynol a chymdeithasol sy'n paratoi ein myfyrwyr i lwyddo yn eu gyrfaoedd a'u rolau ehangach mewn cymdeithas. Mae gwreiddio priodoleddau graddedigion a chyflogadwyedd yn y cwricwlwm yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyfle, gan gydnabod bod rhai myfyrwyr, megis y rhai â chyfrifoldebau gofalu, â gallu cyfyngedig i achub ar gyfleoedd y tu allan i'w cwricwlwm ffurfiol. Mae'r Tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd wedi bod yn weithredol wrth gefnogi cydweithwyr academaidd ac mae'r tîm wedi ymgysylltu â 57 o raglenni hyd yn hyn.

**Ymateb i adborth myfyrwyr**

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella'r profiad dysgu drwy weithio mewn partneriaeth agos â'n myfyrwyr a gweithredu ar eu hadborth. Roedd sicrhau lle canolog i Lais y Myfyrwyr yn un o'n blaenoriaethau allweddol drwy gydol 2024/25, ac rydym wedi ceisio gwella sianeli cyfathrebu ar draws cymuned y Brifysgol.

Rydym wrth ein boddau, felly, gyda'r gwelliant yn ein perfformiad yng nghanlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025, a hynny ym mhob un o'r 27 cwestiwn. O ganlyniad i hyn, gwellodd ein safle yn saith o wyth thema'r Arolwg (gan gynnwys boddhad cyffredinol). Mae cynnydd nodedig yn cynnwys Cymorth Academaidd, sydd wedi codi 21 lle i'r 39ain safle yn y Deyrnas Unedig; Trefniadaeth a Rheolaeth, sydd wedi codi 23 lle i'r 38ain safle; ac Adnoddau Dysgu, lle'r ydym wedi neidio 50 lle i'r 34ain safle.

Bydd nifer o fentrau a lansiwyd yn 2024/25 yn llywio canlyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu fframwaith AI Cynhyrchiol a gweithgarwch a fydd yn canolbwyntio ar wella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn. Mae ein Polisi Amserlennu newydd, a roddwyd ar waith yn 2024/25, wedi bod yn llwyddiant sylweddol hefyd. Gan ymateb i adborth myfyrwyr, rydym wedi symleiddio ein prosesau amserlennu, sydd wedi ein galluogi i greu amserlenni ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn llawer gynt yn y flwyddyn nag erioed. O ganlyniad, bydd ein myfyrwyr (a'n staff) yn gallu cynllunio eu hamser yn fwy effeithiol, yn enwedig wrth reoli ymrwymiadau gwaith eraill a chyfrifoldebau gofalu.

**Cynllun Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau**

Yn ystod 2024/25, lluniwyd ein Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Strategol glustnodi adnoddau i'r meysydd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf. Arweiniwyd y gwaith hwn gan yr Athro Gavin Bunting (Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol) a'r Bwrdd Dyfodol Myfyrwyr, gan gynnwys staff, myfyrwyr a chyflogwyr yn y broses gyfan drwy weithdai a chyfarfodydd. Mae'r Cynllun Strategol yn seiliedig ar set o nodau a rennir, sydd eisoes wedi arwain at ddefnydd cynyddol o Fyrddau Diwydiannol wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwell cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiadau cyflogaeth yn ystod eu rhaglenni, a fydd oll yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i raddedigion.

I gynorthwyo wrth roi'r Cynllun ar waith, gwnaethom lansio Tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ar ei newydd wedd eleni. Mae hyn wedi galluogi ein cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd arbenigol i fod yn hollol gydlynol a chyson ar draws y sefydliad, gan leihau dyblygu a sicrhau bod yr un cyngor o safon uchel ar gael i bob myfyriwr, ni waeth am ei gwrs neu ei leoliad.

**Gwasanaeth Diogelu ac Ymateb i Ddatgeliadau**

Yn 2024/25, gwnaethom lansio ein Gwasanaeth Diogelu ac Ymateb i Ddatgeliadau. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon yn sicrhau bod unrhyw fyfyriwr sy'n cael ei gam-drin, ei niweidio, ei ecsbloetio, neu sydd â phryderon diogelu eraill, yn cael cymorth arbenigol ac amserol. Crëwyd y gwasanaeth hwn mewn ymateb i gymhlethdod cynyddol materion diogelu mewn addysg uwch a'r angen am ymateb cyson a phroffesiynol.

Arweinir y gwasanaeth gan Arweinydd Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu sefydliadol a throsolwg strategol. Mae tîm o Gynghorwyr Diogelu a Datgelu hyfforddedig yn cynorthwyo wrth reoli datgeliadau sy'n ymwneud â chamymddygiad rhywiol, trais domestig, digwyddiadau casineb, gwrthdaro rhwng cymheiriaid a materion difrifol eraill. Mae'r ymatebwyr hyn yn gweithio'n agos gydag adrannau academaidd, preswylfeydd, achosion myfyrwyr a phartneriaid allanol, gan gynnwys Heddlu De Cymru, y GIG a byrddau diogelu lleol.

Mae hygyrchedd yn un o nodweddion canolog y gwasanaeth. Gall myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith, y rhai hynny sy'n astudio dramor neu'n byw oddi ar y campws, gael cymorth o bell drwy borth datgelu diogel ac apwyntiadau rhithwir. Mae hyn yn sicrhau ymagwedd gyson a chynhwysol, ni waeth am leoliad y myfyriwr.

***Hwb:* Porth newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr**

Yn 2024/25 gwnaethom herio ein hunain i gynllunio model newydd o gymorth i fyfyrwyr a fyddai'n darparu mynediad clir, cydlynol a gweledol i wasanaethau sy'n hyrwyddo lles, llwyddiant academaidd a chynhwysiant. Ar ôl ymgynghori'n helaeth â myfyrwyr a staff, gwnaethom gadarnhau'r gwasanaeth a'r brand i greu *Hwb*.

Gan lansio ym mis Medi 2025, bydd *Hwb* yn ceisio mynd i'r afael â chymhlethdodau amgyffred â strwythurau'r Brifysgol drwy gynnig un pwynt mynediad i fyfyrwyr - wyneb yn wyneb ac yn ddigidol - ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys: iechyd a lles, gwasanaethau anabledd, sgiliau academaidd ac astudio, cymorth ariannol a phontio i addysg uwch a thrwyddi. Drwy sgyrsiau amser go iawn, apwyntiadau rhithwir a system gyfeirio ddigidol, bydd *Hwb* yn darparu gwasanaeth hyblyg a chynhwysol sy'n diwallu anghenion y myfyriwr modern.

# EIN HYMCHWIL A'N MENTER

**Mae ein gweithgarwch ymchwil ac arloesi sy'n cael ei lywio gan chwilfrydedd ac yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn helpu i ymateb i her sero net, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, meithrin cymdeithas gysylltiedig a chynhwysol, gwella iechyd a lles, a dathlu cyfoeth lleoedd a diwylliant.**

**Cyllid a chymorth ymchwil**

Mae buddsoddiad allanol i gefnogi ein gallu ymchwil ac arloesi yn hanfodol, gan fod hyn yn ategu ein gallu i gynhyrchu a chyhoeddi allbynnau arloesol ac i uchafu effeithiau buddiol ein gweithgarwch ymchwil. Yn 2024/25, rydym yn falch o fod wedi cynyddu cyfanswm gwerth ein ceisiadau ymchwil a gyflwynwyd a'r dyfarniadau ymchwil a sicrhawyd yng nghymuned ein Prifysgol.

Yn benodol, rydym wedi parhau ein proses lwyddiannus o leihau ein dibyniaeth ar Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) fel ffynhonnell cymorth ariannol allweddol ar gyfer ein gweithgareddau ymchwil ac arloesi, gan ganolbwyntio yn hytrach ar gyllid grant gan Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI). Rydym wrth ein boddau bod cyfanswm y ceisiadau a gyflwynwyd i UKRI, a chyfanswm gwerth y grantiau a ddyfarnwyd gan UKRI, wedi cynyddu unwaith eto o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, sy'n arwydd o uchelgais a natur gystadleuol ein cynigion ymchwil.

Gan ystyried yr heriau ariannol mae ein sector yn eu hwynebu ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio fwyfwy ar gynaliadwyedd ein gweithrediadau ymchwil. O ganlyniad, mae uchafu'r costau sy'n cael eu hadennill ar draws ein portffolio o ymchwil a ariennir yn allanol yn hollbwysig, ac mae lefel y cyfraniadau ariannol sy'n cael eu sicrhau fel canran o gyfanswm y grantiau ymchwil allanol (grantiau a chontractau) yn fetrig allweddol i ni. Mae'n galonogol nodi tuedd cadarnhaol sylweddol yn y ffigur hwn, sydd bellach uwchlaw 20%. Mae'r cynnydd cyffredinol hwn yn y costau sy'n cael eu hadennill yn ganlyniad gwaith manwl a wnaed ar bob cais am gyllid allanol i asesu dichonoldeb ariannol prosiectau a llywio ein prosesau penderfynu.

Rydym yn parhau'n hynod weithredol ar draws ein Cyfadrannau academaidd cyfan o ran cyflwyno cynigion cystadleuol am gyllid ymchwil allanol. Dyma rai enghreifftiau o lwyddiant wrth sicrhau cyllid eleni:

- Mae Dr Ashley Willow, Uwch-ddarlithydd Peirianneg Gemegol yn ein Cyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg, yn gyd-arweinydd partneriaeth ymchwil arloesol ar y cyd â Phrifysgol Limerick, sydd â'r nod o ysgogi arloesi mewn technoleg batris. Cefnogir y prosiect gan Ddyfarniad Cynghrair Ymchwil Cymru-Iwerddon ac mae'n cyfuno arbenigedd Abertawe mewn deunyddiau a dyluniad batris â chynnydd Limerick ym maes datblygu cydrannau i greu batris metel sodiwm arloesol sy'n osgoi'r angen i drin metel sodiwm wrth weithgynhyrchu'r hyn a elwir yn ateb "di-anod".
- Mae cydweithwyr yn ein Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd wedi sicrhau £10m mewn buddsoddiad newydd gan raglen 2025-2030 Grŵp Ymchwil Isadeiledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'n nodedig bod ymchwilwyr o Abertawe yn bartneriaid ymchwil craidd mewn 10 rhaglen ac yn brif bartneriaid ar gyfer tri dyfarniad arall gan gynnwys y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a'r Samariaid, bydd y Ganolfan Genedlaethol yn ysgogi rhagoriaeth ymchwil ac yn sbarduno newid mewn polisi ac ymarfer ym maes atal hunanladdiad a hunan-niwed. Yn ogystal, llwyddodd Banc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) i sicrhau £4.5m mewn cyllid, gan alluogi SAIL i gynnal ei rôl fel adnodd dibynadwy ar gyfer ymchwilwyr sy'n defnyddio data cysylltiedig, dienw, i wella iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyflwynodd Ymddiriedolaeth Wellcome Ddyfarniad Datblygu Gyrfa uchel ei fri sy'n para chwe blynedd i Dr Laura Seymour o Gyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Y nod yw newid y ddealltwriaeth o'r hyn rydym yn ei alw'n niwroamrywiaeth ar hyn o bryd drwy ymchwilio i gysyniadau tebyg a ddefnyddid gan bobl fodern gynnar. Prosiect Dr Seymour (AMEND) yw'r dadansoddiad cyntaf o niwroamrywiaeth a niwrowahaniaeth mewn testunau llenyddol, cyfreithiol a diwinyddol modern cynnar i gynnwys Ewrop gyfan. Bydd AMEND yn herio ableddiaeth yn y byd academaidd ac yn meithrin dealltwriaeth newydd o lenyddiaeth drwy fireinio darllen niwroamrywiaeth fel disgyblaeth feirniadol.

**Horizon Ewrop**

Ers dechrau cysylltiad ffurfiol y DU â Horizon Ewrop yn 2024, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth annog ein cymuned ymchwil i gyfranogi ym mhrif raglen Horizon Ewrop, gan gynnwys drwy achub ar gyfleoedd ysgogi sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru ac eraill. O ganlyniad, mae ymchwilwyr Abertawe yn parhau i gyfranogi'n helaeth mewn digwyddiadau adeiladu rhwydweithiau a chonsortia ym Mrwsel.

Mae enghreifftiau o'n llwyddiannau diweddar yn cynnwys:

- Rydym yn bartneriaid yn y prosiect SAFEPOWER newydd drwy'r Athro Mike Jennings o'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol, CISM. Dan arweiniad Sefydliad Microelectroneg Barcelona, nod y prosiect yw trawsnewid systemau ynni drwy greu trawsnewidyddion foltedd canolig cerrynt uniongyrchol (MVDC). Gellir eu rhoi ar waith mewn ffermydd gwynt a solar alltraeth, at ddibenion gwefru cerbydau trydan yn gyflym a chyfrifiadura perfformiad uchel mewn canolfannau data.
- Cyfranogiad ym mhrosiect SERENA, consortiwm mawr a ariennir gan yr UE sydd â'r nod o ymchwilio i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n agored i niwed o ganlyniad i gamdriniaeth, a gwella'r mynediad hwn. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gam-drin plant ac arweinir cyfranogiad Prifysgol Abertawe ynddo gan yr Athro Sinead Brophy a Dr Natasha Kennedy. Mae hyn yn parhau'n broblem gyffredin iawn ledled Ewrop ond un nad yw wedi cael sylw digonol, â chanlyniadau hirdymor difrifol ar gyfer iechyd meddwl ac iechyd corfforol dioddefwyr. Bydd SERENA yn asesu rhwystrau a llwybrau gofal ledled Ewrop, gan greu argymhellion ar sail tystiolaeth i wella cyfraddau canfod, gofal a pholisi.



**Diwylliant Ymchwil**

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd a'r cyfleoedd rydym yn eu meithrin a'u cyfraniad uniongyrchol at ein rhagoriaeth ymchwil barhaus. Yn 2024/25, roeddem yn falch o lunio ein Cynllun Gweithredu Diwylliant Ymchwil cyntaf, sy'n cynnwys pum piler allweddol:

- Galluogi rhagoriaeth mewn ymchwil gyfrifol;
- Cydnabod cyfraniadau amrywiol;
- Datblygu gyrfaoedd;
- Cysylltu a pherthyn; a
- Lles.

I gefnogi pileri un a dau, mae Prifysgol Abertawe'n falch o fod wedi llofnodi CoARA (Coalition of Advancement of Research Assessment) ac o fod yn gyd-arweinydd ar gyfer Cangen Genedlaethol CoARA yn y DU. Eleni, rydym wedi cynnal diwygiad helaeth o'n Llwybrau Gyrfa Academaidd a thrwy hyn rydym wedi ceisio gwella asesiad cyfrifol ymchwil ac arloesi yn ein cymuned, gan gynnwys drwy gydnabod cyfraniadau amrywiol at ymchwil (e.e. arferion Ymchwil Agored) drwy ddefnydd cyfrifol o fetrigau. Rydym wedi llwyddo i sicrhau dyfarniad CoARA Cascade Boost i werthuso effaith y newidiadau hyn.

Rydym hefyd wedi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Gweithredu newydd, ac i gefnogi diwylliant ymchwil ein sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal y 4ydd Symposiwm Blynyddol i gefnogi Ymrwymiad y Technegwyr ym mis Gorffennaf 2025 a datblygu cynllun gweithredu arobryn newydd ar gyfer ein cymuned o dechnegwyr. Yn yr un modd, cynhaliwyd Wythnos Gwerthfawrogi Ymchwilwyr Ôl-ddoethurol ym mis Medi 2024 i gydnabod cyfraniadau amrywiol ein cymuned ôl-ddoethurol at ymchwil ac arloesi. Yn olaf, mae cyfleoedd hyfforddiant cynhwysol Advance HE wedi cael eu cefnogi drwy ein Cronfa Diwylliant Ymchwil Medr. Mae hon yn darparu lleoedd ar raglenni arweinyddiaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ledled y Brifysgol, gan gynnwys Arweinyddiaeth Aurora, Mentora Aurora ac Amrywio Arweinyddiaeth a mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn y Siarter Cydraddoldeb Hil a ddyfarnwyd i Abertawe yn ddiweddar.

**Arweinyddiaeth Ymchwil**

Detholwyd cyfanswm trawiadol o wyth ymchwilydd o Brifysgol Abertawe i ymuno â charfan 2025 Crwsibl Cymru o 30 ymchwilydd rhagorol o bob cwr o Gymru. Mae Crwsibl Cymru yn rhaglen arobryn sydd â'r nod o feithrin datblygiad personol, proffesiynol ac arweinyddiaeth ymhlith arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru. Gwneir hyn drwy gyfranogiad mewn gweithdai preswyl ymdrochol o'r enw labordai sgiliau. Mae'r rhaglen yn cynnig platfform ar gyfer cydweithredu rhyngddisgyblaethol ac mae'n cefnogi cyfranogwyr i wella effaith eu hymchwil wrth hyrwyddo datblygiad gyrfaoedd ymchwil rhyngwladol yng Nghymru.

Yn ogystal, yn 2025 roedd saith o gydweithwyr o Brifysgol Abertawe ymhlith Cymrodorion newydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Maent yn ymuno â mwy na 700 o Gymrodorion a etholwyd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru, sy'n cynrychioli rhagoriaeth yn y gwyddorau, y dyniaethau y celfyddydau, y gwyddorau cymdeithasol ac mewn meysydd eraill.

**Cydnabyddiaeth ryngwladol am arloesi a menter**

Fel sefydliad a grëwyd gan ddiwydiant ar gyfer diwydiant, mae ysbryd entrepreneuriaeth yn rhan gynhenid o ddiwylliant ein cymuned a phrofiad ein myfyrwyr. Eleni, rydym yn falch o fod wedi ennill cydnabyddiaeth allanol sylweddol am ein hecosystem ddynamig o gymorth, mentora a chyllid:

Daethom yn ail yng Ngwobr Prifysgol Ewropeaidd, Entrepreneuraidd ac Arloesol y Flwyddyn Triple E 2024 a drefnwyd gan ACEEU (Accreditation Council for Entrepreneurial and Engaged Universities).


Ar restr fer Gwobr Triple E ar gyfer Actifadyddion Arloesi ac Entrepreneuriaeth Ewropeaidd y Flwyddyn (2025);

Roedd ein Prifysgol yn ail yng Nghymru ac yn 15fed yn y DU am nifer y busnesau newydd a sefydlwyd gan fyfyrwyr a graddedigion a'r busnesau a oroesodd dros dair blynedd. Mae ein perfformiad o ran y metrig olaf wedi cynyddu 90% bob blwyddyn, gan ein codi o'r 60ain safle i'r 35ain safle yn y DU (set ddata HE-BCI 2023/24);

Enwyd ein Prifysgol yn Fabwysiadwr Gwirioneddol yr argymhellion a nodwyd yn Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU o Gwmnïau Deillio'r DU, gan gydnabod ein bod eisoes yn dangos arfer gorau mewn materion megis dosbarthu ecwiti i sylfaenwyr a rhanddeiliaid.

Yn ôl y gofrestr cwmnïau deillio newydd a gyhoeddwyd gan HESA ym mis Mehefin 2025, roedd Prifysgol Abertawe yn y pedwerydd safle yn y DU am y nifer o gwmnïau deillio (dim ond Rhydychen, Caergrawnt ac UCL oedd o'n blaenau).

Ar y cyfan, mae'r gydnabyddiaeth hon yn tanlinellu ein diwylliant ffyniannus o entrepreneuriaeth ac yn adlewyrchu ein hymroddiad parhaus i gyflawni nodau ac uchelgeisiau Strategaeth Mentergarwch ein Prifysgol.



# EIN PRIFYSGOL RYNGWLADOL

**Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod Prifysgol Abertawe'n brifysgol fyd-eang i bawb, lle mae myfyrwyr rhyngwladol yn aelodau pwysig o'n cymuned a lle mae'r holl fyfyrwyr yn cael profiad rhyngwladol, boed gartref neu dramor. Rydym yn gweithio i sicrhau bod Prifysgol Abertawe'n bartner dewis cyntaf yn fyd-eang ar gyfer cydweithredu ar addysg ac ymchwil.**

Er gwaethaf newidiadau ysgubol yn fframwaith polisi fisâu myfyrwyr y DU yn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi arwain at Datganiad o Lywodraethu sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn y DU ac felly Abertawe, rydym wedi parhau i weithio i gyflawni ein hamcanion strategol a chefnogi ein proses barhaus o drawsnewid i fod yn brifysgol sy'n wirioneddol fyd-eang. Rydym yn addasu ein harlwy byd-eang i gynnwys dulliau astudio amrywiol ar draws amrywiaeth o fodelau academaidd a weithredir mewn partneriaeth â sefydliadau ledled y byd ac yn y DU, gan gynnwys cyflwyno portffolio ar-lein. Bydd y trawsnewidiad hwn yn denu myfyrwyr o ffynonellau, rhanbarthau a chefndiroedd newydd, wedi'u denu gan addysgu hyblyg a hybrid, cyfleoedd i astudio'n fyd-eang a dysgu hyblyg.

**Ein proffil byd-eang**

Yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2026, gwnaethom sicrhau ein safle gorau erioed, gan ddringo i safle 292 yn y byd. Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar berfformiadau cryf ym meysydd cynaliadwyedd, myfyrwyr rhyngwladol, ein henw da academaidd ac ymhlith cyflogwyr.

Buom yn parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'n cymuned gynyddol o gyn-fyfyrwyr rhyngwladol sy'n ysbrydoli ac yn gwneud gwahaniaeth. Yn 2024/25, gwnaethom drefnu 17 o ddigwyddiadau i ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr rhyngwladol mewn rhanbarthau amrywiol, gan gynnwys Delhi, Mumbai, Brwsel, Beijing, Riyadh, Berlin, Bangkok, Kuala Lumpur (ar y cyd â lansio ein swyddfa newydd ym Malaysia), Hong Kong, Qatar a Zimbabwe.

**Profiad Myfyrwyr Rhyngwladol**

Yn 2024/25, mae ein rhaglenni cyfnewid ac astudio dramor Mynd yn Fyd-eang yn parhau i alluogi myfyrwyr ym mhob rhan o'n Prifysgol i fwynhau cyfleoedd astudio a diwylliannol dramor, gan gynnwys profiad gwaith, teithiau maes, lleoliadau meddygol a chynlluniau cyfnewid astudio wedi'u cefnogi gan gyllid Taith a Turing.

Ym mis Mai 2025, agorwyd ein Lolfa Groeso newydd, lleoliad bywiog sydd â'r nod o ddod â myfyrwyr ynghyd, dathlu amrywiaeth a chreu cymuned groesawgar i bawb. Wedi'i hysbrydoli gan weledigaeth Mr Andrew Shin, cyn-fyfyriwr o Hong Kong, bydd y Lolfa yn cefnogi cenedlaethau o fyfyrwyr yn y dyfodol i feithrin cysylltiadau hirdymor a ffynnu yn eu hamgylchedd newydd.

Rydym wedi cydweithio â'n partner llwybr, Y Coleg, Prifysgol Abertawe, i ymateb yn hyblyg i alw cynyddol newidiol y farchnad drwy barhau i amrywio ein sianeli recriwtio myfyrwyr. Mae hyn wedi cynnwys cyd-drefnu digwyddiadau hynod ryngweithiol i hyfforddi asiantau yn rhai o ddinasoedd allweddol y DU (Llundain, Birmingham a Manceinion); ymweliadau recriwtio wedi'u targedu â'r Dwyrain Canol i gefnogi myfyrwyr blwyddyn sylfaen a noddir gan eu llywodraethau a gwaith archwilio i ddatblygu marchnadoedd yn Asia Ganol (gan gynnwys Uzbekistan a Kazakhstan) a fydd yn llywio gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid rhanbarthol y Brifysgol yn y dyfodol. Yn Ne Asia, rydym wedi cryfhau ein presenoldeb digidol drwy weminarau ar y cyd ar gyfer darpar fyfyrwyr, ac rydym yn parhau i ddatblygu ein portffolio academaidd drwy fentrau megis datblygu Rhaglen Sylfaen newydd mewn Nyrsio a Gofal Iechyd.

Gyda'n gilydd, rydym wedi croesawu myfyrwyr i astudio yn Abertawe o 90 o wledydd, gan gynnwys India, Tsieina, Nigeria, Saudi Arabia, Kuwait, Canada, Qatar, Twrci ac Iran. Rydym yn parhau i gynnig hyblygrwydd gan alluogi myfyrwyr i ddechrau eu hastudiaethau ar sawl adeg yn y flwyddyn er mwyn denu myfyrwyr cymwysedig o amrywiaeth o gefndiroedd academaidd a phroffesiynol. Mae lansio ein gradd BSc atodol newydd mewn Rheoli Busnes Byd-eang wedi bod yn hynod lwyddiannus, yn enwedig yn Tsieina, ac rydym yn disgwyl cofrestru rhwng 50 a 60 o fyfyrwyr newydd yng nghylch y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd wedi gweithio i gynyddu cyfran Abertawe o'r farchnad drwy agor swyddfeydd ym Malaysia a'r Emiradau Arabaidd Unedig.

**Partneriaethau Byd-eang Trawsnewidiol**

Mae darparu cyfleoedd i fyfyrwyr i gael mynediad at addysg Prifysgol Abertawe ledled y byd hefyd yn gynyddol bwysig gan ystyried fframwaith polisi mwy llym y DU o ran fisâu i fyfyrwyr rhyngwladol sydd am astudio yn y DU.

Yn 2024/25, buom yn parhau i dyfu ein rhwydwaith byd-eang gyda phartneriaethau academaidd a gymeradwywyd i gyflwyno graddau breiniol, graddau cydweithredol a chydweddu. Mae'r ymdrechion hyn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio am radd gan Brifysgol Abertawe mewn lleoliadau ledled y byd, ac mae ein gweithgareddau Addysg Drawswladol yn ehangu mynediad ar raddfa fyd-eang gan gyfrannu'n gadarnhaol at ein cynaliadwyedd amgylcheddol.

Ym mis Medi 2024, lansiwyd ein gradd ddeuol mewn Cyfraith Forwrol gyda Phrifysgol Forwrol Dalian yn Tsieina gan gofrestru 77 o fyfyrwyr. Ar ben hyn, cymeradwyodd Gweinyddiaeth Addysg Tsieina ein Sefydliad Addysg ar y Cyd â Phrifysgol Dechnegol Nanjing ym mis Mai 2025, a fydd yn cynnig graddau deuol israddedig ac ôl-raddedig mewn Peirianneg a graddau ymchwil ôl-raddedig a ddyfernir gan Abertawe. Byddwn yn lansio'r Sefydliad yn ffurfiol ym mis Medi 2025 gan gofrestru dros 200 o fyfyrwyr israddedig. Mae nifer y myfyrwyr israddedig sy'n astudio ar ein Rhaglen Addysg ar y Cyd â Phrifysgol Peirianneg Harbin yn Tsieina hefyd yn cynyddu 50%.

Mae ein cytundeb â Chanolfan Addysg Ryngwladol Uniciti (UIEH) ym Mauritius yn cymryd cam uchelgeisiol ymlaen drwy gynnig gradd Meddygaeth arfaethedig i raddedigion. Hon fydd yr ysgol feddygaeth gyntaf yn Affrica i'w sefydlu drwy bartneriaeth rhwng y DU ac Affrica. Ei nod fydd cefnogi hyfforddiant gweithwyr meddygol proffesiynol ledled y rhanbarth - ychwanegiad o bwys at y cyrsiau BSc a DPP Nyrsio sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ym Mauritius.

Mae ein partneriaeth â Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du yn Wcráin bellach yn ei phedwaredd flwyddyn. Yn 2024/25, buom yn parhau i groesawu myfyrwyr a staff i Abertawe ar gyfer ymweliadau a darlithoedd, a datblygu grantiau ymchwil ar y cyd a chynnal cyfres o seminarau ar y cyd i fyfyrwyr. Mae'r bartneriaeth yn parhau i dyfu, gan ddatblygu MSc ar-lein ar y cyd mewn Heriau Byd-eang y disgwylir ei lansio ym mis Medi 2026. Bydd ysgoloriaethau am y rhaglen hon ar gael diolch i gefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr hael.

Yn 2024/25, gwnaethom gymryd camau cadarnhaol tuag at ehangu ein presenoldeb ym Malaysia, gan gynnwys agor ein swyddfa newydd yn Kuala Lumpur a fydd yn sicrhau y gallwn weithio gyda gwybodaeth a rhwydweithiau lleol. Rydym hefyd wedi ymuno â Chonsortiwm Prifysgolion y DU-Malaysia a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein partneriaethau a'n cydweithrediadau yn y rhanbarth hwn. Rydym yn mynd ati'n weithredol i ddatblygu amrywiaeth o gyfleoedd yn yr ardal hon, gan gynnwys cyflwyno cais i Gyngor y Bar Malaysia i gydnabod ein graddau LLB.

Yn olaf, rydym yn parhau i archwilio a thyfu ein cydweithrediadau Addysg Drawswladol breiniol. Ym mis Medi 2024, gwnaethom lansio dau gydweithrediad gradd Addysgu ôl-raddedig freiniol mewn Seicoleg gydag Astudiaethau Gwyddoniaeth a Thechnoleg Annibynnol yng Ngwlad Groeg. Rydym yn manteisio ar y bartneriaeth hon sy'n datblygu drwy ehangu ein darpariaeth i gynnwys rhaglenni israddedig breiniol mewn Seicoleg a Rheoli Busnes o fis Medi 2025. Byddwn hefyd yn lansio gradd freiniol (atodol) i gyd-fynd â'r BSc Rheoli Busnes Byd-eang gyda'r Sefydliad ERC yn Singapore ym mis Medi.

# EIN HYSTAD

**Mae ein hystad ddiriaethol a digidol yn hanfodol i brofiad cyffredinol ein staff, ein myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Felly, rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gennym mewn nifer o fentrau allweddol eleni.**

**Ymyriadau Datgarboneiddio**

Yn 2020, gwnaethom osod targed i gyflawni gostyngiad o 100% yn ein hallyriadau carbon cwmpas 1 a 2 erbyn 2035 a gostyngiad o 50% yn ein hallyriadau carbon cwmpas 3 erbyn yr un dyddiad. At y diben hwn, gwnaethom lunio Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio a oedd yn manylu ar brosiectau lleihau carbon i gyflawni'r targedau hyn. Yn 2024, gwnaethon sicrhau £11.4m mewn cyllid gan raglen Di-garbon Llywodraeth Cymru i gefnogi sawl prosiect a oedd yn ymwneud â datgarboneiddio a gwell effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau.

**Optimeiddio Gofod**

Mae ein Rhaglen Optimeiddio Gofod yn fenter gynhwysfawr a lansiwyd yn 2024 i'n galluogi i ddefnyddio a rheoli gofod ar draws ystad y Brifysgol yn fwy effeithlon. Ein nod yw lleihau ein hôl troed defnydd cyffredinol 20%, gan hyrwyddo effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol a gwella profiad y defnyddiwr i'n staff a'n myfyrwyr.

Mae cam un yn cael ei roi ar waith rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Rhagfyr 2025 a bydd mesurau gwella effeithlonrwydd gofod ychwanegol yn cynnwys:

- Rhesymoli amserlenni;
- Asesu cyfleoedd masnachol ar draws ein hystad i gefnogi cenhadaeth a gweledigaeth ein Prifysgol;
- Mentrau 'buddsoddi i arbed' i gefnogi amcanion y Rhaglen.

**Menter ar y Cyd Parc Chwaraeon Bae Abertawe**

Mae Prifysgol Abertawe a Chyngor Abertawe wedi bod yn cydweithio ers sawl blwyddyn i archwilio cyfleoedd i ddatblygu model gweithredu Parc Chwaraeon Bae Abertawe i'r dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar y bartneriaeth menter ar y cyd lwyddiannus rhwng y Brifysgol a'r Cyngor sydd wedi bod ar waith ers 1999 i reoli Pwll Cenedlaethol Cymru.

Mae'r partneriaid wedi cytuno i symud holl weithrediadau Parc Chwaraeon Bae Abertawe (gan gynnwys Pwll Cenedlaethol Cymru) i fodel menter ar y cyd newydd dros y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn sicrhau gweithrediad mwy cyfannol i'r dyfodol ac yn gwireddu amrywiaeth o fuddion i'r ddau bartner, yn ogystal â'n cymuned ehangach.

**Diweddaru Rhwydwaith y Brifysgol**

Eleni, rydym wedi cwblhau gosod 12km o geblau ffeibr optig mewn 57 o adeiladau ar gampws y Bae a champws Singleton. Mae hyn wedi darparu sylfaen hyblyg a mwy gwydn sy'n ein galluogi i gyflwyno rhwydwaith galluedd uwch diogel ar gyfer dysgu, addysgu ac ymchwil. Yn ogystal, rydym wedi disodli'r holl bwyntiau mynediad Wi-Fi â'r dechnoleg ddiweddaraf ac wedi diweddaru gwasanaethau Wi-Fi yn Llyfrgelloedd y Bae a Pharc Singleton i wella argaeledd a pherfformiad.

**Mudo o'r Ganolfan Ddata i'r Cwmwl:**

Rydym wedi cwblhau'r broses o symud 700 o weinyddion o'n canolfan ddata i'r cwmwl. Mae'r prosiect wedi darparu sylfaen i foderneiddio ein hisadeiledd TG drwy dechnegau yn seiliedig ar y cwmwl, yn enwedig ym maes data/deallusrwydd artiffisial a moderneiddio cymwysiadau, ac mae'n gam ymlaen at wasanaeth ar sail y cwmwl, sydd ar gael ddydd a nos, saith niwrnod yr wythnos. Mae'r prosiect mudo hwn wedi gwella diogelwch a gwydnwch ein data hefyd.

**Seiberddiogelwch a Diogelwch Gwybodaeth:**

Mae'r dirwedd seiberfygythiadau'n parhau i fod yn hynod heriol, yn rhannol oherwydd yr hinsawdd geo-wleidyddol bresennol. Rydym yn monitro seiberfygythiadau posib yn rhagweithiol, ac yn parhau i weithio gyda JISC (partner gwasanaethau digidol y sector yn y DU) i wella ein seiberddiogelwch, gan gynnwys rhoi Canolfan Gweithrediadau Diogelwch newydd ar waith.

**Gwelliannau i Gyfleusterau Clyweledol Mannau Addysgu:**

Rydym wedi diweddaru hen gyfarpar clyweledol mewn 21 o leoliadau addysgu allweddol (sy'n cynnig lle i 5,000 o fyfyrwyr rhyngddynt) i wella'r profiad dysgu ac addysgu i'n myfyrwyr a'n staff.

**Edrych i'r Dyfodol:**

Rydym hefyd yn ymgymryd â thri phrosiect trawsnewid mawr a fydd o fudd i gymuned gyfan ein Prifysgol:

- symud ein system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid i'r cwmwl;
- ail-weithredu ein system cynllunio adnoddau menter yn y cwmwl; bydd y system newydd yn ad-drefnu ein swyddogaethau AD, Cyllid a Chyflogres, a disgwylir iddi gael ei lansio ym mis Ebrill 2026;
- ail-weithredu ein system cofnodion myfyrwyr (SITS); aeth y cam cyntaf (ar gyfer derbyn myfyrwyr) yn fyw ym mis Medi 2024 a disgwylir i gam dau fod ar waith ym mis Ebrill 2026.



# EIN CYNALIADWYEDD

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i greu dyfodol mwy cynaliadwy i'n cymuned a'r byd. Mae gennym ardystiad ISO 14001 ac ardystiad Platinwm EcoCampus. Yn ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd (2021-2025) rydym wedi addo'r canlynol:

- peidio â buddsoddi'n uniongyrchol mwyach mewn cwmnïau tanwydd ffosil;
- haneru allyriadau o'n cadwyn gyflenwi a'n gweithgarwch teithio (cwmpas 3) rhwng 2015 a 2035;
- gwneud Prifysgol Abertawe'n Brifysgol Natur-bositif;
- gwreiddio cynaliadwyedd yn ein hymchwil a'n haddysgu;
- cyrraedd sero net o ran ein campysau a'n cerbydau (Cwmpas 1 a 2) erbyn 2035.

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at ein nod o gyrraedd sero net allyriadau carbon erbyn 2035. Ers 2015/16, rydym wedi lleihau allyriadau carbon o'n campysau a'n cerbydau 39% ac wedi cyflawni gostyngiad o 23% mewn allyriadau annuniongyrchol, gan gynnwys o'n gweithgarwch teithio a'n cadwyn gyflenwi.

Mae ein hymdrechion datgarboneiddio yn ystod cyfnod ein Strategaeth Gynaliadwyedd bresennol (2021 – 2025) yn cynnwys gosod dros 2,000 o baneli solar ar doeau'r campysau i gynhyrchu pŵer adnewyddadwy a disodli goleuadau â mwy na 7,500 o unedau LED clyfar. Rydym hefyd yn gwneud ein campysau'n fwy parod ar gyfer cerbydau trydan gan gynnig 20 man gwefru newydd i ddefnyddwyr.

Ar ben gwella ein hisadeiledd, rydym yn meithrin diwylliant o gynaliadwyedd drwy lythrennedd carbon. Ers 2024/25, mae dros 200 o gyrsiau hyfforddiant yn Llythrennedd Hinsawdd a Charbon wedi cael eu cwblhau gan staff a myfyrwyr.

**Ein hamgylchedd naturiol**

Fel un o lofnodwyr sylfaenu'r Gynghrair Nature Positive Universities, rydym yn ymrwymedig i asesu effaith amgylcheddol ein gweithgareddau ac i gymryd camau ystyrlon i sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar fyd natur. Rydym wedi mapio'r cynefinoedd amrywiol ar ein campysau, ac mae staff a myfyrwyr wedi creu 1.2 hectar o ddolydd blodau gwyllt, gan gyfoethogi bioamrywiaeth drwy blannu dros 5,000 o blanhigion ifanc a hadau blodau gwyllt.

Mae ein hymrwymiad i stiwardiaeth amgylcheddol wedi'i adlewyrchu yn ein gwobrau Baner Werdd a rhaglen gynyddol o fentrau natur-bositif. Rydym yn cefnogi cyfranogiad gan fyfyrwyr a staff drwy interniaethau bioamrywiaeth, sesiynau rheolaidd i lanhau traethau, gwaith cadwraeth ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig lleol a chyfleoedd i staff a myfyrwyr dyfu ffrwythau a llysiau ar y campws. Rydym hefyd yn cynnal arolygon bywyd gwyllt rheolaidd ac yn parhau i wella'r isadeiledd gwyrdd i gynnal bioamrywiaeth.

Y tu hwnt i'n campysau, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaethau natur lleol i sicrhau bod ein hymdrechion yn cydweddu â blaenoriaethau rhanbarthol. Mae'r cydweithrediadau hyn wedi ein helpu i sicrhau cymorth gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ein hamgylchedd gwaith**

Mae ein hardystiadau System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001, LEAF a chan y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy yn ein helpu i reoli risg a llunio cynlluniau gweithredu cynaliadwyedd sy'n lleihau effaith amgylcheddol ac yn cefnogi datblygu cynaliadwy.

Rydym yn falch o gadw ein statws fel prifysgol dim gwastraff i safleoedd tirlenwi ac ers 2024/25 mae dros 65% o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio. Rydym yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle Llywodraeth Cymru ac wedi lleihau gwastraff drwy fentrau megis cynllun ailddefnyddio cyfarpar labordy UniGreenScheme a phartneriaeth â chwmni lleol i uwchgylchu ac ail-glustogi dodrefn. Drwy WARP-IT (ein marchnad ailddefnyddio fewnol) a mannau rhoi eitemau diangen ar y campws, mae cannoedd o eitemau, gan gynnwys dodrefn a dillad, wedi cael eu hail-bwrpasu neu eu rhoi i elusennau.

Rydym hefyd yn mynd i'r afael â gwastraff bwyd a deunyddiau gan gefnogi myfyrwyr gyda chostau byw. Mae ein partneriaeth â Too Good to Go yn lleihau gwastraff o fannau arlwyo ac mae Play it Again Sport yn rhoi ail fywyd i hen gyfarpar chwaraeon.

Roedd ein cydweithrediad â Chanolfan Gymunedol yr Amgylchedd Abertawe yn cynnwys sawl Caffi Atgyweirio lle cafodd eitemau megis gliniaduron a beiciau eu trwsio ar y campws. Ac mewn partneriaeth â'r Goleudy, gwnaethom gynnal digwyddiadau oergell gymunedol ar y campws, gan ddosbarthu dros 400kg o fwyd dros ben i fyfyrwyr - yn lleihau gwastraff ac yn helpu i leddfu'r pwysau ariannol ar gyfer ein staff a'n myfyrwyr.

**Ein teithio cynaliadwy**

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn cydnabod effaith amgylcheddol teithio a'i botensial i hybu iechyd a lles. Rydym yn ymrwymedig i annog myfyrwyr a staff i ddewis dulliau teithio llesol a charbon isel.

Mae ein Cynllun Llogi Beiciau poblogaidd yn parhau i dyfu, ac rydym yn falch mai ni yw'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill achrediad Cyflogwr Cyfeillgar i Feicwyr. Mae cyfranogiad staff yn y cynllun Beicio i'r Gwaith yn parhau'n gryf ac mae myfyrwyr yn elwa o oleuadau a chloeon beic a marcio diogelwch am ddim a sesiynau cynnal a chadw a beicio am ddim mewn partneriaeth â Bikeability Wales.

I gefnogi cymudo cynaliadwy ymhellach, eleni rydym yn parhau i gynnig tocynnau bws am bris gostyngol ac yn darparu hyfforddiant Hyrwyddwyr Teithio'n rheolaidd. Rydym hefyd yn un o aelodau sylfaenu ac yn gydlynydd Siarter Teithio Iechyd Bae Abertawe, gan hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy ar draws y rhanbarth.

Mae ein cerbydlu bellach yn cynnwys mwy na 10 cerbyd trydan a beic cargo trydan ac rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau rhanbarthol i gynnig trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel wedi'i phweru gan hydrogen.

Ar drothwy blwyddyn olaf ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd, mae ymrwymiad cryf o hyd gan Brifysgol Abertawe i wneud cynnydd cyflymach. Gan adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd eisoes, bydd cam nesaf ein taith yn canolbwyntio ar wreiddio llwybrau at sero net, cynyddu ein hymdrechion i adfer natur ac ehangu ein heffaith drwy ymchwil, addysg ac ymgysylltu â'r gymuned. Gyda'n gilydd ac mewn partneriaeth â'n staff, ein myfyrwyr, ein cydweithredwyr a'r gymuned ehangach, rydym yn creu dyfodol gwydn, cynhwysol a chynaliadwy i bawb.



# EIN CYNNYDD MEWN FFIGURAU

## Ein hamgylchedd naturiol

**24**
o sesiynau glanhau traethau
gyda staff a myfyrwyr
ers 2023




Wedi ychwanegu
**6**
o westai pryfed i wella bioamrywiaeth
ers 2023



Wedi creu
**1.2** hectar
o ddolydd blodau gwyllt i gefnogi peillwyr
ers 2023

**2** Wobr y Faner Werdd
ers 2023

Wedi gosod
**30**
o flychau adar ac ystlumod
ers 2023





## Datgarboneiddio ac Effeithlonrwydd Ynni


Gosodwyd
**2,000**
o baneli solar,
gan gynyddu ynni adnewyddadwy ar y safle yn sylweddol

Allyriadau
Cwmpas 3 wedi'u lleihau
**23%**
ers 2015

Gosodwyd
**7,500**
o oleuadau LED clyfar,
gan leihau defnydd o drydan



3 adeilad wedi'u gwneud yn barod am Sero Net,
gan wella effeithlonrwydd ynni



Gosodwyd
**20** gwefrwr cerbydau
trydan i gefnogi teithio carbon isel

Cyflawnwyd gostyngiad o 39% mewn allyriadau o gampysau a'n cerbydlu ar ein **Llwybr i erbyn 2035**

## Bwyd Cynaliadwy a'r Economi Gylchol

**Dyfarnwyd gradd**
**2** ★
seren gan y Gymdeithas Bwytai Cynaliadwy
ers 2023

**Ailddefnyddiwyd**
**50+**
o dunelli o ddodrefn drwy Warp-It
ers 2023

**Wedi rhoi**
**400kg**
o fwyd dros ben drwy ddigwyddiadau Oergell Gymunedol y Goleudy
Goleudy
ers 2023

## Addysg ac Ymgysylltu Cynaliadwyedd

**Darparwyd hyfforddiant Llythrennedd Hinsawdd a Charbon**
i 200 o staff a myfyrwyr
ers 2023



**Cynhaliwyd**
**134**
**o ddigwyddiadau cynaliadwyedd a bioamrywiaeth**
yn ystod y flwyddyn
ers 2023



**Cymerodd**
**2,400+**
o bobl ran yn yr Wythnosau Byddwch yn Wyrdd blynyddol
ers 2023



**14**
labordy ag ardystiad LEAF am arferion labordy gwyrdd

## Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol

**Cefnogwyd**
cymudo cynaliadwy drwy fentrau teithio llesol

**8** sioe feicio ar y ddau gampws




**500** Beic
wedi'u cofrestru ar y Cynllun Cofrestru Beic

**76**
o gofrestriadau i'r cynllun Beicio i'r Gwaith

**19,450**
o feiciau Nextbike wedi'u llogi



# ADOLYGIAD ARIANNOL

## Prif Bwyntiau

| | 2025 | 2024 | | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| (Diffyg) / gwarged gweithredu | (£39m) | £83m | (Diffyg) / gwarged gweithredu fel % o incwm | (12%) | 22% |
| (Diffyg) ac eithrio addasiadau am gynlluniau pensiwn USS a SUPS | (£40m) | (£15m) | (Diffyg) / gwarged gweithredu ac eithrio addasiadau am y cynlluniau pensiwn fel % o incwm | (12%) | (4%) |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | (£35m) | £80m | | | |
| EBITDA | £1m | £28m | EBITDA fel % o incwm | 0% | 7% |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | (£16m) | (£19m) | All-lif arian net o weithgareddau gweithredu fel % o incwm | (5%) | (5%) |
| Arian parod a buddsoddiadau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | £98m | £121m | Diwrnodau hylifedd | 104 | 121 |

**Cwmpas y Datganiadau Ariannol**

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cyfuno Prifysgol Abertawe, ei his-gwmnïau a'i chwmnïau cysylltiol a chawsant eu paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102) fel y'i dehonglir gan argraffiad 2019 o'r Statement of Recommended Practice: Accounting for further and higher education.

**Trosolwg**

Mae strategaeth ariannol y Brifysgol yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu digon o arian parod i ddarparu gwydnwch, creu'r lefelau angenrheidiol o gyfalaf gweithio ac i'w gallu i wneud buddsoddiad hanfodol yn yr ystad a phrosiectau isadeiledd. Mae hyn yn her gynyddol i'r Brifysgol a'r sector cyfan, wrth i gystadleuaeth am recriwtio myfyrwyr cartref a thramor gynyddu. Rhoddodd y Brifysgol Raglen Cynaliadwyedd Ariannol deirblwydd ar waith yn haf 2023, a oedd yn cynnwys targedau uchelgeisiol ar gyfer arbedion cyflog ac mewn meysydd eraill, yn ogystal â thargedau i gynhyrchu incwm ychwanegol.

Er y gwnaed cynnydd ardderchog wrth gyflawni'r arbedion yn y rhaglen hon, mae'r newidiadau parhaus i bolisi mewnfudo'r DU wedi effeithio'n negyddol ar recriwtio myfyrwyr tramor eleni a gwnaed arbedion ychwanegol yn y flwyddyn i liniaru'r gostyngiad mewn incwm.

Roedd y Brifysgol wedi cynllunio ar gyfer diffyg gweithredu sylfaenol (ac eithrio addasiadau am bensiynau) eleni o £44.1m. Fodd bynnag, llwyddwyd i gyflawni arbedion uwchlaw'r targedau, felly mae'r gwir ddiffyg gweithredu, sef £39.9m, £4.2m yn llai'r na'r hyn a ragwelwyd. Roedd gan y Brifysgol EBIDTA positif, sef £1.5m a llwyddodd i gynnal sefyllfa arian parod gref ar ddiwedd y flwyddyn, sef £97.6m a oedd yn gyfwerth â 104 o ddiwrnodau hylifedd.


Rhagwelodd y Brifysgol hefyd y byddai dau o'i thri chyfamod bancio gyda Banc Buddsoddi Ewrop yn cael eu torri erbyn 31 Gorffennaf 2025 a llwyddodd i negodi ildiad a llythyr diwygio ym mis Tachwedd 2024. Mae'r Brifysgol wedi cytuno ar ildiad arall gyda Banc Buddsoddi Ewrop mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2026.

## Income – gostyngiad o 13% i £334m


Cafwyd gostyngiad o £48.1m mewn incwm yn ystod 2025 gan gynnwys gostyngiadau ym mhob categori. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn ffïoedd dysgu a chontractau addysg, sef £36.7m yn y flwyddyn a chafwyd gostyngiad o £5.6m mewn contractau addysg o'i gymharu â chyfanswm 2024.

Gan fod cynllun pensiwn USS wedi'i ariannu'n llawn bellach, yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, nid oes addasiadau sylweddol am bensiynau.

### INCWM A GWARGED GWEITHREDU FEL % O INCWM



## INCWM FESUL CATEGORI




**Gostyngodd incwm o ffioedd dysgu 17% i £177m.**


Yn debyg i lawer yn y sector addysg uwch, parhaodd recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol yn heriol yn 2024/25. Gostyngodd incwm o ffioedd dysgu £36.7m o'r flwyddyn flaenorol, gyda myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrif am y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd rhyngwladol. Ar ôl sawl blwyddyn lwyddiannus o recriwtio myfyrwyr tramor, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr rhyngwladol a gostyngiad llai yn nifer y myfyrwyr sy'n parhau. Erys ansicrwydd parhaus ynghylch y farchnad dramor yn sgîl polisïau mewnfudo llywodraeth y DU, sy'n cael ei adlewyrchu mewn gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis dod i'r DU i astudio.

**Gostyngodd grantiau cyrff cyllido (ac eithrio incwm grantiau cyfalaf) 6% i £34m.**

Parhaodd grantiau cylchol ar gyfer addysgu ac ymchwil (ac eithrio cyfalaf) yn gymharol gyson â'r flwyddyn flaenorol ar £30.0m, a gostyngodd grantiau cyfalaf cylchol £2.2m i £1.2m oherwydd oedi wrth dderbyn £1.2m mewn Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.

Gostyngodd grantiau nad ydynt yn gylchol penodol gan gyrff cyllido i gefnogi ymchwil ac arloesi yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 yn sgîl cwblhau nifer o brosiectau ymchwil, gostyngiad yn y cyllid a ddyrannwyd ac ailddosbarthu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn gyllid cylchol, gan roi cyfanswm o £1.6m yn y flwyddyn. Derbyniwyd £4.2m pellach mewn grantiau cyfalaf, sef cynnydd o £2.8m ers y flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu arian grant ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau strategol, gan gynnwys y rhai hynny at ddiben cyflawni nodau datgarboneiddio'r Brifysgol.

## INCWM FFÏOEDD DYSGU



**Gostyngodd incwm ymchwil, ac eithrio grantiau cyfalaf, 9% i £51m.**

Mae'r gostyngiad o 61% mewn incwm gan grantiau a noddir gan y Llywodraeth dros y ddwy flynedd i 31 Gorffennaf 2025 yn ganlyniad uniongyrchol cymorth Cronfeydd Strwythurol yr UE yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, a 2024/25 oedd y flwyddyn gyntaf heb i ni dderbyn unrhyw arian o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Bu gweddill y portffolio ymchwil yn parhau i berfformio'n dda gyda chynnydd arall yng nghyllid y Cyngor Ymchwil wrth i'r Brifysgol barhau i ganolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a ariennir gan y Cyngor Ymchwil.

**Parhaodd incwm arall yn weddol sefydlog, gan ostwng 2% i £61m.**

Mae Incwm Arall yn cynnwys incwm a gynhyrchir ar draws y Brifysgol nad yw wedi'i gofnodi dan y penawdau craidd, sef ffioedd dysgu, grantiau cyrff cyllido, ymchwil ac incwm o fuddsoddi. Gostyngodd incwm o lety myfyrwyr a dderbyniwyd yn y flwyddyn i £20.4m o £21.9m yn y flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr unedau a feddiannir ar Gampws y Bae.

Gostyngodd incwm o arlwyo £0.3m yn y flwyddyn a gafodd ei briodoli i bresenoldeb llai o bobl ar y campysau a newidiadau mewn patrymau gwario myfyrwyr. Fodd bynnag, cafodd y gostyngiad hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad mewn gwariant heblaw am gyflogau. Adroddodd Gwasanaethau Cynhadledd lefelau is o weithgarwch masnachol yn ystod 2024/25, gan arwain at ostyngiad o £0.5 miliwn mewn incwm o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Derbyniwyd £6.1m mewn incwm gan y GIG i gefnogi gweithgareddau academaidd yn y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn ystod 2025, £1.5m yn llai nag yn 2024.

Mae Incwm Arall yn cynnwys £9.5m sy'n addasiad cyfrifyddu mewn perthynas â phreswylfeydd y Bae a gaiff ei drin fel Trefniant Consesiwn Gwasanaeth. Rhyddhad blynyddol y ddarpariaeth yw hyn, nid trafodiad arian parod.


**Gostyngodd Incwm o Fuddsoddi 33% i £5m.**

Parhaodd cyfrifon banc a chronfeydd arian i berfformio'n dda er gwaethaf gostyngiadau yn yr incwm a gynhyrchwyd. Gellir priodoli hyn i newidiadau yn yr economi ehangach, tynnu arian o gronfeydd buddsoddi ac o ganlyniad i gadw llai o arian parod mewn cronfeydd wrth gefn.

Cynhyrchodd y gronfa arian tymor byr a gedwir gyda Royal London Asset Management gyfradd adennill net ar gyfartaledd o 4.69%, sef gostyngiad bach ers 2024 ond perfformiad cryf o hyd. Gostyngodd enillion wrth i lai o arian parod wrth gefn gael ei ddal ar gyfartaledd yn y gronfa drwy'r flwyddyn. Parhaodd llog a gafwyd o'r cyfrif cyfredol yn gymaradwy â'r flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiad bach yn y gyfradd llog drwy'r flwyddyn.

Cafodd y gronfa buddsoddiadau gwaddol parhaol a oedd yn cael ei dal gyda Barclays Bank ei datod yn y flwyddyn oherwydd rhesymau moesegol a chynaliadwyedd. Roedd angen sawl mis i symud arian o'r gronfa hon oherwydd natur nifer o fuddsoddiadau, ac o ganlyniad i hyn cafwyd gostyngiad yn yr enillion ar y buddsoddiadau hyn yn y flwyddyn.


**GRANTIAU YMCHWIL**




## Gwariant - gostyngodd 6% i £373m

Gostyngodd gwariant yn y flwyddyn (ac eithrio addasiadau yn sgîl prisiad USS) £24.5m i £373.0m. Gostyngodd costau staff (ac eithrio addasiadau yn sgîl prisiad USS a chostau ailstrwythuro) 1% i £199.5m, a gostyngodd gwariant gweithredu arall 14% i £127.1m.

**GWARIANT AC EITHRIO ADDASIADAU YN SGÎL PRISIAD CYNLLUN PENSIWN USS**




**Gostyngodd costau staff (ac eithrio'r addasiad ar gyfer cynllun USS a chostau ailstrwythuro) 1% i £199m.**

Cafwyd gostyngiad pellach o 213 yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn ystod 2025 yn dilyn gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu effaith y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Cafwyd gostyngiadau yn nifer y staff CALl ym mhob categori a'r gostyngiad mwyaf, sef 61 CALl, oedd yn y categori staff Rheoli ac Arbenigol (ac eithrio'r categori "arall").

Gwnaed neu cronnwyd cyfanswm o daliadau digolledu uwch gwerth £8.4m fel rhan o'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn 2024/25 a bydd hyn yn parhau yn ystod 2025/26.

Cynyddodd costau staff (ac eithrio'r addasiad ar gyfer cynllun USS a chostau ailstrwythuro) fel canran o incwm (ac eithrio grantiau cyfalaf) i 63% o 56% o ganlyniad i ostyngiad o lai na 1% mewn costau staff ond gostyngiad sylweddol mewn incwm. Cynyddodd y cyflog blynyddol cyfartalog i £47,000 o £45,000 gan adlewyrchu'r dyfarniad tâl cenedlaethol, cynyddrannau blynyddol a phroffil y staff. Disgwylir i effaith y gostyngiadau mewn staff gael ei hadlewyrchu yn 2025/26 ac mewn blynyddoedd i ddod.

## COSTAU STAFF FEL % O INCWM (AC EITHRIO GRANTIAU CYFALAF)




**Gostyngodd gwariant heblaw am gyflogau 14% i £127m.**

Fel rhan o'r ymagwedd ofalus a rhagweithiol at reoli gwariant yn unol â'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, cafwyd gostyngiad sylweddol mewn gwariant dewisol heblaw am gyflogau yn 2024/25.

Rhent, ardrethi a phrydlesi oedd y costau uchaf heblaw am gyflogau i'r Brifysgol yn ystod 2025 ar £25.0m, swm a oedd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae'r costau hyn, sy'n adlewyrchu costau rhentu preswylfeydd myfyrwyr yn bennaf, yn cynnwys £20.7m ar gyfer Campws y Bae a Champws Singleton, a chostau eraill mewn perthynas â'r ddwy breswylfa yng nghanol y ddinas a oedd ar gael i fyfyrwyr am ail flwyddyn drwy gytundebau enwebu â'r darparwyr. Roedd y gost am unedau gwag yn cyfrif am £2.9m o'r costau rhentu.

Parhaodd costau ymgynghoriaeth a gwasanaethau wedi'u contractio, sef £22.0m, yn gyson flwyddyn ar flwyddyn hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys grant o £1.2m i Undeb y Myfyrwyr a chontractau trydydd parti ar gyfer rheoli cyfleusterau caled a meddal, arlwyo a gwasanaethau cyfreithiol. Parhaodd gwariant ar gyfarpar heb ei gyfalafu yn ddigyfnewid ar £12.1m yn dilyn gostyngiad sylweddol ers 2023 pan gyflwynwyd y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Gostyngodd ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau 26% i £15.4m, a chafwyd gostyngiad o £6.4m mewn costau recriwtio myfyrwyr o ganlyniad yn bennaf i lefelau is o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Gostyngodd costau cyfleustodau'n sylweddol o £13.6m i £9.3m yn sgîl adolygiad o dariffau a TAW a arweiniodd at ad-daliadau gan gyflenwyr o ran costau a dalwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Cynyddodd tanysgrifiadau a chyfraniadau £1.4m i £4.7m, yn bennaf oherwydd cyfraniadau uwch at Gynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe, ynghyd â gwariant ychwanegol ar danysgrifiadau llyfrgell a marchnata a thaliadau grant.

## TREULIAU GWEITHREDU ERAILL 2025



## Y Fantolen

Er gwaethaf yr heriau ariannol parhaus a wynebir gan lawer yn y sector addysg uwch, mae mantolen y Brifysgol yn parhau'n gryf gydag asedau cyfredol net o £42.1m a £292.9m mewn cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, gostyngodd asedau cyfan £51.0m, gan gyfrannu at ostyngiad o £108.3m mewn asedau cyfan dros gyfnod o ddwy flynedd ac o ganlyniad yn bennaf i'r gostyngiad mewn arian parod a buddsoddiadau hylif, yn ogystal â gostyngiad cyffredinol yng ngwerth asedau sefydlog diriaethol yn sgîl dibrisiad.

Gostyngodd **asedau anghyfredol** £14.8m, yn dilyn y gostyngiad angenrheidiol mewn gwariant arian parod ar ychwanegiadau cyfalaf yn y flwyddyn i £19.7m; parhaodd dibrisiant yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r Rhaglen Optimeiddio Gofod yn ceisio cydgrynhoi gofod a chyflawni lefelau gwell o feddiant cyffredinol, ac mae newidiadau i ddefnydd nifer o adeiladau wedi arwain at amhariad yn yr ardaloedd hynny, gan leihau asedau anghyfredol ymhellach yn y flwyddyn.

Gostyngodd **asedau cyfredol** £36.1m o ganlyniad i'r gostyngiad o £28.5m mewn arian parod a buddsoddiadau cyfredol. Cyfrannodd gweithgareddau gweithredu £15.6m at y gwariant arian parod, a defnyddiwyd £13.3m ychwanegol o arian parod o gronfeydd wrth gefn y Brifysgol i brynu cyfarpar a chyfrannu at waith adeiladu. Cost gwasanaethu benthyciadau yn ystod 2024/25 oedd £9.3m a chost consesiynau gwasanaeth oedd £9.5m. Derbyniwyd dau fenthyciad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (Digarbon) gwerth cyfanswm o £14.6m yn y flwyddyn i gefnogi prosiectau datgarboneiddio'n benodol, gan helpu i wella'r balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd y buddsoddiad asedau cyfredol gwaddol ei ddatod a'i ddal mewn cyfrif cadw arian parod dros ddiwedd y flwyddyn. Gostyngodd masnach a symiau eraill i'w derbyn £7.6m i £33.9m o ganlyniad yn bennaf i wahaniaethau amseru ac ar y cyd â gostyngiad mewn rhagdaliadau a dyledwyr ymchwil.

Gostyngodd **rhwymedigaethau cyfredol** £11.2m wrth i groniadau a chredydwyr masnach leihau, yn rhannol o ganlyniad i'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ac oherwydd gwahaniaethau amseru. Gostyngodd adneuon a dderbyniwyd ymlaen llaw £2.8m i £6.1m o ganlyniad yn gyfan gwbl i'r gostyngiad mewn myfyrwyr rhyngwladol.

Cynyddodd **credydwyr sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn** £1.3m er gwaethaf ad-dalu benthyciadau a dad-ddirwyn y rhwymedigaeth o ran prydles y trefniant gwasanaeth consesiwn gwasanaeth yn sgîl derbyn y ddau fenthyciad Digarbon.

Erbyn hyn yr unig **Ddarpariaethau** yw'r rhai hynny ar gyfer diffyg cronfa Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe ar ôl i brisiad 2023 nodi bod gwarged gan gynllun pensiwn USS. Gostyngodd y ddarpariaeth ar gyfer diffyg Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe £6.6m i £12.4m yn dilyn enillion actiwaraidd o £5.4m yn y flwyddyn a pharhau i dalu cyfraniadau at y diffyg.

## Cyfamodau

Er mwyn bodloni'r amodau benthyca a bennwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop, mae'n rhaid i'r Brifysgol sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfamodau canlynol:

1. Ni ddylai'r gymhareb Dyledrwydd Ariannol Net i EBITDA wedi'i addasu fod yn fwy na 6.5:1
2. Dylai'r gymhareb Llif Arian Gweithredu Net i Gostau Gwasanaethu Dyledion fod o leiaf 1.1:1
3. Ni ddylai'r Gymhareb Dyledrwydd Ariannol wedi'i Addasu i Refeniw fod yn fwy nag 85%
4. Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio ag unrhyw amod arall a bennir mewn perthynas â Medr.

Rhagwelodd y Brifysgol y byddai'n torri dau gyfamod am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 a llwyddodd i ail-negodi cyfamodau benthyca Banc Buddsoddi Ewrop. Cytunodd Banc Buddsoddi Ewrop i seibiant ar gyfer cyfamodau 1 a 2 uchod yn ystod 2024/25 ac i gyflwyno cyfamod newydd. O ganlyniad i hyn, cynyddodd costau benthyca rhwng 24 a 30 pwynt sylfaen ar draws chwe chyfran benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop o 1 Awst 2024.

Cyfamod dros dro Banc Buddsoddi Ewrop, a gaiff ei brofi bob chwarter tan 31 Ionawr 2026 yw:

5. Bydd swm cyfanredol Arian Parod ac Eitemau Cyfwerth ag Arian Parod a Buddsoddiadau Tymor Byr, ynghyd â symiau sydd ar gael a heb eu defnyddio o dan Gyfleuster Credyd Cylchol yn fwy na £50m ar gyfer pob chwarter o 31 Gorffennaf 2024 tan 31 Ionawr 2026.

Roedd cyfamodau 3 a 4 a chyfamod dros dro, 5, i gyd wedi'u bodloni ar y dyddiadau profi gofynnol ac ar 31 Gorffennaf 2025.


## Gwariant Cyfalaf a Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd

Gostyngodd gwariant cyfalaf 39% yn y flwyddyn i £19.7m.

Cafodd y gwaith o lunio Prif Gynllun y Campysau ei gwblhau yn 2024, gan adeiladu ar y Strategaeth Ystadau bresennol, a hwn oedd sylfaen rhaglen gytunedig o wariant cyfalaf. Fodd bynnag, cafodd cynllun isadeiledd 2025 ei leihau yn ystod 2024 fel rhan o'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol pan benderfynwyd gohirio neu ganslo nifer o brosiectau neu leihau eu maint. Yn unol â Phrif Gynllun y Campysau, gwariwyd £1.5m ar brosiectau sero net fel rhan o'r llwybr i ddatgarboneiddio'r campysau erbyn 2023, gan ganolbwyntio ar wella'r perfformiad ynni ar bob campws. Gwariwyd £4.8m ar brynu tir ar Gampws y Bae ac roedd prosiectau llai ar waith ar Gampws Singleton a Lôn Sgeti.

Fel rhan o'r Strategaeth Trawsnewid Digidol, cyrhaeddodd prosiect y rhwydwaith ei gamau terfynol a gwariwyd £1.0m ychwanegol yn ystod 2025.

### GWARIANT CYFALAF A DERBYNEBAU GRANTIAU




## Arian Parod a Dyled

**Gostyngodd arian parod, gan gynnwys buddsoddiadau cyfredol, i £97.5m.**

Cafwyd all-lif o arian parod o weithgareddau gweithredu, sef £15.6m, yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025. Yn ogystal, defnyddiwyd £9.3m o arian parod i wasanaethu'r trefniadau benthyca yn y flwyddyn a derbyniwyd £14.6 mewn arian parod gan y cynllun Digarbon, cronfa ddatgarboneiddio ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Ariannodd y Brifysgol £13.2m o'r gwariant cyfalaf o'i chronfeydd arian parod wrth gefn, a oedd wedi gostwng 47% ers y flwyddyn flaenorol. Er bod y Cynllun Trawsnewid Digidol wedi cael ei leihau, roedd prosiect y rhwydwaith digidol yn agos at ei gwblhau, a bu nifer o brosiectau strategol a hanfodol yn parhau, gan gynnwys prosiectau sero net a phrynu tir ar Gampws y Bae.

**Cynyddodd dyledrwydd net £24.4m i £118.7m.**

Gwnaed ad-daliadau benthyciadau o £6.3m yn ystod y flwyddyn ond tynnwyd cyfanswm o £14.6m i lawr o fenthyciadau ar ddau achlysur gan gynyddu'r benthyciadau dyledus ar ddiwedd y flwyddyn i £106.6m. Roedd y ddyled mewn perthynas â'r trefniant consesiwn gwasanaeth ar gyfer y preswylfeydd myfyrwyr wedi gostwng i £109.5m ar 31 Gorffennaf 2025 yn dilyn dad-ddirwyn y rhwymedigaeth am y brydles gan fod yr ymrwymiad eisoes wedi'i roi i UPP yn 2024 i warantu 100% o ddyraniad yr ystafelloedd tan fis Gorffennaf 2026.


Gostyngodd arian parod £22.8m yn y flwyddyn, o ganlyniad yn bennaf i'r golled ar weithgareddau gweithredu, a gostyngodd buddsoddiadau asedau cyfredol £5.4m o ganlyniad i ddatod y portffolio buddsoddiadau gwaddol, gan gynyddu arian parod dros dro dros gyfnod diwedd y flwyddyn.

## Darpariaethau Pensiwn

Mae'r Brifysgol yn aelod o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) sy'n darparu pensiynau ar gyfer staff academaidd a phroffesiynol. Yn y prisiad teirblwydd diweddaraf ar 31 Mawrth 2023, symudodd y cynllun o ddiffyg i warged o £7.4 biliwn, gan olygu nad oedd angen y ddarpariaeth mwyach.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu cynllun CARE, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) ar gyfer cyflogeion anacademaidd, sydd bellach ar gau i aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd diffyg Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe o £19.0m i £12.4m o ganlyniad i gydnabod cynnydd actiwaraidd o £5.4m mewn incwm cynhwysfawr a thalu cyfraniadau at y diffyg a lleihau'r rhwymedigaeth ymhellach.

### ARIAN PAROD, DYLEDION A DYLEDUSRWYDD NET



# RHAGOLYGON AR GYFER Y DYFODOL A BUSNES GWEITHREDOL

**Rhagolygon ar gyfer y dyfodol**

Mae heriau mawr i sefyllfa ariannol sector addysg uwch y DU yn debygol o barhau, gan ystyried y diffyg sicrwydd parhaus mewn perthynas â model cyllido ac economaidd y dyfodol ar gyfer prifysgolion.

Er gwaethaf y cynnydd mewn ffioedd ar sail chwyddiant a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU, mae gwerth gwirioneddol incwm o ffioedd dysgu israddedigion y DU yn parhau i ostwng o'i gymharu â chostau.

Ar ben hyn, o ganlyniad i benderfyniadau polisi llywodraeth y DU dros y ddwy flynedd diwethaf ac ansicrwydd geo-wleidyddol ehangach, mae nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru ym mhrifysgolion y DU wedi bod yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, a disgwylir i'r tueddiad hwn barhau.

Mae costau gweithredu yn parhau i gynyddu. Mae costau cyflogau wedi cynyddu yn sgîl y cynyddiadau diweddar yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, ac mae costau eraill megis cyfleustodau a thrwyddedau meddalwedd yn parhau i gynyddu'n fwy na chwyddiant.

Mae angen buddsoddiadau ariannol sylweddol hefyd i gynnal a chadw ystadau prifysgolion sy'n heneiddio ac i gyflawni'r prosiectau datgarboneiddio sy'n angenrheidiol i alluogi prifysgolion i gyflawni eu targedau sero net.

O ganlyniad i gyfuniad o'r pwysau hyn, mae llawer o brifysgolion wedi cyhoeddi diffyg ariannol dros y blynyddoedd diwethaf a chrëwyd tirwedd recriwtio myfyrwyr sy'n ansicr ac yn gystadleuol. Er i Brifysgol Abertawe gofrestru'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr tramor yn 2023/24, yn 2024/25 cofrestrwyd 75% yn llai o fyfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol nag yn 2023/24, a chofrestrwyd 40% yn llai o fyfyrwyr israddedig rhyngwladol nag yn y flwyddyn flaenorol.

Dyma gyd-destun ein penderfyniad i greu Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol uchelgeisiol yn 2023/24 a fydd yn ein galluogi i gyflawni arbedion cynlluniedig gwerth £56m mewn costau cyflogau a chostau ar wahân i gyflogau erbyn 2025/26. Fodd bynnag, yn sgîl gostyngiadau parhaus a sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio, mae ein rhagolygon diweddaraf yn dangos diffyg sylweddol arall i'r Brifysgol yn 2025/26 cyn i ni ddychwelyd at warged yn 2026/27.

Mae'r Is-ganghellor wedi datgan yn glir i gydweithwyr, undebau cydnabyddedig ein campysau a'n corff llywodraethu y bydd Prifysgol Abertawe yn parhau'n sefydliad amlddisgyblaeth sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, ond y bydd angen rhagor o arbedion wrth i ni newid maint a ffurf y sefydliad.

Roedd gan y Brifysgol £98m mewn arian parod a buddsoddiadau ar 31 Gorffennaf 2025, sy'n llai na'r swm ar 31 Gorffennaf 2024, sef £121m, ond yn well na'r rhagamcan gwreiddiol ar gyfer 2024/25. Er bod hyn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i'n galluogi i gymryd y camau gweithredu pellach a gynigir, nid yw all-lifoedd net parhaus o arian gweithredu yn gynaliadwy i'r Brifysgol.

Mae'r rhagamcanion ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd angen rhagor o arbedion, ac mae gwaith wedi dechrau i sicrhau y cyflawnir y rhain erbyn 31 Gorffennaf 2026. Yn debyg i nifer o sefydliadau eraill, gwnaeth y Brifysgol y penderfyniad anodd i ddefnyddio'r mecanwaith a ddarparwyd gan UCEA i ohirio gweithredu'r dyfarniad cyflog a negodwyd yn genedlaethol ar gyfer staff prifysgolion tan fis Gorffennaf 2026. Rydym hefyd yn rheoli swyddi gwag yn ofalus a byddwn yn cynnig Cynllun Ymadael yn Wirfoddol i staff academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol er mwyn arbed £25m yn ychwanegol mewn cyflogau erbyn 2026/27.

Mae ein rhagamcan hefyd yn adlewyrchu gostyngiad i £125m mewn costau heblaw am gyflogau yn 2025/26, o uchafbwynt o £147m yn 2023/24, a gostyngiad pellach i £115m erbyn 2026/27. Er bod cyfran o hyn yn ymwneud â chostau gweithredu newidiol a dylid ei ddisgwyl gan ystyried y gostyngiad mewn niferoedd myfyrwyr, mae'r Brifysgol hefyd yn rhoi nifer o brosiectau strategol ar waith, pob un ohonynt â'r nod o leihau costau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy brosesau gwell a mwy effeithlon.

Rydym hefyd yn parhau â'r gwaith i amrywio ein hincwm ac mae nifer o bartneriaethau newydd yn y DU a thramor naill ai wedi'u cytuno neu yn yr arfaeth. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ofalus at gynnwys unrhyw incwm cysylltiedig yn y rhagamcanion ond rhagwelwn y bydd y prosiectau hyn yn cyflawni gwargedau iach yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Mae'r arbedion a'r mentrau cynhyrchu incwm hyn i gyd yn cael eu rheoli drwy'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol estynedig a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyngor y Brifysgol a'i is-bwyllgorau perthnasol.

Mae'n anochel bod pwysau cynyddol ar lif arian gweithredu'r Brifysgol y mae angen ei fonitro'n ofalus ac yn barhaus, ac mae angen rheolaeth gadarn ar gronfeydd arian wrth gefn.

Mae buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf ac isadeiledd beunyddiol, gan gynnwys yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw, wedi cael ei leihau i'r lefel isaf bosib er mwyn cadw arian parod. Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, mae'r Brifysgol wedi gwneud cais llwyddiannus am £14.4m o arian Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau datgarboneiddio ac wedi derbyn yr arian hwnnw. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i leihau allyriadau carbon fel rhan o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol a'n taith tuag at weithrediadau sero net.

**Busnes gweithredol**

Fel sefydliad, mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn ddal digon o arian parod i fodloni ein gofynion gweithredol beunyddiol a'n rhwymedigaethau am 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. I brofi gwydnwch y Brifysgol a'i gallu i wneud hyn, rydym wedi cynnal profion straen ar ragamcanion sylfaenol ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Diweddarwyd pob un o'r rhain i adlewyrchu effaith yr alldro ar ddiwedd 2024/25, y rhagamcanion diweddaraf ar gyfer cofrestriadau myfyrwyr ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill i'r rhagamcanion gwreiddiol a gyflwynwyd i Medr am y blynyddoedd hynny.

Nodwyd nifer o risgiau allweddol a chyfrifwyd effaith ariannol senario canlyniad gwaethaf credadwy ar y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, y Llifoedd Arian Parod a'r cyfamodau bancio ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol.

Mae'r brif risg yn ymwneud ag incwm o ffioedd dysgu, sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'n holl incwm. Rydym wedi profi gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr cartref a thramor yn erbyn rhagamcanion sylfaenol 2025/26 a 2026/27, gan ystyried y cofrestriadau gwirioneddol tan fis Hydref 2025 a chofrestriadau a ragwelir ym mis Medi 2026, yn seiliedig ar geisiadau presennol a gwybodaeth gyfredol am y farchnad.

Ystyriwyd risgiau eraill gan gynnwys y risg na fydd llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn cynnig cynyddiadau blynyddol ar sail chwyddiant a methiant y Brifysgol i gyflawni'r targedau arbed arian gofynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi na fydd yn efelychu llywodraeth y DU wrth weithredu ardoll gwerth 6% ar ffioedd myfyrwyr rhyngwladol, felly nid oes unrhyw anfantais wedi cael ei chynnwys ar gyfer hyn ac ystyrir bod chwyddiant cyflogau o 3% yn realistig.

Er gwaethaf y gostyngiadau yn niferoedd myfyrwyr o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae lefelau meddiannaeth llety myfyrwyr a berchnogir gan y Brifysgol wedi gwella. Yn ogystal, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i leihau ei gwarant enwebu gydag UPP (prif bartner llety'r Brifysgol) o 100% i leiafswm o 50% o 2026/27. Felly, nid oes risg o ran cyfraddau meddiannu wedi cael ei chynnwys yn y senario canlyniad gwaethaf.

Mae'r rhagamcanion sylfaenol yn adlewyrchu'r angen i arbed £30m yn ychwanegol erbyn 31 Gorffennaf 2026. Rydym yn ymwybodol ei bod hi'n fwyfwy anodd rhoi mesurau lliniarol ar waith gyda phob rownd o arbedion cyflogau ac arbedion heblaw am gyflogau, ac nid yw tîm arweinyddiaeth y Brifysgol yn tanbrisio hyd a lled y newid gweithredol a diwylliannol y bydd ei angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol, na'r effaith ar ein staff. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag undebau cydnabyddedig ein campysau i drafod opsiynau ac i wrando ar adborth a'i ystyried, ac rydym yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein sefyllfa.

Bydd rhagamcanion cywir o lifoedd arian parod, yn seiliedig ar wybodaeth reoli o ansawdd da am incwm a gwariant, yn hanfodol i'r rhagamcanion sylfaenol a'r senario canlyniad gwaethaf credadwy.

Byddai'r pwysau ar arian gweithredu, yn enwedig ar ddiwedd y mis a diwedd y chwarter, yn ddifrifol yn y senario canlyniad gwaethaf. Mae'n debygol y byddai'r camau gweithredu ychwanegol y byddai eu hangen i liniaru'r senario hwn yn galw am ystyriaeth bellach o lefel y cymorth ariannol a roddir i rai o weithgareddau'r Brifysgol; newidiadau posib i arferion gweithio i staff a chyflymu'r Rhaglen Optimeiddio Gofod, gan gyfuno a chau mannau nad oes llawer o ddefnydd ohonynt ar ein dau brif gampws.

Awgrymodd y rhagamcanion sylfaenol ar gyfer 2025/26 y byddai angen hepgor dau o gyfamodau Banc Buddsoddi Ewrop eto ar 31 Gorffennaf 2026 a chytunwyd ar hyn yn amodol ar wneud rhagdaliad o fenthyciad ym mis Rhagfyr 2025.

Cytunwyd ar nifer o amodau wrth negodi'r hepgoriad. Cytunwyd ar ragdaliad o £7.3m, sy'n cynrychioli prifswm y flwyddyn olaf ar bob un o chwe chyfran y benthyca gan Fanc Buddsoddi Ewrop ac nid oedd angen talu indemniad ar gyfer talu'n gynnar. Mae hyn yn lleihau tymor pob un o'r benthyciadau hyn o un flwyddyn.

Mae'r cyfamod arian parod, a gyflwynwyd yn 2024/25, wedi cael ei wneud yn barhaol. Y gofyniad yw dal o leiaf £50m mewn arian parod gan gynnwys y cyfleuster credyd cylchol tan 31 Gorffennaf 2026 a byddai'r swm yn gostwng i £40m am y blynyddoedd 2026/27 a 2027/28 gan godi eto i £50m o 2028/29. Caiff y cyfamod hwn ei brofi ar ddiwedd y chwarteri sy'n dod i ben ar 31 Hydref, 31 Ionawr, 30 Ebrill a 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Mae cost benthyca wedi cynyddu 0.75% ar bob cyfran hefyd.

Mae'r pwysau ar y cyfamodau hyn yn cynyddu yn ôl y Senario Canlyniad Gwaethaf Credadwy ac mae'r camau lliniaru a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y caiff gofynion diwygiedig Banc Buddsoddi Ewrop eu bodloni.

Mae'n debygol y byddai'r effaith ar staff a myfyrwyr yn sylweddol, ond er gwaethaf hyn, mae arweinyddiaeth bresennol y Brifysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau niferus a grëwyd gan effeithiau Brexit, y pandemig ac argyfyngau economaidd a geo-wleidyddol byd-eang amrywiol dros y pum mlynedd diwethaf. Felly, rydym yn hyderus y byddai senario canlyniad gwaethaf o'r fath yn cael ei reoli'n effeithiol.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y Brifysgol yn parhau i fonitro amodau mewnol ac allanol, gan gynnwys niferoedd ceisiadau myfyrwyr a pholisïau llywodraethau, gan asesu'n ffurfiol effeithiau posib bob chwarter a gwneud penderfyniadau priodol a chyflym yn ôl yr angen.

Mae aelodau Cyngor y Brifysgol wedi ystyried y rhagdybiaethau sy'n sail i'r senario canlyniad gwaethaf a'r mesurau lliniaru a gynigir a'u heffaith ariannol, yn enwedig mewn perthynas â'n sefyllfa arian parod a'r cyfamodau benthyca a gafodd eu hail-negodi. Er eu bod yn cydnabod maint y her a wynebir gan y sector a'n Prifysgol, mae aelodau Cyngor y Brifysgol yn rhannu ein hyder bod y Brifysgol yn gallu rheoli'r risgiau ac y bydd ganddi arian digonol i fodloni rhwymedigaethau'r Brifysgol wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**Sarah Jones, Prif Swyddog Cyllid**

**Anne Tutt, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth**

# PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

Mae'r Brifysgol yn cynnal Cofrestr Risgiau ar gyfer y brifysgol gyfan. Mae'n cael ei hadolygu bob chwarter gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Cyngor.  Mae hefyd yn cael ei diweddaru pan fo'n briodol os yw'n amlwg bod risgiau'n newid yn fwy cyflym.

Mae'r categorïau o risgiau'n parhau i adlewyrchu'r heriau a geir yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys yr ansicrwydd ynghylch cyllid y llywodraeth i addysg uwch yn gyffredinol, cystadleuaeth gynyddol am fyfyrwyr cartref a thramor ac effaith barhaus pwysau chwyddiant ar y Brifysgol, staff a myfyrwyr.

Mae'r tabl isod yn nodi'r risgiau uchaf o gofrestr y Brifysgol, ar sail y sgôr risg weddilliol.



| Risg Strategol | Prif fesurau lliniaru |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd ariannol**<br><br>Anallu i gyflawni'r twf mewn incwm yn ôl y rhagamcanion a gostyngiadau mewn gwariant oherwydd ffactorau allanol (cystadleuaeth gynyddol am fyfyrwyr, polisïau llywodraethau, chwyddiant uchel o ran costau), yn arwain at anallu i gydbwyso'r gyllideb, gan arwain at fethiant i greu'r gwargedau y bydd eu hangen er mwyn buddsoddi a chyflawni amcanion y brifysgol | · Adroddiadau a monitro cyllidebau'n fisol ac ail-lunio'r rhagamcanion bob tri mis<br>· Mwy o bwyslais ar reoli a rhagamcanu llifoedd arian parod<br>· Asesiad ariannol manwl a phrofion straen o ran risgiau presennol a rhai'r dyfodol<br>· Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol i lywio'r gwaith o gyflawni'r arbedion gofynnol<br>· Monitro cyfamodau benthyca a'r Cyfleuster Credyd Cylchol<br>· Rheoli swyddi gwag yn barhaus |
| **Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol**<br><br>Newidiadau ym mholisïau llywodraeth y DU, canfyddiad o'r DU fel cyrchfan astudio, heriau wrth dderbyn myfyrwyr, gorddibyniaeth ar nifer cyfyngedig o farchnadoedd sy'n sensitif i brisiau, diffyg arallgyfeirio a chystadleuaeth gynyddol yn arwain at anallu i gyflawni'r niferoedd myfyrwyr rhyngwladol yn ôl y rhagamcanion, gan arwain at lai o gynaliadwyedd ariannol. | · Gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol<br>· Datblygu cyfleoedd addysg drawswladol newydd i gyflwyno rhaglenni mewn gwledydd eraill<br>· Nodi marchnadoedd newydd i ddatblygu presenoldeb dramor gwell<br>· Monitro ac adolygu perfformiad marchnadoedd presennol |
| **Profiad myfyrwyr - dysgu ac addysgu**<br><br>Gostyngiad mewn adnoddau ariannol ac adnoddau staff yn arwain at brofiad gwaeth i fyfyrwyr, sy'n creu anfodlonrwydd, effaith ar sgorau'r NSS ac yn y tablau cynghrair, enw da'r Brifysgol, recriwtio a chyflawni strategaeth dwf y Brifysgol. | · Gweithredu Strategaeth Addysg<br>· Trawsnewid y Cwricwlwm a'r Prosiect Amserlennu â'r bwriad i fynd i'r afael â phrofiad myfyrwyr<br>· Gweithredu prosiect Porth Gwasanaethau Myfyrwyr (Hwb)<br>· Cynllun parhaus i wella sgorau'r NSS gyda'r cyfadrannau a'r gwasanaethau proffesiynol<br>· Fframwaith AI cynhyrchiol yn cael ei ddatblygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 |
| **Seiberddiogelwch**<br><br>Rheolaeth annigonol ar wybodaeth reoli ac adnoddau staff annigonol yn lleihau ein gallu i ddiogelu, prosesu a chyrchu gwybodaeth, gan arwain at gynnydd mewn seiber-ymosodiadau llwyddiannus, colli enw da, diffyg cydymffurfiaeth, dirwyon a chosbau a chynnydd mewn costau. | · Mabwysiadu Fframwaith HEFESTIS, sy'n fwy cynhwysfawr na'r asesiad JISC<br>· Bydd y gwaith o roi rhwydwaith newydd ar waith wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025<br>· Yr uwch-dîm arweinyddiaeth ac aelodau staff perthnasol eraill yn ymgymryd ag ymarferion parhad seiber-fusnes<br>· Blaenoriaethu gweithgareddau seiber-hylendid |
| **Morâl staff – effaith newid**<br><br>Cynnydd parhaus yn llwythi gwaith staff, ansicrwydd ynghylch parhad diogelwch swyddi, diffyg cyfleoedd ac oedi oherwydd y sefyllfa ariannol ac ailgynllunio gwasanaethau yn lleihau morâl staff, yn arwain at gynnydd mewn straen, absenoldebau a throsiant, a gostyngiad mewn lles, cyfranogiad a chynhyrchiant. | · Cyfathrebu â staff yn rheolaidd drwy fforymau amrywiol<br>· Cydnabod ymdrechion staff<br>· Cyd-weithgor gydag undebau'r campysau wedi'i hen sefydlu<br>· Y Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn darparu cyfle i rai aelodau staff<br>· Blaenoriaethu gweithgareddau a llwyth gwaith |
| **Recriwtio myfyrwyr cartref**<br><br>Cystadleuaeth gynyddol a chynnydd mewn heriau o ran recriwtio myfyrwyr israddedig yn arwain at anallu i gyflawni niferoedd myfyrwyr yn ôl y rhagamcanion, sy'n lleihau cynaliadwyedd ariannol | · Strategaeth Recriwtio'r DU yn cael ei hadolygu<br>· Cynnal a datblygu strategaeth ac ymgyrch Clirio drwy'r Pwyllgor Llywio Clirio<br>· Ymgysylltu â cholegau addysg bellach fel rhan o'r prosiect Arallgyfeirio<br>· Archwilio cyfleoedd a phartneriaethau allanol i gynyddu potensial recriwtio |
| **TG - Systemau busnes craidd**<br><br>Methu nodi newidiadau i ddibyniaethau allweddol mewn systemau busnes craidd a darparu adnoddau ar eu cyfer, gan greu anawsterau wrth ddarparu'r gwasanaethau gofynnol (e.e. ailgynllunio gwasanaethau), sy'n arwain at fethiant i gyflawni buddion disgwyliedig neu waethygiad yn safon y gwasanaeth | · Byrddau Prosiect wedi'u sefydlu a chyllid wedi'i sicrhau<br>· Safbwynt gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd drwy'r busnes cyfan ar gyfer systemau myfyrwyr a gweinyddol<br>· Gwaith sylweddol wedi'i wneud ar systemau craidd (ABW, SITS, CRM) |
| **Deallusrwydd busnes**<br><br>Mudo i systemau TG newydd (e.e. SITS, ABW), gostyngiad mewn staff a gweithgarwch cipio data yn arwain at fethiant i gasglu deallusrwydd/data busnes, gan arwain at ddata anghyson rhwng y gorffennol a'r presennol, methiant i ddarparu cymariaethau at ddibenion mewnol (cynllunio busnes, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth) neu allanol (HESA, Medr etc.), dadansoddiadau data gwael | · Dilysu a mapio gofynion data fel rhan o fanylebau gweithgaredd/prosiect<br>· Lle nad yw gofynion data yn cael eu bodloni, neu na ddisgwylir iddynt gael eu bodloni, nodi ffynonellau data amgen<br>· Asesiadau effaith o anallu i ddarparu'r data gofynnol<br>· Blaenoriaethu gweithgareddau yn ôl yr angen |

# DATGANIAD BUDD Y CYHOEDD

**Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig (rhif 1138342) ers mis Hydref 2010. Diffinnir ein fframwaith cyfansoddiadol yn ein Siarter a Statudau ac mae Erthygl tri o'r Siarter Atodol yn amlygu amcanion ein Prifysgol: "hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt".**

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennau ynghylch budd y cyhoedd a'i arweiniad atodol ynghylch hyrwyddo addysg.

Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas (2020) yn seiliedig ar bum piler y mae gan bob un ohonynt ei strategaeth ei hun. Ceir crynodeb o'r rhain ar dudalen 10. Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas hefyd yn cydnabod mai'r argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i gymdeithas o hyd. O ganlyniad, rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn cydweddu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a chan gofio ein fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol unigryw, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymrwymo i fod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2035.

**Ein Cenhadaeth Ddinesig**

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe, Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ehangach a Chymru, ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, a bod gennym gyfrifoldeb i weithio gydag ein cymuned a Chymru ac er eu lles. Rydym yn ymdrechu i ddyfeisio atebion lleol i heriau byd-eang sy'n effeithio ar bob un ohonom.

Er bod gwreiddiau ein cenhadaeth ddinesig yn ein rhanbarth lleol, mae'n ymestyn i gynnwys yr effaith rydym yn ymdrechu i'w chael mewn cymunedau ledled y byd. Rydym yn denu cydweithwyr a myfyrwyr i Abertawe o bedwar ban byd ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr addysg a'r profiadau a ddarparwn a'r ymchwil rydym yn ei chynnal yn berthnasol yn lleol ac yn rhyngwladol. Yn anad dim, ymdrechwn i weithio mewn partneriaethau agored a theg, yng ngwir ystyr y gair, ac i ddysgu cymaint â phosib gan eraill.

Eleni, rydym yn falch o'n Statws Prifysgol Noddfa, a ddyfarnwyd i ni'n rhannol oherwydd mentrau megis ein cynllun Ysgoloriaethau Noddfa a'n partneriaeth â Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du yn Wcráin, sydd wedi galluogi 53 o fyfyrwyr o Wcráin i ymweld ag Abertawe i astudio. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu tosturi ac ymrwymiad ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr i greu amgylchedd gwirioneddol groesawgar a chefnogol i'r rhai hynny sydd wedi wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol ledled y byd.

Rydym yn sefydliad angori sy'n gwneud cyfraniad gweithredol at fywyd y rhanbarth. Mae gennym gysylltiadau cryf â sefydliadau angori a chyflogwyr mawr eraill, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector, ac mae gennym bartneriaethau effeithiol â cholegau addysg bellach ac ysgolion. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr isadeiledd angenrheidiol i gefnogi sgiliau ac arloesi ac rydym yn bartner allweddol ym Margen Ddinesig Bae Abertawe.

Rydym yn cyfrannu at fywyd diwylliannol ein cymuned drwy Theatr Taliesin a'r Neuadd Fawr, y Ganolfan Eifftaidd, Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Archifau Richard Burton, a thrwy Wobr Ryngwladol Dylan Thomas.

**Profiad Ein Myfyrwyr**

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol. Rydym yn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth wneud penderfyniadau ac rydym yn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n dewis Abertawe fel ei gartref yn cael y profiad gorau posib gyda ni. Er mwyn gwella'r profiad hwnnw, eleni rydym wedi lansio ein siop dan yr unto newydd i ddarparu cymorth a gwybodaeth i fyfyrwyr, sef Hwb, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i fyfyrwyr fanteisio ar y gwasanaethau rydym yn falch o'u cynnig i'n cymuned o fyfyrwyr.

Mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas leol drwy raglenni gwirfoddoli ac allgymorth, ac maent yn rhan o'n cymuned ryngwladol. Ein nod yw creu dinasyddion byd-eang a fydd yn mynd allan i'r byd ac yn gwneud gwahaniaeth.  Mae Discovery, ein helusen wirfoddoli i fyfyrwyr a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 eleni, yn chwarae rôl hollbwysig drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gyda phobl ym mhob rhan o'n cymuned: pobl hŷn; oedolion a phlant anabl; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; menywod sydd wedi'u hecsbloetio; pobl sy'n ynysig ac yn unig; a myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.

**Ein Dysgu a'n Haddysgu**

Mae rhannu gwybodaeth i feithrin meddwl annibynnol, beirniadol, yn hanfodol i'n pwrpas. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn wydn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym yn parchu hawliau myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn ehangu ein hamrywiaeth o gyfleoedd iddynt wneud hynny. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

Rydym yn ymrwymedig i ehangu a dyfnhau mynediad at addysg, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu cynhwysol a theg gydol oes. Ein Prifysgol yw partner arweiniol Partneriaeth Ymestyn Yn Ehangach De-orllewin Cymru a ariennir gan CCAUC, ac mae hefyd yn arwain ac yn darparu rhaglen Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe. Nod y ddwy raglen yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol - gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal - yn ne-orllewin Cymru.

Mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn gweithio i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol ar gyfer ein poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae gan SAILS amrywiaeth o brosiectau i alluogi unigolion o bob cefndir i gael mynediad at addysg uwch ac i bontio i addysg uwch; i aros yn y brifysgol a chwblhau eu hastudiaethau; i symud o lefel i lefel, ac i ennill y radd orau bosib.

**Ein Hymchwil**

Mae ein hymchwil yn gwneud gwahaniaeth oherwydd ei bod yn cael ei chynllunio i ddiwallu anghenion ein partneriaid ym myd diwydiant, mewn masnach, yn y gymuned academaidd a'r sector cyhoeddus. Mae'n newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas yn ogystal ag ar ein hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed.

Rydym yn sbarduno newidiadau mewn polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein cryfderau ymchwil presennol, gan fanteisio ar gyfleoedd newydd ac ehangu ein sylfaen o gyllidwyr ymchwil er mwyn dod yn fwy gwydn mewn amgylchedd mwyfwy heriol ar gyfer cyllid ymchwil.

Rydym ar flaen y gad mewn sawl maes gan gynnwys: gweithgynhyrchu uwch ac arloesi ym meysydd ynni glân a'r economi ddigidol; nanoiechyd a dadansoddi data iechyd ar raddfa fawr; gwerthuso'r farchnad lafur, defnydd o'r rhyngrwyd gan derfysgwyr a chadwraeth ein treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

**Ein Menter**

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau i fod yn ffyddlon i uchelgeisiau ein sylfaenwyr drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol a'r sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angori a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac â'r sefydliadau niferus rydym yn cydweithredu â nhw'n rhyngwladol.

Mae ein hymagwedd entrepreneuraidd yn ychwanegu gwerth at brofiad y myfyrwyr, gan gynnig cyfleoedd i'n myfyrwyr feithrin sgiliau ymarferol drwy leoliadau gwaith, interniaethau a phrosiectau ymchwil cydweithredol, ac rydym yn cefnogi myfyrwyr i lansio eu busnesau eu hunain. Mae Prifysgol Abertawe ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am greu cwmnïau deillio. Yn ôl yr adroddiad blynyddol, Spotlight on Spinouts, a noddir gan yr Academi Frenhinol Peirianneg, mae ein Prifysgol ymhlith y 10 orau yn y DU (ac ar y brig yng Nghymru) am gwmnïau deillio.

Rydym hefyd wedi cael ein cydnabod eleni am fod yn un o bum prifysgol yn unig yn y DU i gofrestru mwy na 100 o gwmnïau deillio.

# DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â'i gweithgareddau yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ac yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, mae'n ymgymryd â'i gweithgareddau mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.

**Cyfansoddiad a Phwerau**

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn ei Siarter gyfredol ('y Siarter Atodol') a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor yn 2007, ac yn ei Statudau ategol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2021. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân (y Cyngor, y Senedd a'r Llys), pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

**Y Cyngor**

Y Cyngor, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Nodir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Cyngor yn Statud 5, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn fel arfer ac mae'n arfer ei gyfrifoldebau drwy'r rheolwyr gweithredol a'r pwyllgorau sefydlog a nodir isod. Mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo Cofrestr Ddirprwyo sy'n nodi pwy sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau yn enw'r Cyngor ac ar ei ran, a lle y gellir dirprwyo'r awdurdod hwn a sut mae wedi cael ei ddirprwyo. Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Cyngor chwe chyfarfod gan gynnwys dau gyfarfod arbennig.

Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), aelodau o blith staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn fwy nag 19 ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn aelodau anweithredol lleyg nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig yn y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hysbysebir cyfleoedd i aelodau lleyg yn allanol a chroesewir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau a'u hasesu yn erbyn y matrics sgiliau a phrofiad presennol. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol. Mae aelodau lleyg o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ond gellir eu hailbenodi am gyfnod arall o bedair blynedd. Nid oes neb ond aelod lleyg yn gallu ymgymryd â rôl Cadeirydd y Cyngor ac mae'r rôl hon ar wahân i rôl yr Is-ganghellor. Penodir aelodau staff o'r Cyngor drwy brosesau ethol teg ac agored.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Datganiad o Annibyniaeth ar gyfer Aelodau Lleyg o'r Cyngor. Mae'r datganiad, sy'n cynnwys y diffiniad o annibyniaeth a ddatblygwyd gan y sector mewn ymateb i'r Adolygiad o Lywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru gan Gillian Camm (Adolygiad Camm), yn amlinellu'r hyn a olygir gan annibyniaeth a'r materion hynny a all amharu ar annibyniaeth llywodraethwyr. Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor wneud datganiad o fuddiannau wrth gael eu penodi i'r Cyngor, i adolygu eu datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn, ac i ddiweddaru eu datganiad pryd bynnag y bydd yn newid. Caiff datganiadau eu hadolygu gan Gadeirydd y Cyngor, yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Datganiadau o Fuddiannau, er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro posib neu ymddangosiadol, neu os oes, sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn briodol. Mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau holl aelodau'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ar ddechrau holl gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gofynnir i'r holl aelodau nodi unrhyw eitemau penodol y gall buddiannau a ddatganwyd effeithio arnynt ac, os oes angen, nid yw aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad perthnasol, a/neu gallant adael y cyfarfod ar yr adeg briodol. Cofnodir unrhyw ddatganiadau a nodwyd a chofnodir cyfraniad yr aelod at eitemau penodol yng nghofnodion y cyfarfod. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiad rôl ar gyfer yr Ysgrifennydd i'r Cyngor a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad CAMM, ac mae'n cynnwys datganiad clir o atebolrwydd yr Ysgrifenydd am dynnu materion annibyniaeth neu wrthdaro at sylw'r Cadeirydd.

Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae aelodau'r Cyngor hefyd yn Ymddiriedolwyr Elusen.

Rhestrir isod yr aelodau o'r Cyngor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor pan lofnodwyd y datganiadau ariannol.

| Aelod o'r Cyngor | Categori | Presenoldeb* |
|---|---|---|
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2027) | Lleyg | 6/6 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor (tan 31 Rhagfyr 2024) | Lleyg | 3/3 |
| Ms Nan Williams, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 31 Rhagfyr 2024) a Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2025) | Lleyg | 6/6 |
| Ms Anne Tutt, Trysorydd (tan 31 Rhagfyr 2027) | Lleyg | 5/6 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor (tan 31 Gorffennaf 2029) | Staff | 6/6 |
| Mr Laurence Carpanini, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 31 Rhagfyr 2026) | Lleyg | 5/6 |
| Yr Athro Edward David, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2028) | Lleyg | 6/6 |
| Mr Huw Davies, Aelod lleyg cyfetholedig (o 1 Awst 2024) | Lleyg | 5/6 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 26 Ionawr 2026) | Lleyg | 5/6 |
| Ms Nataliya Manskova-Bains, Aelod lleyg cyfetholedig (o 1 Awst 2024) | Lleyg | 4/6 |
| Mrs Marcia Sinfield, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2028) | Lleyg | 4/6 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2028) | Lleyg | 3/6 |
| Mr Richard Thomas, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 15 Mai 2028) | Lleyg | 5/6 |
| Dr Mahaboob Basha, Penodwyd gan y staff (tan 30 Ebrill 2025) | Staff | 5/5 |
| Mr Adam Jones, Penodwyd gan y staff (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 6/6 |



| | | |
|---|---|---|
| Yr Athro Michelle Lee, Penodwyd gan y Senedd (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 5/6 |
| Dr Phatsimo Mabophiwa, Penodwyd gan y Senedd (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 2/6 |
| Mr Heath Davies, Penodwyd gan y staff (o 3 Gorffennaf 2025) | Staff | 1/1 |
| Miss Megan Chagger, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2025) | Myfyriwr | 4/5 |
| Miss Katie Wilkinson, Penodwyd gan Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2026) | Myfyriwr | 6/6 |
| Miss Carys Dukes, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (o 1 Gorffennaf 2025) | Myfyriwr | 1/1 |

(*Mynegir presenoldeb mewn cyfarfodydd fel nifer y cyfarfodydd y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu)

**Côd Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC)**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac mae'n ymdrechu'n barhaus i wella ei llywodraethu yn unol ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Datblygwyd strwythur llywodraethu'r Brifysgol i gydweddu â'r egwyddorion a'r arferion a amlinellir yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC. Yn unol â'r Côd hwn, comisiynodd y Cyngor Adolygiad Annibynnol o Effeithiolrwydd yn 2023, a gynhaliwyd gan AUA Consulting. Cydnabu'r Adolygiad hwn y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y Brifysgol ers ei hadolygiad effeithiolrwydd diwethaf yn 2019, a daeth i'r casgliad y gellid cadarnhau â chryn sicrwydd fod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn effeithiol ac nad oedd unrhyw faterion o safbwynt llywodraethu y byddai angen rhoi sylw iddynt, a bod y Cyngor yn cynnal ei weithgareddau'n unol â'r Côd. Casglwyd hefyd bod y Brifysgol, drwy gynnal yr adolygiad hwn, wedi dangos ei hymrwymiad i wella ei threfniadau llywodraethu'n barhaus yn unol â'r arfer gorau a nodwyd yn y Côd. Nododd yr Adolygiad rai cyfleoedd ar gyfer gwella a datblygu. Mae'r Cyngor wedi ystyried y rhain ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer rhoi nifer ohonynt ar waith. Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, gall y Cyngor adrodd nad oedd unrhyw un o brif elfennau'r Côd Llywodraethu nad oedd gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â hi. Cynhelir yr Adolygiad Effeithiolrwydd Annibynnol nesaf yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27.

**Adolygiad o Lywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a'r Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r Adolygiad o Lywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Adolygiad Camm) ac mae wedi rhoi argymhellion y Siarter ar waith. Mae datblygiadau allweddol wedi cynnwys adolygu maint a chyfansoddiad y Cyngor, y Senedd a'u pwyllgorau; adolygu Llys y Brifysgol, gan ystyried yn benodol ganfyddiadau'r Côd Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer prifysgolion Cymru a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm; gwella goruchwyliaeth strategol drwy ddatblygu Cynllun Blynyddol y Brifysgol ac Amcanion Sefydliadol; diweddaru polisi a fframwaith rheoli risgiau'r Brifysgol a chyflwyno ymagwedd parodrwydd i dderbyn risg wrth ymdrin â risgiau; a diweddaru polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Budd y Cyhoedd) y Brifysgol; diffinio rolau a chyfrifoldebau llywodraethu ar gyfer y Swyddogion Statudol; diweddaru a gwreiddio prosesau recriwtio, penodi a sefydlu ar gyfer aelodau'r Cyngor; mabwysiadu a gwreiddio'r datganiad ar annibyniaeth, y disgrifiad o rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor a'r templed Adroddiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol a ddatblygwyd gan y sector mewn ymateb i Adolygiad Camm; a sefydlu Pwyllgor Strategaeth Pobl a Diwylliant y Brifysgol sy'n adrodd i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, a fydd yn canolbwyntio ar gyd-gytuno ar Flaenoriaethau Pobl y Brifysgol a'u cyflawni ar y cyd ac yn rhoi diweddariadau blynyddol ar gynnydd i'r Cyngor.

**Y Senedd**

Y Senedd, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw awdurdod academaidd y Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn Ordinhad 4, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Cadeirir y Senedd gan yr Is-ganghellor ac mae ei haelodaeth yn cynnwys: y Profost (swydd wag), Dirprwy Is-gangellorion a Dirprwy Is-gangellorion a Deoniaid Gweithredol, Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol, Dirprwy Ddeoniaid Gweithredol, Deoniaid Cysylltiol Cyfadrannau, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Gweithrediadau Strategol Cyfadrannau, y Gwasanaethau Addysg, Bywyd Myfyrwyr ac Academi Hywel Teifi, a chynrychiolwyr myfyrwyr, ynghyd â 24 o aelodau etholedig o blith staff Athrawol a staff academaidd nad ydynt yn Athrawon yn y Cyfadrannau. Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Senedd bedwar cyfarfod a bu'n ystyried y materion canlynol: prosesau a fframwaith sicrhau ansawdd y Brifysgol a Datganiad Blynyddol o Sicrhau Ansawdd y Llywodraethwr; perfformiad y Brifysgol mewn tablau cynghrair ac arolygon eraill, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr; Trawsnewid y Cwricwlwm; Fframwaith ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol; a pholisïau allweddol, yn benodol y polisïau diwygiedig ar Amserlennu, Eiddo Deallusol ac Addasiadau Rhesymol. Derbyniodd y Senedd hefyd adroddiadau rheolaidd gan ei his-bwyllgorau a sefydlwyd i'w chynorthwyo wrth gyflawni ei chyfrifoldebau, a diweddariadau am brosiectau a mentrau mawr sy'n effeithio ar y Brifysgol gyfan, recriwtio myfyrwyr a'r dirwedd polisïau a'r sector.

**Y Llys**

Mae'r Llys, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yn gorff mawr a ffurfiol i raddau helaeth, sy'n gweithredu fel fforwm i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Llys yn Ordinhad 6, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Cadeirydd y Llys yw Canghellor y Brifysgol a daw'r rhan fwyaf o'i aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol, ynghyd ag aelodau'r Cyngor, staff academaidd ac anacademaidd ac aelodau o gymuned y myfyrwyr. Mae'r Llys yn cwrdd unwaith y flwyddyn fel arfer a chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 6 Chwefror 2025, pan ystyriodd Adolygiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol 2023/24 y Brifysgol a derbyniodd ddiweddariad ar yr adolygiad o rôl a chylch gorchwyl y Llys a gynhaliwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Cyngor yn ystod 2024. Nod yr adolygiad oedd sicrhau bod gan y Llys rôl ac aelodaeth glir a'i fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Bu hefyd yn ystyried canfyddiadau'r Côd Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru. Un o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2024, oedd y dylai fod gan y Llys aelodaeth lai o faint a fyddai'n cyd-fynd yn well â pherthnasoedd eraill y Brifysgol â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd a gallu i addasu er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid hirsefydlog a rhai newydd, ac yn cynnig cyfleoedd i wella cyfathrebu ac ymgysylltu â'i aelodau. Gwnaeth hefyd alluogi'r Brifysgol i ymgysylltu'n fwy strategol â'r Llys a'i aelodau er mwyn cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei huchelgeisiau strategol. Mae'r newidiadau hyn i aelodaeth y Llys yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd, mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Llys yn gynnar yn 2026.

**Swyddog Atebol**

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol ar ran y Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda y Brifysgol. Yn ôl telerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Medr, yr Is-ganghellor yw swyddog atebol y Brifysgol ac, yn y rhinwedd honno, gellir gorchymyn iddo ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ochr yn ochr â Phrif Weithredwr Medr.

**Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

Fel Prif Weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol. Mae aelodaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-ganghellor, yn cynnwys y Profost (swydd wag), y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion a Deoniaid Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol. Mae'n cwrdd bob wythnos ac yn ystyried materion strategol a gweithredol.

**Pwyllgorau**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor, sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu cylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Diffinnir rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn Ordinhadau'r Brifysgol ac mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd y Cyngor lle caiff cynrychiolwyr o Undebau'r Campws gyfle i drafod eitemau ar agendâu cyfarfodydd ar ddod y Cyngor yn uniongyrchol â Chadeirydd y Cyngor ac aelodau lleyg eraill o'r Cyngor.

**Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg**

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas ag amgylchedd sicrwydd a rheoli'r Brifysgol. Ei brif gyfrifoldebau yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, gofynion y Brifysgol a gofynion rheoleiddio allanol mewn perthynas â'i gweithgareddau ariannol ac anariannol ac mewn perthynas â'r materion yn ei gylch gorchwyl, ac mae gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cydweddu'n agos â Chôd Ymarfer CUC ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Addysg Uwch.

Cadeirir y Pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor. Mae holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd yn annibynnol ar reolwyr y Brifysgol ac fe'u penodir gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol, y Rheolwr Risgiau, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Ariannol yn mynychu cyfarfodydd ac mae uwch-aelodau eraill o'r staff yn eu mynychu yn ôl yr angen. Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth.  Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.

| Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg | Categori | Presenoldeb* |
|---|---|---|
| Mrs Marcia Sinfield, Cadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 3/4 |
| Mr Richard Thomas, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Nataliya Manskova-Bains, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (o 25 Tachwedd 2024) | Lleyg | 2/2 |
| Mrs Alison Vickers, Aelod lleyg cyfetholedig o'r Pwyllgor | Lleyg | 4/4 |
| Miss Katie Wilkinson, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor | Myfyriwr | 4/4 |

(*Mynegir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor fel nifer y cyfarfodydd y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu)

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod, gan ystyried y materion canlynol: y Datganiadau Ariannol blynyddol, gan gynnwys yr adolygiad busnes gweithredol, llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr ac Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Cyfarwyddwr Cysylltiol am Archwiliad Mewnol ym mhresenoldeb yr Archwilwyr Allanol; cymeradwyodd y Cynllun Archwilio Mewnol yn dilyn trafodaethau â'r Cyfarwyddwr Cysylltiol am Archwiliad Mewnol a derbyniodd adroddiadau ynghylch cynnydd wrth ei roi ar waith; trafododd natur a chwmpas y Cynllun Archwiliad Allanol Blynyddol â'r Archwilwyr Allanol; adolygodd gofrestr risgiau'r Brifysgol, prif risgiau a'r ymagwedd at barodrwydd i dderbyn risg gyda'r Rheolwr Risgiau; trafododd adroddiadau archwiliad mewnol a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau archwiliad mewnol blaenorol gyda'r Cyfarwyddwr Cysylltiol am Archwiliad Mewnol; cymeradwyodd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor; cymeradwyodd Gynllun Ymateb i Dwyll y Brifysgol; a derbyniodd adroddiadau rheolaidd ar seiberddiogelwch, digwyddiadau difrifol, chwythu'r chwiban a risgiau posib o ran twyll ac enw da a rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol y Brifysgol.

**Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth**

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio ac yn monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor ac mae'n cynghori'r Cyngor ar yr holl faterion ariannol ac yn cyflwyno argymhellion yn eu cylch. Ei brif gyfrifoldebau yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hir y Brifysgol drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o sefyllfa ariannol y Brifysgol, sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system gadarn o reolaeth fewnol, monitro perfformiad a chydymffurfiaeth ariannol a chwarae rôl feirniadol wrth brofi a herio pob penderfyniad ariannol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Trysorydd y Brifysgol. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.

| Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | Categori | Presenoldeb * |
|---|---|---|
| Ms Anne Tutt, Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 5/5 |
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 5/5 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Mr Steve Smith, Aelod lleyg cyfetholedig | Lleyg | 4/5 |
| Mr Laurence Carpanini, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/5 |
| Ms Nan Williams, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | | |
| a Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2025) | Lleyg | 5/5 |
| Yr Athro Michelle Lee, Aelod staff o'r Cyngor | Staff | 4/5 |
| Miss Megan Chagger, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (tan 30 Mehefin 2025) | Myfyriwr | 3/5 |
| Miss Carys Dukes, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2025) | Myfyriwr | 0/0 |

(*Mynegir presenoldeb mewn cyfarfodydd fel nifer y cyfarfodydd y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu)

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod, gan ystyried y materion canlynol a chynghori'r Cyngor arnynt: datblygiad rhagamcanion ariannol y Brifysgol, y Datganiadau Ariannol blynyddol ac achosion busnes ar gyfer partneriaethau rhanbarthol a byd-eang; derbyniodd adroddiadau ar raglen Cynaliadwyedd Ariannol y Brifysgol; adolygodd wariant cyfalaf, rhagamcanion ariannol is-gwmnïau, cyfrifon Undeb y Myfyrwyr ac adroddiadau llywodraethu a sicrwydd TRAC; a derbyniodd ddiweddariadau ar reoli risgiau ariannol allweddol, trefniadau cynllun pensiwn y Brifysgol, y Gofrestr Ddirprwyo a Pholisi Rheoli'r Trysorlys.

**Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio arfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd y Cyngor. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.

| Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau | Categori | Presenoldeb* |
|---|---|---|
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 4/4 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor (tan 31 Rhagfyr 2024) | Lleyg | 2/2 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 3/4 |
| Miss Megan Chagger, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 1/4 |
| Miss Carys Dukes, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2025) | Myfyriwr | 0/0 |
| Yr Athro Ryan Murphy, Penodwyd gan y Senedd | Staff | 4/4 |
| Mr Adam Jones, Aelod Staff o'r Cyngor | Staff | 4/4 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 2/4 |
| Mrs Nan Williams, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | | |
| a Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2025) | Lleyg | 2/4 |

(*mynegir presenoldeb mewn cyfarfodydd fel nifer y cyfarfodydd y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu)

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod, gan ystyried y materion canlynol a chynghori'r Cyngor arnynt: penodi Canghellor y Brifysgol, y Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor ac aelodau lleyg cyfetholedig o'r Cyngor; yr adolygiad o'r Llys a'r prosesau ar gyfer penodi aelodau o'r grwpiau newydd i'w cynrychioli ar y Llys; cylch gorchwyl ac aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor; newidiadau i'r Rheoliadau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd; a'r broses enwebu ar gyfer Dyfarniadau er Anrhydedd. Yn ogystal, cymeradwyodd y Pwyllgor gylch busnes tair blynedd newydd, ac adolygodd fatrics sgiliau a phrofiad y Cyngor a'r broses penodi aelodau lleyg i'r Cyngor er mwyn llywio'r gwaith o recriwtio aelodau newydd; cofrestr Buddiannau'r Cyngor; adroddiadau ar gynllunio dilyniant, amrywiaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol; y prosesau ar gyfer arfarniadau Cadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ac adolygiadau o effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Cyngor.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar strategaeth wobrwyo'r Brifysgol, gan gynnwys adolygu a phenderfynu ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-ganghellor a chydnabyddiaeth ariannol a buddion ariannol eraill aelodau eraill yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Wrth wneud hyn, mae'n ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion ac mewn sectorau eraill fel y bo'n briodol. Mae'n gyfrifol hefyd am ddatblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth uwch-aelodau o staff y Brifysgol ar Radd 11 a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch CUC ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol, ac sy'n dryloyw ac yn cydymffurfio ag argymhellion y Côd ac yn bodloni gofynion llywodraethu da.

Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor ac mae'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar y Brifysgol. Mae'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn mynychu'r holl gyfarfodydd, ac mae uwch-swyddogion eraill, gan gynnwys yr Is-ganghellor, yn bresennol yn ôl yr angen. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain. Nid oes yr un aelod o'r staff yn bresennol pan fydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar eu gwobrwyo. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor.

Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025.

| **Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | **Categori** | **Presenoldeb*** |
|---|---|---|
| Mr Laurence Carpanini, Aelod lleyg cyfetholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 5/5 |
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor (tan 31 Rhagfyr 2024) | Lleyg | 1/1 |
| Mrs Nan Williams, Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2025) | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 5/5 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 1/5 |

(*Mynegir presenoldeb mewn cyfarfodydd fel nifer y cyfarfodydd y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu)

Yn ystod 2024/25 cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod gan ystyried cydnabyddiaeth ariannol a buddion yr Is-ganghellor, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a deiliaid swyddi Cyfarwyddwr, Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol 2024, y Datganiad Polisi Cyflog Blynyddol, gweithgareddau gwobrwyo a llwybrau cymeradwyo, adroddiadau ar y Cyflog Byw Gwirioneddol, dyrchafiadau drwy'r weithdrefn Cadw Talent Eithriadol a threfniadau diswyddo sydd o fewn cwmpas ei gylch gorchwyl a diweddariadau lefel uchel ar raglen Cynaliadwyedd Ariannol y Brifysgol.

**Datganiad o Reolaeth Fewnol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r arian a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar risg ac wedi'i dylunio i reoli'r risg o fethu cyflawni amcanion strategol, yn hytrach na'i dileu yn gyfan gwbl, felly mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled materol. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol a'r fframwaith rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn gweithredu yn unol ag ef.

Mae'r elfennau allweddol o system nodi risg a rheoli risgiau'n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion sefydliadol drwy broses cynllunio blynyddol barhaus;
- caiff yr holl risgiau sylweddol, gan gynnwys o ran llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da a rhai ariannol, eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol, sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sydd wedi'u hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau yn creu portffolio cytbwys o fygythiad risgiau sy'n canolbwyntio ar y risgiau allweddol;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y daw risgiau'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- adolygu'r parodrwydd i dderbyn risg fel rhan o ystyriaeth gyffredinol o reolaeth risgiau;
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n asesu risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- sicrhau bod prosesau asesu risg a rheolaeth fewnol yn rhan annatod o weithrediadau parhaus pob uned;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ac yna i'r Cyngor ar reoli mewnol, llywodraethu a risg;
- gweithredu map sicrwydd yn erbyn risg, ar sail y gofrestr risgiau sefydliadol, sy'n seiliedig ar y tair llinell amddiffyn;
- gwerthuso'r map sicrwydd yn erbyn risg i lywio'r cynllun archwiliad mewnol sy'n seiliedig ar risg a darparu sicrwydd ar draws y sefydliad;
- mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd gan Wasanaeth Archwiliad Mewnol y Brifysgol a chaiff y cynllun archwiliad mewnol ar sail risg blynyddol ei dderbyn gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor am brif ganlyniadau'r adolygiad nodi, gwerthuso a rheoli risgiau;
- caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli mewnol eu llywio gan Wasanaeth Archwiliad Mewnol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith at ddiben gwerthuso a rheoli'n barhaus y risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys nodi'r mathau o risgiau drwy ymagwedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny ar lefelau corfforaethol ac adrannol. Caiff y rhain eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith bosib a'u tebygolrwydd, yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig.

Caiff risgiau eu monitro'n barhaus, ochr yn ochr â'r rheolaethau a'r gweithredoedd lliniaru risg cysylltiedig, gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith risgiau yn gweithio'n effeithiol a bod risgiau'n cael eu rheoli, ac am gynghori'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau ac argymhellion priodol a'r gofrestr risgiau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariad am risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariadau am risgiau perthnasol yn rheolaidd er gwybodaeth.

Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith, a hysbysu Medr[3] a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y broblem.

[3] Ysgwyddodd Medr gyfrifoldebau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar 1 Awst 2024.

# DATGANIAD POLISI CYFLOGAU BLYNDDOL– PRIFYSGOL ABERTAWE

**Mae gan Brifysgol Abertawe fframwaith ar gyfer cydnabod a gwobrwyo'r holl gyflogeion i gynnal gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd system gyflogau gyfartal a thryloyw sy'n darparu gwerth am arian.**

Diben y Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol yw amlinellu polisïau'r Brifysgol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau a chydnabyddiaeth ariannol ei gweithlu. Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion y Brifysgol ynghylch cyflogau a graddau ar gael i'r holl gyflogeion.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r holl arferion cyfrifyddu, sy'n gofyn am adroddiad blynyddol llawn ar gydnabyddiaeth ariannol, lluniwyd Datganiad Polisi Cyflogau'r Brifysgol yn unol â'r egwyddorion y manylir arnynt yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau y glynir wrth egwyddorion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol 2021 drwy gydol ei phrosesau a'i harferion ac mae'n cyflwyno adroddiad ar Gydnabyddiaeth Uwch-aelodau Staff i Fwrdd y Llywodraethwyr bob blwyddyn i ddangos hyn.

**Uwch-aelodau Staff**

Diffinnir y rhain fel yr Is-ganghellor a holl aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ynghyd ag uwch-aelodau staff y Brifysgol ar Radd 11 (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol ac Athrawon) a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol, am ddatblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol i bennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth holl uwch-aelodau staff y Brifysgol ar Radd 11 a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, ac am adolygu a phennu pob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys unrhyw godiadau cyflog blynyddol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-ganghellor, gan ystyried ehangder y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol ac i ba raddau y cyflawnir amcanion strategol y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau sy'n ei alluogi i gael trosolwg o dâl ym mhob un o feysydd eraill y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor, corff llywodraethu'r Brifysgol, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys chwe llywodraethwr lleyg, gan gynnwys dau Ddirprwy Ganghellor y Brifysgol y mae un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor.

**Adrodd ar Gyflogau Uwch-aelodau Staff**

Cyhoeddir cyflog yr Is-ganghellor, ynghyd â data dienw am gyflogau uwchlaw £100,000 yn Adolygiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol y Brifysgol.

**Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol**

Caiff yr holl gyflogeion ar Raddau 1 i 10 eu talu yn unol â graddfa gyflogau y cytunir arni yn genedlaethol. Caiff hon ei negodi bob blwyddyn fel rhan o Gyd-negodiadau cyflog rhwng UCEA a'r pum undeb llafur addysg uwch (UCU, UNSAIN, Unite, EIS a'r GMB) ar ran nifer o sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Yn ogystal ag unrhyw godiadau a bennir drwy gyd-negodiadau cyflog, mae'r holl gydweithwyr o raddau 1 i 10 yn elwa o gynyddrannau awtomatig blynyddol nes iddynt gyrraedd brig eu gradd.

Pennir unrhyw gyflogau y tu allan i'r broses hon drwy feincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg ar draws y sector ac amodau'r farchnad.

**Meincnodi**

Defnyddir arolwg UCEA o gydnabyddiaeth ariannol uwch-aelodau staff ac arolwg cyflogau staff addysg uwch Brightmine at ddibenion meincnodi cyflogau wrth recriwtio ac yn ystod adolygiadau perfformiad blynyddol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn defnyddio arolwg blynyddol Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol o gyflog ac amodau Is-gangellorion hefyd wrth ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor.

**Tâl Cysylltiedig â Pherfformiad**

***Graddau 1 i 10:*** Nid oes trefniadau tâl cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer cydweithwyr ar raddau 1 i 10 ar y raddfa gyflogau genedlaethol. Fodd bynnag, fel y'i nodir uchod, mae'r strwythur cyflogau yn cynnwys cynyddrannau blynyddol hyd at y pwynt uchaf ym mhob gradd.

***Gradd 10A, Gradd 11 a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth:*** Fel arfer caiff cydnabyddiaeth ariannol cydweithwyr ar Radd 10A, Gradd 11 ac aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ei hadolygu'n flynyddol gan ddefnyddio proses deg a thryloyw sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn, yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol. Penderfynir ar lefel y dyfarniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, gan ystyried data perthnasol o'r farchnad[1].

***Is-ganghellor:*** Mae'r Dirprwy Ganghellor sy'n Gadeirydd y Cyngor yn gyfrifol am y broses cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr Is-ganghellor, gan gynnwys barnu perfformiad ac argymell dyfarniad cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr Is-ganghellor i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau bod unrhyw godiadau cyflog ar gyfer yr uwch-staff yn cael eu gweithredu o fewn terfyn cyllideb fforddiadwy a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

**Llwybrau Gyrfa Academaidd**

Mae meini prawf Llwybrau Gyrfa Academaidd y Brifysgol yn nodi'n glir y gweithgarwch a'r cyflawniadau sy'n ofynnol gan gydweithwyr ar bob lefel, ar bob llwybr, a chaiff y rhain eu defnyddio fel sylfaen proses benderfynu glir a thryloyw wrth recriwtio staff academaidd, mewn Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol academaidd, prosesau dyrchafu academaidd ac wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol Athrawon. Mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Llwybrau Gyrfa Academaidd, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015, ac mae'r ymagwedd newydd yn symud i ffwrdd o ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol rhifiadol, tuag at ffordd fwy cyfannol o ddangos tystiolaeth o gyflawniad academaidd a'i asesu.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau manwl o enwebiadau a gynigir o dan y weithdrefn Cadw Talent Eithriadol fel y'i nodir ym mholisi Dyrchafiad Academaidd y Brifysgol.

**Cydraddoldeb**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gyfle cyfartal mewn perthynas â thâl, cyflogau a dilyniant gyrfa i'r holl staff, yn ôl fframwaith sy'n deg, yn dryloyw ac yn gyson, fel y'i hadlewyrchir yn ei strwythurau cyflogau a graddau.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers 1 Ebrill 2019, sy'n golygu bod cyflogau ein holl gydweithwyr, yn enwedig y rhai hynny ar y cyflogau isaf, yn ddigonol i dalu costau byw sylfaenol yn y DU a Llundain fel y'u diffinnir gan y Living Wage Foundation.

Mae'r Brifysgol yn cymharu cyflogau grwpiau amrywiol yn rheolaidd ac yn monitro tueddiadau o ran cyflogau'r grwpiau hyn, sy'n cynnwys adrodd yn flynyddol ar y Bwlch Rhwng Cyflogau'r Rhywiau. Mae'r Brifysgol wedi nodi gostyngiad yn ei Bwlch Rhwng Cyflogau'r Rhywiau am saith mlynedd yn olynol ac mae'n ymrwymedig i barhau i fynd i'r afael â hyn drwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys rhaglen Arweinyddiaeth Aurora a'r Siarter Athena Swan. Adolygir adroddiadau blynddol ar gynnydd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar ran Cyngor y Brifysgol.

**Gwobrwyon a Buddion Staff**

Yn ogystal â chyflog teg a dilyniant gyrfa, mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o wobrwyon a buddion i gyflogeion, gan gynnwys trefniadau gweithio hyblyg, cynllun beicio i'r gwaith, cynllun buddion car, gwasanaethau iechyd a lles, cyfleoedd dysgu a datblygu ardderchog a threfniadau gwyliau ac absenoldeb hael.

**Rheoli'r Gweithlu**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i weithredu â gofal a sensitifrwydd wrth derfynu cyflogaeth, yn unol ag ysbryd Gwerthoedd Prifysgol Abertawe, ac yn gyson â'r egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Dileu Swyddi'r Brifysgol, ei Pholisïau Terfynu a'i Pholisi Ymadael yn Wirfoddol sydd ar gael i staff. Nod y Brifysgol yw gweithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a gydnabyddir ganddi er mwyn rheoli'r broses ar gyfer unrhyw gynlluniau diswyddo gwirfoddol, ac mae'n cydnabod bod angen i becyn diswyddo rhesymol fod ar gael i gyflogeion cymwys.

[1] Pennir cyflogau Athrawon Clinigol o dan drefniadau ar wahân yn y GIG.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE

**Adroddiad am yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Abertawe ("y Brifysgol") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, sy'n cynnwys Datganiadau'r Grŵp a'r Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiadau o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a Datganiad y Grŵp o Lifoedd Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2025, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion, a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Grŵp a'r Brifysgol a llifoedd arian y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education 2019; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011;

**Sail ein barn**

Cawsom ein penodi'n archwilydd yn unol â Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu'n sail ddigonol a phriodol i'n barn.

**Busnes gweithredol**

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oherwydd nad yw'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu eu gweithrediadau, ac oherwydd iddo ddod i'r casgliad bod hyn yn farn realistig gan ystyried sefyllfa ariannol y Brifysgol. Yn ogystal, mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi peri amheuaeth sylweddol ynghylch eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes gweithredol").

Wrth i ni werthuso casgliadau'r Cyngor, buom yn ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp ac yn dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes gweithredol.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:

rydym o'r farn ei bod hi'n briodol i'r Cyngor ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac

nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, beri amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol am y cyfnod busnes gweithredol, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor i'r perwyl hwn.

Fodd bynnag, ni allwn ragweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, a gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barnau a oedd yn rhesymol ar adeg eu llunio, felly nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

**Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau - y gallu i ganfod**

*Nodi ac ymateb i risgiau camddywediad perthnasol oherwydd twyll*

I nodi risgiau o gamddywediad perthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll"), rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r archwilwyr mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwiliad mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll a wnaed, a amheuir neu a honnir.
- Darllen Cofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfleu risgiau o dwyll a nodwyd i'r tîm archwilio cyfan ac roeddem yn parhau'n wyliadwrus am unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Yn unol â gofynion safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posib i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn ymgymryd â gweithdrefnau i ymdrin â'r risg y bydd rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau a'r risg y cydnabyddir refeniw mewn modd twyllodrus, yn enwedig y risg na chydnabyddir incwm ymchwil yn unol ag amodau a thelerau perthnasol grantiau a'r risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

Wrth bennu gweithdrefnau'r archwiliad, gwnaethom ystyried canlyniadau ein gwaith i werthuso effeithiolrwydd rheolaethau rheoli risg twyll ledled y Grŵp.

Roedd y gweithdrefnau a gynhaliwyd gennym yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau cyfrifyddu i'w profi, yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys dyddlyfrau cyfrifyddu a oedd yn cynnwys cofnodion cyfrifyddu cyfatebol annisgwyl o arian parod.
- Gwirio bod incwm ymchwil wedi'i gydnabod yn briodol ar sail y cytundeb grant a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil a gwariant ymchwil cyfatebol.

*Nodi risgiau o gamddywediad perthnasol o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ac ymateb i'r rhain*

Nodwyd elfennau o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol o'n profiad cyffredinol o fasnach a'r sector, a thrwy drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol yn unol â safonau archwilio), a thrafodwyd y polisïau a'r gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â'r Cyngor a rheolwyr eraill.

Gwnaethom gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd i'n tîm cyfan a buom yn parhau i fod yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth am adrodd ariannol, deddfwriaeth am drethiant, deddfwriaeth am bensiynau, deddfwriaeth am elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Medr. Gwnaethom asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau mewn cysylltiad â'r eitemau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith faterol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, drwy bennu dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sy'n fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio addysg uwch Medr, gan gydnabod y ffaith bod gweithgareddau'r Grŵp wedi'u rheoleiddio. Mae safonau archwilio'n cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol ei natur os yw ar gael. Felly, os nad yw achos o dorri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni, neu os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y toriad hwnnw.

*Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfreithiau neu reoliadau*

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n rhan annatod o archwiliad, nid oes modd osgoi'r risg nad ydym efallai wedi canfod rhai camddywediadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio'n briodol a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po fwyaf y bwlch rhwng diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau a'r digwyddiadau a'r trafodion a nodir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yw y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig eu natur sy'n ofynnol gan y safonau archwilio yn ei ddarganfod.

Yn ogystal, fel sy'n wir gydag unrhyw archwiliad, bu'r risg o beidio â chanfod twyll yn uwch, oherwydd y gall hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camddywediadau neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u dylunio i ganfod camddywediad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal methiant i gydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â phob cyfraith a rheoliad.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Cyngor (ei aelodau yw Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adolygiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac ein hadroddiad ni fel archwilydd amdanynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar hyn neu, oni nodir yn

benodol isod, unrhyw fath o sicrwydd am yr wybodaeth arall.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, yn seiliedig ar ein gwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, ystyried a yw'n cynnwys camddywediad perthnasol neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth o'r archwiliad. Mae angen i ni eich hysbysu:

- yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, os ydym wedi nodi camddywediadau perthnasol yn yr wybodaeth arall; neu
- os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddwyd ar dudalennau 54 i 55 (sef Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

**Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn ei ddatganiad ar dudalen 60, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol, yn ei farn, i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau ar sail busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol, neu derfynu gweithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddywediad perthnasol os oes un. Gall camddywediadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n seiliedig ar y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

**Adroddiad am ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill**

Mae'n ofynnol i ni adrodd am y materion canlynol a bennir yn y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").


Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r sector addysg uwch yng Nghymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Côd Rheoli Ariannol a'r Telerau ac Amodau Cyllid 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn parhau ar waith ar ddyddiad ein hadroddiad. Yn sgîl y trosglwyddo hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC yn ein hadroddiad fel pe bai'n cyfeirio at Medr hefyd.

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- Mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei ddefnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle bynnag y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio gan y Brifysgol yn unol â pharagraff 145 o Gôd Rheoli Ariannol CCAUC;
- mae grantiau Cynghorau Cyllido (gan gynnwys grantiau gan Medr) wedi cael eu defnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt ac at y dibenion y'u cafwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllid 2024/25 a gyhoeddwyd gan CAAUC; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr wedi'u bodloni.

**Diben ein gwaith archwilio ac i bwy rydym yn gyfrifol**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig yn unol ag adran 4 o Siarterau a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Rydym wedi ymgymryd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni hysbysu'r Cyngor am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y barnau rydym wedi eu llunio.



**Rees Batley ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, yr Archwilydd Statudol**

*Cyfrifwyr Siartredig*

*Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yng nghyd-destun adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006*

*66 Queen Square*
*Bryste*
*BS1 4BE*

**28 Tachwedd 2025**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR MEWN PERTHYNAS Â'R ADOLYGIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"), y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a deddfwriaeth a rheoliadau cymwys.

Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am reoleiddio sector addysg uwch Cymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Rheoli Ariannol a'r Telerau ac Amodau Cyllido ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC ar waith o hyd nes iddynt gael eu disodli gan gyhoeddiadau dilynol Medr. Yn sgîl y trosglwyddo hwn, dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at CCAUC fel cyfeiriad at Medr hefyd.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu a deddfwriaeth gymwys y DU (UK Generally Accepted Accounting Practice), gan gynnwys FRS 102: The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland, a gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn ôl y Telerau ac Amodau Cyllido, mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â'r Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education 2019 ac yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau yn eu cronfeydd wrth gefn ac o lifoedd arian y Grŵp am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, os yw'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu gweithrediadau, neu nid oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a datgelu â chywirdeb rhesymol, ac ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am y fath reolaeth fewnol y mae'n tybio ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd y fath gamau gweithredu sydd ar gael yn rhesymol iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hyn a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle bynnag y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o'r Cod Rheoli Ariannol;
- bod grantiau Cynghorau Cyllido (gan gynnwys grantiau gan Medr) wedi cael eu defnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt ac at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25;
- bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a
- bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Mr Goi Ashmore,**
**Cadeirydd y Cyngor**

**28 Tachwedd 2025**



# DATGANIAD O BRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

**1 Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw:

Prifysgol Abertawe

Parc Singleton

Abertawe

SA2 8PP

Rhif Elusen: 1138342

**2 Datganiad o Gydymffurfiaeth**

Mae'r Datganiadau Ariannol Cyfunol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 (FRS 102) a'r Statement of Reccommended Practice (SORP): Accounting for Further and Higher Education (argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r pwerau a'r dyletswyddau a drosglwyddwyd o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu, a'r amodau a thelerau cyllido ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan Medr.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru'n elusen. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi gan gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol cyfreithiau cymwys y DU a'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

**3. Sail baratoi**

Caiff y datganiadau ariannol cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'u haddasu yn sgîl ailbrisio asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Amlinellir gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol, sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian parod, a'r sefyllfa o ran ei hylifedd a'i chyfleusterau benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Mae polisi cyfrifyddu 23 yn trafod penderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau a'r amcangyfrifon ariannol â risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn nesaf.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol i 31 Gorffennaf 2025. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

**4 Busnes Gweithredol**

Mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro a modelu effaith ariannol yr anawsterau yn y farchnad recriwtio myfyrwyr tramor a diffyg unrhyw newidiadau perthnasol i gyllido addysg uwch yn y DU yn y tymor hwy.

I fynd i'r afael â'r risgiau a oedd yn dod i'r amlwg, rhoddodd y Brifysgol Gynllun Cynaliadwyedd Ariannol teirblwydd ar waith ym mis Awst 2023, gan gynnwys cynllun manwl i gyflawni arbedion sylweddol mewn cyflogau a meysydd heblaw am gyflogau erbyn 2026/27. Mae ymarfer sylweddol i Ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac yn 2024/25 cafwyd gostyngiad yn nifer y staff academaidd drwy'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol.

Mae rhagamcanion diweddaraf y Brifysgol yn nodi y bydd angen arbedion cost pellach er mwyn sicrhau bod y model gweithredu sylfaenol yn parhau i fod yn fforddiadwy gan ystyried y gostyngiad mewn incwm a ddisgwylir yn y blynyddoedd i ddod.

Cytunodd Banc Buddsoddi Ewrop i hepgor dau o'r cyfamodau benthyca sy'n gysylltiedig â benthyciadau'r Brifysgol gan y Banc ar gyfer 2024/25.

Yn ogystal, sicrhaodd y Brifysgol gyfleuster credyd cylchol gwerth £25m gyda HSBC yn 2024 am gyfnod o bum mlynedd i ddarparu gwydnwch ychwanegol.

Cytunwyd ar hepgoriad arall gyda Banc Buddsoddi Ewrop am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2026 yn amodol ar ragdaliad benthyciad o £7.3m ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r cyfamod dros dro, a oedd yn gofyn am leiafswm arian parod, a roddwyd ar waith tan 31 Ionawr 2026, bellach yn amod parhaol ychwanegol y benthyca. Y gofyniad yw bod y Brifysgol yn dal lleiafswm o £50m mewn arian parod, gan gynnwys y cyfleuster credyd cylchol tan 31 Gorffennaf 2026, gan ostwng i £40m am y blynyddoedd 2026/27 a 2027/28 a chodi eto i £50m o 2028/29.

Mae'r Brifysgol wedi paratoi senario canlyniad gwaethaf credadwy ac wedi ystyried effaith ariannol hwn ar ei Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, ei Sefyllfa Ariannol, ei Llifoedd Arian Parod ac ar ei chyfamodau bancio ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol, sef 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Dengys y senario canlyniad gwaethaf y gall y Brifysgol ddal arian parod digonol i fodloni ei gofynion gweithredu beunyddiol ac na fydd unrhyw un o amodau newydd y cyfamodau yn cael ei dorri.

Y brif risg a brofwyd yw'r gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr cartref a thramor o'u cymharu â rhagamcanion gwreiddiol 2025/26, gan ystyried gwir gofrestriadau hyd at fis Hydref 2025 a chofrestriadau posib ym mis Medi 2026, yn seiliedig ar geisiadau presennol a gwybodaeth am y farchnad.

Mae risgiau eraill a ystyriwyd yn cynnwys newidiadau posib ym mholisïau cyllido llywodraeth y DU ac oedi wrth gyflawni'r targedau ar gyfer arbedion a bennwyd gan y Brifysgol.

Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol yn hyderus, ar sail ei hanes o ragweld a nodi heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy'n llwyddiannus, y bydd yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn ei model gweithredu i sicrhau y gall fodloni'r gofynion busnes gweithredol.

Mae aelodau'r Cyngor wedi ystyried y rhagdybiaethau sy'n sail i'r senario canlyniad gwaethaf credadwy, y mesurau lliniaru a awgrymwyd ac effaith ariannol y rhain, yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa arian parod a'r cyfamodau benthyca wedi'u hail-negodi. Er eu bod yn cydnabod maint yr her a wynebir gan y sector a'r Brifysgol, mae aelodau'r Cyngor yn hyderus bod arweinyddiaeth bresennol y Brifysgol yn gallu rheoli'r risgiau ac y bydd arian digonol ar gael i fodloni rhwymedigaethau'r Brifysgol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y cyfnod o 12 mis i ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**5 Eithriadau o dan FRS102**

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 SORP (1.12(b) o FRS 102) i beidio â llunio datganiad o lif arian parod y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

**6 Sail gyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â'r gyfran o ganlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2025.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng mentrau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd yn cael eu dileu. Mae trafodion masnachol arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; caiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

## 7 Cydnabod incwm

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, pan ellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir neu y disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle caiff swm y ffi ddysgu ei ostwng oherwydd disgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm i'w dderbyn net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, lle bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n derbyn budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Credydir incwm o fuddsoddi i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

**Cyllid grant**

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil gan ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau eraill gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio yn y credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio yn y credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

**Grantiau cyfalaf**

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cyfrifir am grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth ar gyfer tir yn unol â'r model perfformiad fel y polisi ar gyfer grantiau'r Llywodraeth uchod.

**Rhoddion a gwaddolion**

Mae rhoddion a gwaddolion yn drafodion nad ydynt yn rhai cyfnewid heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir yr incwm yn y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig nes y gellir ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, pan fo'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad rhwng cronfeydd wrth gefn.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac adbrisiant buddsoddiadau gwaddolion yn incwm yn ystod y flwyddyn mae'n codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Caiff rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau eu dosbarthu fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio i gyflawni amcan penodol.

2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn creu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion cyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Brifysgol droi'r swm a roddir yn incwm.

4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff yr incwm a gydnabyddir ei brisio gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'u gwerth gros neu'r gwir swm sy'n cael ei wireddu. Caiff rhoddion sy'n asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel ar gyfer asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

## 8 Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeol

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS yn Gynllun Cyfartaledd Enillion Gyrfa wedi'i Ailbrisio. Mae SUPS yn gynllun buddion diffiniedig, a ariennir yn allanol ac sydd wedi'i gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff y ddwy gronfa eu prisio bob tair blynedd gan actwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae USS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'n bosib adnabod asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, mae'r cyfrifon yn ymdrin â'r cynllun fel cynllun buddion ymddeol cyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau lle bo'n briodol ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yng nghynllun pensiwn USS neu Gynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe. Yn ôl prisiad 2024, mae gwarged gan gynllun USS a dilëwyd y rhwymedigaeth yn y datganiadau ariannol.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig**

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan ddarperir y gwasanaethau gan y cyflogeion.

**Cynlluniau aml-gyflogwr**

Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau isorweddol mewn cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y traul canlyniadol mewn gwariant.

**Cynllun Buddion Diffiniedig**

Mae Cynllun Buddion Diffiniedig yn gynllun budd ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn gyflogeion, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl). Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol mewn perthynas â phob cynllun ar sail gwerth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd, namyn gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn comisiynu actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel, wedi eu mynegi'n sterling ar delerau sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfnod y taliadau yn y dyfodol.

Cyfrifir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau sy'n cael eu dal mewn modd tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel costau neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau cynllun, namyn symiau wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio lle caiff ei chynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth cyflogai yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost gyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 31 i'r cyfrifon.

**9 Buddion Cyflogaeth**

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur i gyfrifo'r swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl heb ei defnyddio. Cydnabyddir hawl i wyliau blynyddol heb eu defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr yn achos staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio gan academyddion oherwydd nad oes rhwymedigaeth.

Cydnabyddir taliadau terfynu cyflogaeth yn y dyfodol o dan y cynllun ymadael yn wirfoddol yn y flwyddyn gyfredol, dim ond lle cafwyd cytundeb ffurfiol ac ymrwymiad i'r terfynu hwnnw ar sail unigolyn erbyn 31 Gorffennaf.

**10 Prydlesi Cyllid**

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae asedau ar brydles sy'n cael eu caffael drwy brydlesi cyllid yn cael eu datgan ar sail yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiad wedi'i gronni a cholledion wedi'u cronni oherwydd amhariad.

Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod. Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

**11 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth**

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar sail gwerth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaeth, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol i leihau'r rhwymedigaeth ariannol i ddim dros oes y trefniant.

Mae preswylfeydd Campws y Bae a Champws Parc Singleton wedi'u dosbarthu fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

**12 Prydlesi Gweithredu**

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.

**13 Arian Cyfred Tramor**

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i bunnau Sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid dramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid tramor sy'n codi adeg trosi yn y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ac a nodir ar sail gwerth teg eu hail-drosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid sydd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

**14 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**

Nodir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y gost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

**Tir ac adeiladau**

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost pan gânt eu cydnabod i ddechrau.

Ar ôl eu cydnabod y tro cyntaf, wedi hynny caiff tir ac adeiladau eu mesur ar sail costau namyn dibrisiant cronedig a cholledion a gronnwyd o ganlyniad i amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau a oedd gan y Brifysgol adeg y newid i FRS102 a chyflwyno SORP Addysg Uwch newydd 2015, eu hailbrisio ar sail gwerth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm sydd gyfwerth â'r dibrisiant sy'n fwy na'r swm sy'n seiliedig ar y gost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig yn flynyddol.

Caiff costau sy'n gysylltiedig â thir ac adeiladau ar ôl iddynt gael eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cânt eu nodi fesul cydran a chyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

**Cyfarpar**

Caiff cyfarpar sy'n costio mwy na £25,000 am bob eitem unigol eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael. Caiff cyfarpar a brynwyd fel rhan o becyn neu raglen adnewyddu, lle mae'r pecyn cyfan yn costio mwy na £25,000 eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael hefyd. Caiff gwerth yr holl gyfarpar eraill ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael, oni bai bod rheswm penodol dros gyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw tair i bum mlynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Caiff dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**Llongau**

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu'n flynyddol ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**Costau Benthyca**

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau.

**Amhariad**

Cynhelir adolygiad o amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar bob blwyddyn. Ceir amhariad ar asedau pan fo digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm i'w gario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

**15 Asedau Treftadaeth**

Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bo modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiad yn berthnasol.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

**16 Buddsoddiadau**

Caiff buddsoddiadau anghyfredol eu dal ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiol ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Caiff buddsoddiadau asedau cyfredol eu dal ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 17 Stoc

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

### 18 Arian Parod ac Eitemau Cyfwerth

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alw a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 2 ddiwrnod gwaith heb gosb.

Mae eitemau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg fawr o newid eu gwerth.

### 19 Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) Mae rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.

b) Mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth, a

c) Gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol gan adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Ceir rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol - neu absenoldeb digwyddiadau penodol - yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Ceir rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Ceir ased digwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei gadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol — neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol — yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chydnabyddir asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

### 20 Cyfrifyddu ar gyfer Cwmnïau Cysylltiol, Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 21 Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen yn ôl ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r brifysgol gael ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW ar fewnbynnau nad oes modd ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynnau. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

### 22 Cronfeydd wrth gefn

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig wrth gefn. Mae gwaddolion wrth gefn cyfyngedig yn cynnwys arian sydd, drwy waddol i'r Brifysgol, yn cael ei gadw fel cronfa gyfyngedig barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol gadw'r gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys rhoddion cyfyngedig y mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol iddynt, ac felly mae cyfyngiad ar y Brifysgol o ran defnyddio'r cronfeydd hyn.

### 23 Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu allweddol

Mae'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

**Rhwymedigaethau o ran buddion ymddeol**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch ac FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol i'r actiwarïaid, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwarïaid a'r rheolwyr. Cofnodir y rhagdybiaethau yn nodyn 31.

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel arfer gyda chyflogwr noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac mae'n cynrychioli (fel arfer) gynllun diwydiant cyfan, gan gynnwys Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion.

Mae'r cyfrifyddu am gynllun aml-gyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) a chydnabyddir y gost o ganlyniad drwy'r cyfrif elw neu golled yn unol ag adran 28 FRS 102. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr. Os bydd diffyg gan y cynllun Pensiwn, mae'r Brifysgol yn cydnabod gwerth teg ar sail cyfradd ddisgownt y cyfraniadau cytundebol o dan y cynllun adennill sydd ar waith. Os bydd rhwymedigaeth gytundebol gan y Brifysgol i wneud taliadau i adennill y diffyg i USS, cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Yn dilyn prisiad teirblwydd diweddaraf USS, nid oes diffyg gan y Cynllun Pensiwn mwyach, felly ni chydnabyddir darpariaeth ar 31 Gorffennaf. Caiff y sefyllfa hon ei hasesu eto ar ôl pob prisiad teirblwydd. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 31.

# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2025*

| | NODIADAU | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2025 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2025 | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | 176,638 | 176,638 | 213,306 | 213,306 |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | 39,088 | 39,088 | 40,503 | 40,503 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | 51,232 | 51,232 | 56,852 | 56,852 |
| Incwm arall | 4 | 61,415 | 60,975 | 62,896 | 62,481 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | 4,804 | 4,804 | 7,214 | 7,214 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | 468 | 468 | 924 | 924 |
| **CYFANSWM INCWM** | | 333,645 | 333,205 | 381,695 | 381,280 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7 | 199,491 | 199,079 | 201,208 | 200,818 |
| Newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | 7 | - | - | (98,742) | (98,742) |
| Costau ailstrwythuro | 7 | 8,422 | 8,422 | 8,461 | 8,461 |
| Treuliau gweithredu eraill | 9 | 127,122 | 126,755 | 147,288 | 146,811 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 10/11 | 31,310 | 31,303 | 31,784 | 31,779 |
| Llog a chostau cyllid eraill | 8 | 6,685 | 6,664 | 8,780 | 8,763 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 9 | 373,030 | 372,223 | 298,779 | 297,890 |
| **(Diffyg)/Gwarged cyn enillion/(colledion) eraill, a chyfran o warged / (ddiffyg) gweithredol cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiol** | | (39,385) | (39,018) | 82,916 | 83,390 |
| **ENILLION A CHOLLEDION ERAILL** | | | | | |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | 10 | - | - | 445 | 445 |
| (Colled) / enillion ar fuddsoddiadau | 14/22 | (366) | (1,491) | 384 | 237 |
| Cyfran o (ddiffyg) / elw gweithredu mewn cwmni cysylltiol | 14 | (154) | - | 29 | - |
| **GWARGED AC INCWM CYNHWYSFAWR** | | | | | |
| **(DIFFYG) / GWARGED CYN TRETHIANT** | | (39,905) | (40,509) | 83,774 | 84,072 |
| Trethiant | | (27) | - | (33) | - |
| **(DIFFYG) / GWARGED AM Y FLWYDDYN** | | (39,932) | (40,509) | 83,741 | 84,072 |
| **Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | |
| Enillion / (colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 31 | 5,400 | 5,400 | (3,400) | (3,400) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | | (34,532) | (35,109) | 80,341 | 80,672 |
| **CYNRYCHIOLIR GAN:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn | 22 | 163 | 163 | 664 | 664 |
| Incwm cyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | 23 | (286) | (286) | 648 | 648 |
| Incwm anghyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | | (32,486) | (33,063) | 80,034 | 80,365 |
| Incwm o'r gronfa ailbrisio wrth gefn am y flwyddyn | | (1,923) | (1,923) | (1,005) | (1,005) |
| | | (34,532) | (35,109) | 80,341 | 80,672 |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant mewn perthynas â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau a'r polisïau esboniadol ar dudalennau 74 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



# DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A RHAI'R SEFYDLIAD

*Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2025*

| | CRONFA INCWM A GWARIANT WRTH GEFN | | | CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | GWADDOL | CYFYNGEDIG | ANGHYFYNGEDIG | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **CYFUNOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2023** | 7,308 | 187 | 198,437 | 41,083 | 247,015 |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 695 | 648 | 82,398 | | 83,741 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | | (3,400) | - | (3,400) |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | | 1,005 | (1,005) | - |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (31) | | 31 | - | - |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | 7,972 | 835 | 278,471 | 40,078 | 327,356 |
| **AR 1 AWST 2024** | 7,972 | 835 | 278,471 | 40,078 | 327,356 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 186 | (286) | (39,832) | | (39,932) |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | | 5,400 | - | 5,400 |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | | 1,923 | (1,923) | - |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (23) | | 23 | - | - |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | 163 | (286) | (32,486) | (1,923) | (34,532) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 8,135 | 549 | 245,985 | 38,155 | 292,824 |
| **Y BRIFYSGOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2023** | 7,308 | 187 | 198,220 | 41,083 | 246,798 |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 695 | 648 | 82,729 | - | 84,072 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | (3,400) | - | (3,400) |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | - | 1,005 | (1,005) | - |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (31) | - | 31 | - | - |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | 7,972 | 835 | 278,585 | 40,078 | 327,470 |
| **AR 1 AWST 2024** | 7,972 | 835 | 278,585 | 40,078 | 327,470 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 186 | (286) | (40,409) | - | (40,509) |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | 5,400 | - | 5,400 |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | - | 1,923 | (1,923) | - |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddolion a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (23) | - | 23 | - | - |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | 163 | (286) | (33,063) | (1,923) | (35,109) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 8,135 | 549 | 245,522 | 38,155 | 292,361 |

# DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2025*

| | NODIADAU | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2025 £000 | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | 242 | 242 | 444 | 444 |
| Asedau diriaethol | 10 | 466,174 | 466,107 | 480,323 | 480,249 |
| Asedau treftadaeth | 12 | 1,040 | 1,040 | 1,040 | 1,040 |
| Buddsoddiadau | 14 | 165 | - | 555 | - |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 14 | - | - | - | 700 |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 14 | - | - | 154 | - |
| | | 467,621 | 467,389 | 482,516 | 482,433 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stociau | 15 | 65 | - | 93 | - |
| Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 17 | 33,858 | 33,779 | 41,452 | 41,421 |
| Buddsoddiadau | 16 | - | - | 5,364 | 5,364 |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod | | 97,600 | 97,259 | 120,756 | 120,580 |
| | | 131,523 | 131,038 | 167,665 | 167,365 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Namyn credydwyr sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 18 | (89,381) | (89,127) | (100,621) | (100,124) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 42,142 | 41,911 | 67,044 | 67,241 |
| **CYFANSWM ASEDAU NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 509,763 | 509,300 | 549,560 | 549,674 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 19 | (204,539) | (204,539) | (203,204) | (203,204) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiwn | 21 | (12,400) | (12,400) | (19,000) | (19,000) |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | 292,824 | 292,361 | 327,356 | 327,470 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn - cronfa waddolion wrth gefn | 22 | 8,135 | 8,135 | 7,972 | 7,972 |
| Incwm a gwariant wrth gefn - cronfa wrth gefn gyfyngedig | 23 | 549 | 549 | 835 | 835 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | 245,985 | 245,522 | 278,471 | 278,585 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 38,155 | 38,155 | 40,078 | 40,078 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | 292,824 | 292,361 | 327,356 | 327,470 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 28 Tachwedd 2025 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

**Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)**

**G Ashmore (Cadeirydd y Cyngor)**



# DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN PAROD CYFUNOL

*Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2025*

| | NODYN | 31 GORFFENNAF 2025 £000 | 31 GORFFENNAF 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| (Diffyg) / Gwarged am y flwyddyn cyn trethiant | | (39,905) | 83,774 |
| **ADDASIAD AR GYFER EITEMAU AC EITHRIO ARIAN PAROD** | | | |
| Dibrisiant | 10 | 31,177 | 31,663 |
| Amorteiddio eitemau anniriaethol | 11 | 133 | 121 |
| Amhariad | 14 | 2,737 | - |
| Enillion / (Colled) ar Fuddsoddiadau | | 366 | (384) |
| Gostyngiad mewn stociau | | 28 | 36 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | | 7,594 | 9,004 |
| (Gostyngiad) mewn credydwyr | | (12,254) | (34,180) |
| (Gostyngiad) mewn darpariaethau pensiwn | | (1,200) | (101,241) |
| Cyfran o ddiffyg / (warged) gweithredu mewn busnes cysylltiol | | 154 | (29) |
| **ADDASIAD AR GYFER GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU GYLLIDO** | | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | | (4,804) | (7,214) |
| Incwm grantiau cyfalaf | | (5,406) | (5,327) |
| Llog i'w dalu | | 5,785 | 5,701 |
| Incwm o Waddolion | | (8) | (85) |
| (Enillion) ar werthu asedau diriaethol | | - | (445) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | (15,603) | (18,606) |
| Trethiant | | (27) | (33) |
| **(ALL-LIF) ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | (15,630) | (18,639) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbynebion grant cyfalaf | | 6,470 | 7,115 |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | | - | 445 |
| Taliadau i brynu asedau diriaethol | | (19,732) | (32,044) |
| Taliadau i brynu asedau anniriaethol | | 37 | (249) |
| Gwaredu buddsoddiadau cyfredol | | 5,388 | - |
| Gostyngiad mewn adneuon | | - | 50,000 |
| Incwm o fuddsoddiadau | | 4,804 | 8,732 |
| | | (3,033) | 33,999 |
| **LLIFOEDD PAROD O WEITHGAREDDAU CYLLIDO** | | | |
| Llog a dalwyd | | (2,998) | (2,820) |
| Elfen llog o brydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | (2,787) | (2,881) |
| Elfen cyfalaf o brydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | (6,679) | (6,584) |
| Gwaddolion newydd | | 8 | 85 |
| Benthyciadau anwarantedig newydd | | 14,611 | - |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | (6,340) | (6,077) |
| | | (4,185) | (18,277) |
| **GOSTYNGIAD MEWN ARIAN PAROD AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD YN Y FLWYDDYN** | | (22,848) | (2,917) |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 120,358 | 123,275 |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | 97,510 | 120,358 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

*Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2025*

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **1. FFÏOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| Myfyrwyr amser llawn o'r DU a'r UE | 118,192 | 118,192 | 112,721 | 112,721 |
| Myfyrwyr rhyngwladol amser llawn | 38,624 | 38,624 | 82,580 | 82,580 |
| Myfyrwyr rhan-amser | 3,441 | 3,441 | 3,536 | 3,536 |
| Contractau addysgol gyda'r GIG ac AaGIC | 16,328 | 16,328 | 14,389 | 14,389 |
| Ffïoedd cyrsiau nad ydynt yn achrededig | 53 | 53 | 80 | 80 |
| | 176,638 | 176,638 | 213,306 | 213,306 |

I gynhyrchu ffi ddysgu amser llawn cartref a'r UE mae'r Brifysgol wedi gwario £3,727k (2024: £4,016k) mewn perthynas â bwrsariaethau yn unol â'r cynllun ffïoedd.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **2. GRANTIAU CYRFF CYLLIDO** | | | | |
| **GRANTIAU CYLCHOL** | | | | |
| Grantiau Addysgu Medr | 11,310 | 11,310 | 10,222 | 10,222 |
| Grantiau Ymchwil Medr | 18,685 | 18,685 | 18,376 | 18,376 |
| Grant Cyfalaf HERC | 1,163 | 1,163 | 3,371 | 3,371 |
| | 31,158 | 31,158 | 31,969 | 31,969 |
| **GRANTIAU PENODOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN** | | | | |
| Iechyd a Lles Myfyrwyr | 887 | 887 | 1,204 | 1,204 |
| Ymchwil ac Arloesi | 503 | 503 | 2,631 | 2,631 |
| Yr Iaith Gymraeg | 1,469 | 1,469 | 1,516 | 1,516 |
| Arall | 828 | 828 | 1,709 | 1,709 |
| Cyfalaf | 4,243 | 4,243 | 1,474 | 1,474 |
| | 7,930 | 7,930 | 8,534 | 8,534 |
| | 39,088 | 39,088 | 40,503 | 40,503 |

Mae incwm o grantiau cyfalaf yn cyfeirio at £1,871k mewn perthynas ag adeiladau (2024: £3,296k) a £3,535k mewn perthynas â chyfarpar (2024: £1,549k).

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **3. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| Cynghorau Ymchwil | 27,377 | 27,377 | 25,656 | 25,656 |
| Elusennau yn y DU | 4,942 | 4,942 | 4,023 | 4,023 |
| Diwydiant a masnach yn y DU | 2,384 | 2,384 | 3,022 | 3,022 |
| Llywodraeth (y DU a thramor) | 14,149 | 14,149 | 20,358 | 20,358 |
| Arall | 2,380 | 2,380 | 3,793 | 3,793 |
| | 51,232 | 51,232 | 56,852 | 56,852 |

Yn ystod y flwyddyn ni chafodd derbynebion grantiau cyfalaf eu cynnwys gydag incwm ymchwil (2024: £482k).



| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **4. INCWM ARALL** | | | | |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 22,974 | 22,974 | 25,192 | 25,192 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 2,650 | 2,650 | 2,095 | 2,095 |
| Incwm o drefniadau consesiwn gwasanaeth | 9,466 | 9,466 | 9,466 | 9,466 |
| Incwm arall | 16,276 | 15,836 | 16,377 | 15,962 |
| Incwm o'r GIG mewn perthynas â'r Coleg Meddygaeth | 8,203 | 8,203 | 7,632 | 7,632 |
| Dyfarniad Doethurol Amser Llawn/Hyfforddiant Cydweithredol y Cyngor Ymchwil | 1,846 | 1,846 | 2,134 | 2,134 |
| | 61,415 | 60,975 | 62,896 | 62,481 |

Mae incwm arall yn cynnwys incwm o gydweithrediadau sef £4,565k (2024: £5,559k), incwm ystadau o £1,609k (2024: £2,050k) ac incwm o £1,207k o'r ganolfan chwaraeon (2024: £1,096k).

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **5. INCWM O FUDDSODDI** | | | | |
| Incwm buddsoddi ar waddolion | 180 | 180 | 224 | 224 |
| Incwm Arall o Fuddsoddiadau | 4,624 | 4,624 | 6,990 | 6,990 |
| | 4,804 | 4,804 | 7,214 | 7,214 |

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **6. RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| Gwaddolion newydd | 8 | 8 | 85 | 85 |
| Rhoddion â chyfyngiadau | 290 | 290 | 728 | 728 |
| Rhoddion anghyfyngedig | 170 | 170 | 111 | 111 |
| | 468 | 468 | 924 | 924 |

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **7. COSTAU STAFF** | | | | |
| Costau staff am y flwyddyn ariannol oedd: | | | | |
| Cyflogau | 161,231 | 160,819 | 163,271 | 162,881 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 18,125 | 18,125 | 16,700 | 16,700 |
| Costau pensiwn eraill | 20,135 | 20,135 | 21,237 | 21,237 |
| **CYFANSWM COSTAU STAFF** | 199,491 | 199,079 | 201,208 | 200,818 |
| **NEWID YN Y CYFRANIADAU A DDISGWYLIR AT GYNLLUN USS** | - | - | (98,742) | (98,742) |
| **COSTAU AILSTRWYTHURO:** | 8,422 | 8,422 | 8,461 | 8,461 |

Yn ystod blwyddyn 2024/25, parhaodd y Brifysgol i gynnig ei Chynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) i'r holl staff, gan gynnig taliadau digolledu uwch i gyflogeion a ddymunai adael y Brifysgol yn wirfoddol. Mae'r gost, sef £8,422k (2024: £8,461k) yn cynnwys yr holl staff a oedd wedi'u derbyn i'r cynllun VES ar 31 Gorffennaf 2025 a'u cymeradwyo gan y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Ariannol, y Deoniaid Gweithredol, y Pennaeth AD a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Ceir dadansoddiad pellach o gostau pensiwn yn nodyn 31, Cynlluniau Pensiwn.

| | 2025 £000 | 2024 £000 |
|---|---|---|
| **CYFANSWM CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR IS-GANGHELLOR** | | |
| Cyflog sylfaenol | 336 | 335 |
| Lwfans llety | 18 | 18 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | - | 9 |
| Taliadau trethadwy eraill | - | 14 |
| | 354 | 376 |

Mae taliadau trethadwy eraill yn ymwneud â chostau cyfreithiol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar strategaeth wobrwyo'r Brifysgol, gan gynnwys adolygu a phenderfynu ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-ganghellor a chydnabyddiaeth ariannol a buddion ariannol eraill aelodau eraill o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, ac am ddatblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth uwch-aelodau o staff y Brifysgol ar Radd 11 a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ffforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach lle bo'n briodol. Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol i'w rhoi, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ymagwedd y Brifysgol at gydnabod perfformiad ac yn cyfeirio at wybodaeth feincnodi'r sector a geir o Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion UCEA. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddogion Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC).

Gan ystyried yr arbedion cost arfaethedig i wella cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, cymeradwyodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol argymhelliad gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth na fyddai cylch Cydnabyddiaeth Ariannol 2024 ar gyfer cydweithwyr Gradd 10A, cydweithwyr Gradd 11, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'r Is-ganghellor yn cael ei gynnal.

Yn y blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo ymagwedd at gydnabyddiaeth ariannol aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth (gan gynnwys yr Is-ganghellor) a oedd yn ystyried y canlynol:

i. Cromliniau Perfformiad Athrawol y Brifysgol;

ii. Argymhellion manwl am berfformiad a chydnabyddiaeth ariannol.

Mae ffactorau a gafodd eu hystyried fel rhan o'r cynigion blaenorol i wobrwyo perfformiad wedi cynnwys:

a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis Ymchwil; Addysgu; Arloesi ac Ymgysylltu; Arweinyddiaeth a Rheoli; Partneriaethau a chysylltiadau allanol rhyngwladol, cenedlaethol a lleol; a mentrau a phrosiectau mawr;

b) maint a chymhlethdod y sefydliad;

c) natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw;

ch) amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu; a

Daeth data i gefnogi'r dangosyddion hyn o'r ffynonellau canlynol:

a) Arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau staff y Gymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau;

b) dadansoddiad o ddosbarthiadau cyflog.

Gan gydnabod gweledigaeth y Brifysgol i fod yn Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol â gwaith ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf, mewn amgylchedd sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori, ynghyd â chael ein gwerthfawrogi'n fyd-eang fel partner dibynadwy sy'n ymroddedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol i Gymru, mae'n hanfodol bod y Brifysgol yn cynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol cystadleuol ar gyfer rôl yr Is-ganghellor. Mae hyn hefyd yn cydnabod nifer staff a myfyrwyr y Brifysgol, a natur amrywiol a chymhleth y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am adolygu a phennu pob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau a thelerau cyflogaeth yr Is-ganghellor, gan ystyried hyd a lled y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol, a chyflawni yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain.

Wrth ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried y cyd-destun sefydliadol, ynghyd â pherfformiad yr Is-ganghellor, newid cyffredinol yng nghyflogau holl staff y Brifysgol, materion cadw ac unrhyw ystyriaethau perthnasol y farchnad, ac mae'n cael ei lywio gan ddata meincnodi mewnol a gwybodaeth meincnodi cyflogau yn erbyn prifysgolion cymharol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Natganiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2025: https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/llywodraethu'r-brifysgol/y-cyngor/pwyllgoraur-cyngor/y-pwyllgor-ariannol/

Mae'r Is-ganghellor wedi'i gofrestru yn y trefniant optio allan uwch yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS).

Mae cyflog sylfaenol pennaeth y darparwr 8.6 gwaith canolrif cyflogau staff (2024: 9.4 gwaith), lle cyfrifir canolrif cyflogau ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cydnabyddiaeth ariannol gyfan pennaeth y darparwr 8.9 gwaith cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol y staff (2024: 9.9 gwaith), lle cyfrifir cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gydnabyddiaeth ariannol gyfan gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cyfrifiadau'r canolrif yn cynnwys cyflogau a ariennir yn rhannol gan y GIG.



## STAFF AR GYFLOGAU UWCH

Mae nifer y staff sy'n ennill cyflog sylfaenol sy'n uwch na £100,000 y flwyddyn wedi'i gynnwys isod.

Gwelir isod cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch (ac eithrio'r Is-ganghellor). Mae hyn yn eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond yn cynnwys taliadau a wneir ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau cytundebol i staff y Brifysgol o dan gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG ac a ad-delir i'r Brifysgol gan y GIG:

Yn 2025 roedd 69 aelod staff ar gyflogau uwch (2024: 65)

| | CYFUNOL 2025 NIFER | Y BRIFYSGOL 2025 NIFER | CYFUNOL 2024 NIFER | Y BRIFYSGOL 2024 NIFER |
|---|---|---|---|---|
| £100,000 – £104,999 | 10 | 10 | 8 | 8 |
| £105,000 – £109,999 | 10 | 10 | 9 | 9 |
| £110,000 – £114,999 | 5 | 5 | 3 | 3 |
| £115,000 – £119,999 | 7 | 7 | 10 | 10 |
| £120,000 – £124,999 | 8 | 8 | 5 | 5 |
| £125,000 – £129,999 | 5 | 5 | 4 | 4 |
| £130,000 – £134,999 | 5 | 5 | 4 | 4 |
| £135,000 – £139,999 | 2 | 2 | 5 | 5 |
| £140,000 – £144,999 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| £145,000 – £149,999 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| £150,000 – £154,999 | 1 | 1 | - | - |
| £155,000 – £159,999 | - | - | 2 | 2 |
| £160,000 – £164,999 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| £165,000 – £169,999 | - | - | 1 | 1 |
| £170,000 – £174,999 | - | - | 1 | 1 |
| £175,000 – £179,999 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| £180,000 – £184,999 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| £185,000 – £189,999 | - | - | - | - |
| £190,000 – £194,999 | - | - | 1 | 1 |
| £195,000 – £199,999 | - | - | - | - |
| £200,000 – £204,999 | 1 | 1 | - | - |
| £205,000 – £209,999 | - | - | 1 | 1 |
| £210,000 – £214,999 | 1 | 1 | - | - |
| £215,000 – £219,999 | - | - | - | - |
| £220,000 – £224,999 | - | - | - | - |
| £225,000 – £229,999 | - | - | 1 | 1 |
| £230,000 – £234,999 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| £235,000 - £239,999 | - | - | - | - |
| £240,000 - £244,999 | - | - | - | - |
| £245,000 - £249,999 | - | - | - | - |
| £250,000 - £254,999 | - | - | - | - |
| £255,000 - £259,999 | - | - | - | - |
| £260,000 - £264,999 | - | - | - | - |
| £265,000 - £269,999 | 1 | 1 | - | - |

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| **DIGOLLEDIAD TALADWY AM GOLLI SWYDD I STAFF AR GYFLOGAU UWCH:** | £000 | £000 |
| Digollediad a thaliadau diswyddo a dalwyd i staff y Brifysgol ar gyflogau uwch. | 330 | 172 |
| Nifer o staff y Brifysgol ar gyflogau uwch a dderbyniodd ddigollediad neu daliad diswyddo. | 4 | 1 |

## NIFER CYFARTALOG Y STAFF (GAN GYNNWYS DEILIAID UWCH SWYDDI) A GYFLOGIR GAN Y BRIFYSGOL

Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd gan y Brifysgol yn ystod y flwyddyn, wedi'i fynegi fel CALl (cyfwerth ag amser llawn):

| | 2025 Nifer (CALl) | 2024 Nifer (CALl) |
|---|---|---|
| Academaidd | 1,181 | 1,197 |
| Ymchwil | 357 | 398 |
| Rheoli ac arbenigol | 988 | 1,049 |
| Technegol | 170 | 191 |
| Arall | 752 | 826 |
| | 3,448 | 3,661 |

## PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Personél rheoli allweddol yw'r rhai hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r sefydliad. Mae'r personél rheoli allweddol yn cynnwys yr uwch-swyddogion gweithredol gan gynnwys yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, tri Dirprwy Is-ganghellor, tri Deon Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol.

| | 2025 £000 | 2024 £000 |
|---|---|---|
| Personél Rheoli Allweddol | 1,643 | 1,717 |

Yn ystod y flwyddyn, 9 oedd nifer y Personél Rheoli Allweddol o hyd (2024: 9).

## 8. LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL

| | NODYN | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau | | 2,998 | 2,977 | 2,820 | 2,803 |
| Prydlesi cyllid gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | 2,787 | 2,787 | 2,881 | 2,881 |
| Dad-ddirwyn y ffactor disgownt USS | | - | - | 2,279 | 2,279 |
| Cost net llog ar bensiynau | 31 | 900 | 900 | 800 | 800 |
| | | 6,685 | 6,664 | 8,780 | 8,763 |

## 9. DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | 132,882 | 132,882 | 142,133 | 142,133 |
| Gwasanaethau academaidd | 34,427 | 34,427 | 38,097 | 38,097 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 48,549 | 48,549 | 49,919 | 49,919 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 27,956 | 27,956 | 28,369 | 28,369 |
| Mangreoedd | 43,291 | 43,290 | 48,674 | 48,674 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 59,565 | 59,566 | 68,208 | 68,208 |
| Addasiadau ar gyfer cronfa USS | - | - | (99,641) | (99,642) |
| Arall | 26,360 | 25,553 | 23,022 | 22,132 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 373,030 | 372,223 | 298,781 | 297,890 |



## MAE GWARIANT ARALL UCHOD YN CYNNWYS:

| | 2025 £000 | 2024 £000 |
|---|---|---|
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 9,850 | 9,944 |
| Costau ailstrwythuro: | 8,422 | 8,461 |

Yn ystod y flwyddyn aeth y Brifysgol i gostau ailstrwythuro o £8,422k (2024: £8,461k) o ganlyniad i barhau i gynnig y Cynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) i'r holl staff, gan wneud taliadau digolledu uwch i gyflogeion a oedd yn dymuno gadael y Brifysgol yn wirfoddol.

## TREULIAU GWEITHREDU ERAILL YN UNOL Â'R DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR

| | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 |
|---|---|---|
| Cyfarpar heb ei gyfalafu | 12,142 | 12,241 |
| Nwyddau traul | 4,620 | 5,127 |
| Rhent, ardrethi a phrydlesi | 24,979 | 24,604 |
| Costau atgyweirio, adnewyddu cynnal a chadw ac adeiladu | 10,263 | 10,548 |
| Gwres, golau, pŵer a dŵr | 9,308 | 13,595 |
| Ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a chyfraniadau at ffïoedd | 15,273 | 20,702 |
| Llyfrau, cyhoeddiadau, cyfnodolion a gwasanaethau llyfrgell | 3,997 | 3,962 |
| Recriwtio myfyrwyr a hysbysebu | 6,084 | 12,438 |
| Ymgynghori, gwasanaethau proffesiynol ac asiantaeth | 22,089 | 22,306 |
| Costau teithio a chynadleddau | 5,907 | 6,815 |
| Gwariant mewn perthynas â chyflogeion | 3,123 | 3,647 |
| Tanysgrifiadau a chyfraniadau | 4,661 | 3,242 |
| Treuliau swyddfa | 941 | 1,271 |
| Arlwyo | 1,308 | 1,520 |
| Treuliau eraill | 2,427 | 5,270 |
| | 127,122 | 147,288 |

## FFÏOEDD YR ARCHWILWYR ALLANOL

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau | 195 | 156 | 170 | 137 |
| Gwasanaethau sicrhau mewn perthynas â'r archwiliad | 10 | 10 | 21 | 21 |
| Gwasanaethau cydymffurfiaeth trethiant | 17 | - | 14 | - |
| Gwasanaethau cynghori ar drethiant | 210 | 210 | 168 | 168 |
| **GWASANAETHAU NAD YDYNT YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD** | 237 | 220 | 203 | 189 |

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y Brifysgol KPMG i ymgymryd â gwaith sylweddol ym meysydd symudedd byd-eang a threthiant addysg drawswladol.

## 10. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – CYFUNOL

| | Tir rhydd-ddaliol ac adeiladau | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar | Llongau | Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Asedau treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 447,073 | 171,322 | 62,271 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 700,674 |
| Ychwanegiadau | 6,915 | - | 6,173 | - | 6,644 | - | 19,732 |
| Trosglwyddiadau | 690 | - | 2,156 | - | (2,814) | - | 32 |
| Amhariad | (2,737) | - | - | - | - | - | (2,737) |
| Gwarediadau | - | - | (3,558) | - | - | - | (3,558) |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 451,941 | 171,322 | 67,042 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 714,143 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 38,155 | - | - | - | - | - | 38,155 |
| Cost | 413,786 | 171,322 | 67,042 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 675,988 |
| | 451,941 | 171,322 | 67,042 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 714,143 |
| **DIBRISIAD CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 103,200 | 66,974 | 48,813 | 324 | - | - | 219,311 |
| Tâl am y flwyddyn | 14,474 | 7,062 | 9,577 | 63 | - | - | 31,176 |
| Gwarediadau | - | - | (3,558) | - | - | - | (3,558) |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 117,674 | 74,036 | 54,832 | 387 | - | - | 246,929 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 334,267 | 97,286 | 12,210 | 1,179 | 21,232 | 1,040 | 467,214 |
| Ar 1 Awst 2024 | 343,873 | 104,348 | 13,458 | 1,242 | 17,402 | 1,040 | 481,363 |



## ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – Y BRIFYSGOL

| | Tir rhydd-ddaliol ac adeiladau | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar | Llongau | Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 447,073 | 171,322 | 61,033 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 699,436 |
| Ychwanegiadau | 6,915 | - | 6,173 | - | 6,644 | - | 19,732 |
| Trosglwyddiadau | 690 | | 2,156 | | (2,814) | | 32 |
| Amhariad | (2,737) | - | - | - | - | - | (2,737) |
| Gwarediadau | - | - | (3,558) | | | | (3,558) |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 451,941 | 171,322 | 65,804 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 712,905 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 38,155 | - | - | - | - | - | 38,155 |
| Cost | 413,786 | 171,322 | 65,804 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 674,750 |
| | 451,941 | 171,322 | 65,804 | 1,566 | 21,232 | 1,040 | 712,905 |
| **DIBRISIAD CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 103,200 | 66,974 | 47,649 | 324 | - | - | 218,147 |
| Tâl am y flwyddyn | 14,474 | 7,062 | 9,570 | 63 | - | - | 31,169 |
| Gwarediadau | - | - | (3,558) | - | - | - | (3,558) |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 117,674 | 74,036 | 53,661 | 387 | - | - | 245,758 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2025 | 334,267 | 97,286 | 12,143 | 1,179 | 21,232 | 1,040 | 467,147 |
| Ar 1 Awst 2024 | 343,873 | 104,348 | 13,384 | 1,242 | 17,402 | 1,040 | 481,289 |

Cynhaliwyd prisiad llawn o dir ac eiddo'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig yn unol â'r RICS Valuation - Professional Standards 2014 (y 'Llyfr Coch'). Yn unol ag FRS 102 paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad trosiannol sef 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw. Mae'r eiddo'n cael eu dibrisio o ddyddiad y prisiad. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn. Dadansoddiad o'r tir a'r adeiladau a brisiwyd ar ddyddiad y newid i FRS 102 gan ddefnyddio'r eithriad cost dybiedig.

Ar 31 Gorffennaf 2025, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliol yn cynnwys £21.3 miliwn (2024: £16.5 miliwn) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliol nad yw wedi cael ei ddibrisio.

Yn dilyn adolygiad o asedau diriaethol, cafodd gwerth nifer o ardaloedd ar Gampws Singleton a Champws y Bae ei ostwng oherwydd amhariad i werth £2,737k (2024: £0)

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Cyfunol a'r Brifysgol

| | MEDDALWEDD | ASEDAU SY'N CAEL EU DATBLYGU | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| **COST** | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Awst 2024 | 364 | 281 | 645 |
| Ychwanegiadau | (37) | - | (37) |
| Trosglwyddiadau | 93 | (125) | (32) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2025** | **420** | **156** | **576** |
| **AMORTEIDDIO** | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 201 | - | 201 |
| Tâl am y flwyddyn | 133 | - | 133 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2025** | **334** | **-** | **334** |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2025** | **86** | **156** | **242** |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 163 | 281 | 444 |

Caiff meddalwedd ei hamorteiddio ar sail llinell syth dros ei hoes economaidd ddefnyddiol. Mae asedau sy'n cael eu datblygu yn cyfeirio at ddylunio a gweithredu platfform meddalwedd i gefnogi datblygiadau'r rhwydwaith. Ni chaiff asedau sy'n cael eu datblygu eu hamorteiddio.

## 12. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU TREFTADAETH

Mae asedau treftadaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Ceir hefyd asedau treftadaeth eraill nad ydym yn gallu eu prisio oherwydd eu natur ac felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn cadw Casgliad Wellcome sy'n cynnwys hynafiaethau ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau ac yn bartner ACCES cydnabyddedig. Ei nod yw casglu, dehongli a gofalu am ddeunyddiau a dogfennau archeolegol Eifftaidd ac mae cadwraeth yn hanfodol i'w gwaith. Mae'r holl bolisïau sydd ar waith yn cael eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae Casgliad Wellcome ar gael i'w weld gan holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd hefyd.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Asedau Treftadaeth a chafodd ei brisio yn 2008 gan brisiwr annibynnol a chyfrifwyd amdano ar sail cost dybiedig ar y dyddiad trosiannol. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r casgliad celf hwn o amgylch y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd sy'n cynnwys, ymhlith eitemau eraill, gwpanau cystadlaethau, powlenni a fasau sy'n dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir rhoi pris i'r casgliad hwn, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff y casgliad ei storio'n ddiogel ond gall fod ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae gan y Brifysgol lawysgrifau gan Dylan Thomas hefyd a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd y Brifysgol.

## 13. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe Threfniant Consesiwn Gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**

Gwerth asedau'r consesiwn gwasanaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2025 yw £97,286k (1 Awst 2024: £104,348k).

Mae'r gostyngiad o £7,062k o ganlyniad i'r dibrisiant a godwyd yn y flwyddyn.

**NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**

Cyfanswm y rhwymedigaethau mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth a gynhwyswyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2025 oedd £109,546k (1 Awst 2024: £116,225k). Cafwyd gostyngiad o £6,679k mewn rhwymedigaethau yn y flwyddyn, sef gwerth dilead blynyddol y brydles.



**YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL**

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â'r trefniadau consesiwn gwasanaeth.

| £'000 | TALADWY MEWN 1 FLWYDDYN | TALADWY MEWN 2-5 MLYNEDD | TALADWY MEWN >MLYNEDD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6,777 | 14,482 | 88,287 | 109,546 |
| Tâl cyllid | 2,782 | 9,686 | 30,484 | 42,952 |
| | **9,559** | **24,168** | **118,771** | **152,498** |

Cyn diwygio'r Datganiadau Ariannol i adlewyrchu FRS102, roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o'r blaen. Mae'r prydlesi hyn bellach wedi cael eu cynnwys ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y trefniadau hyn:

**PRESWYLFEYDD GWALIA**

Gwalia Cam 1 - Ymrwymwyd i brydles 30 mlynedd yn 2004 i adeiladu tri bloc llety newydd â 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%.

Gwalia Cam 2 - Ymrwymwyd i brydles 30 mlynedd yn 2010 sy'n cynnwys 351 o unedau gyda'r lloriau isaf wedi'u neilltuo ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol. Y warant feddiannaeth yw 100%.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A**

Ym mis Medi 2015, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw cam 1a o lety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan gynnig 899 o ystafelloedd i 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, ymrwymodd y trydydd parti – gyda chydsyniad y Brifysgol – i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn ôl telerau'r cytundeb newydd, estynnwyd y brydles i 2062.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun hwn wedi'u cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50% sydd gyfwerth ag ymrwymiad i wneud taliadau blynyddol o £1,485k a chofnodir hyn yn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau blaenorol â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1B**

Ym mis Ionawr 2016, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw cam 1b o lety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan gyflenwi 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun hwn wedi'u cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50% sydd gyfwerth ag ymrwymiad i wneud taliadau blynyddol o £823k a chofnodir hyn yn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hyn, mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu meddiannaeth o unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau blaenorol â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C**

Ar 15 Rhagfyr 2015, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw cam 1c o lety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan gyflenwi 538 o ystafelloedd sengl.

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun hwn wedi'u cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth o 50% sydd gyfwerth ag ymrwymiad i wneud taliadau blynyddol o £1,056k a chofnodir hyn yn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol yr hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu meddiannaeth o unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau blaenorol â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract 45 mlynedd, mae gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG**

Ar 8 Medi 2017, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 20 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Adeilad Academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi gwarantu 35% o'r adeilad sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau gros blynyddol o £357k.

Mae gan y Brifysgol hawliau unigryw i'r 35% o'r adeilad a neilltuwyd ac mae'n rheoli defnydd yn yr ardal hon.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **14. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiad mewn cwmnïau cysylltiol | - | - | 154 | - |
| Buddsoddiad mewn is-gwmnïau | - | - | - | 700 |
| Buddsoddiadau eraill | 165 | - | 555 | - |
| | 165 | - | 709 | 700 |

### BUDDSODDIAD MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL

Mae gan y Sefydliad y buddsoddiadau 50% canlynol yn Swan Global Education LLP (2024: 50%) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2024: 50%). Cyfrifir am y buddsoddiadau ar sail cost namyn amhariad yn natganiadau ariannol y Sefydliad a chan ddefnyddio'r dull ecwiti yn y datganiadau ariannol cyfunol.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2024 | 154 | - | 125 | - |
| Cyfran o (elw) / colled a gedwir gan y cwmni cysylltiol | (154) | - | 29 | - |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | - | - | 154 | - |

### BUDDSODDIAD MEWN IS-GWMNÏAU

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2024 | - | 700 | - | 700 |
| Ychwanegiadau | - | 815 | - | 186 |
| Amhariad | - | (1,515) | - | (186) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | - | - | - | 700 |

Mae'r buddsoddiad o £815k yn cyfeirio at yr is-gwmnïau mae'r Brifysgol yn berchen yn llwyr arnynt, Swansea Materials & Testing Ltd (£800k) ac SU Pathway College Ltd (£15k). Mae'r amhariad o £1,515k yn cyfeirio at yr is-gwmnïau mae'r Brifysgol yn berchen yn llwyr arnynt Swansea Materials & Testing Ltd (£800k), SU Pathway College Ltd (£15k) a Swansea Innovations Ltd (£700k)

### BUDDSODDIADAU ERAILL

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2024 | 555 | - | 594 | - |
| Amhariad/Gwrthdroi amhariad | (149) | - | (44) | - |
| Ailbrisiadau | (241) | - | 5 | - |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 165 | - | 555 | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae buddsoddiadau eraill yn cynnwys: | | | | |
| Ar sail gwerth teg: | | | | |
| Gwarantau'r farchnad | 32 | - | 102 | - |
| Ar sail cost namyn amhariad: | | | | |
| Buddsoddiadau'r grŵp mewn cwmnïau deillio | 133 | - | 453 | - |
| | 165 | - | 555 | - |

Dyma fanylion buddsoddiadau y mae'r grŵp cyfunol a'r Brifysgol yn dal 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddosbarth o gyfranddaliadau ynddynt:



| CWMNI | SWYDDFA GOFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | DALIAD | STATWS |
|---|---|---|---|---|
| Gower Innovations Ltd | Prifysgol Abertawe SA1 8EN | Segur | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| 3D-BGS (UK) Ltd | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Gweithgynhyrchu offerynnau a chyflenwadau meddygol a deintyddol | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| ProGnomics Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym meysydd y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Bay Campus Developments LLP | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Segur | Partner | 50% |
| Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe | Pwll Cenedlaethol Cymru SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | Gwarant | 50% |
| Swan Global Education | The Lambourn Wyndyke Furlong Abingdon Oxfordshire OX14 1UJ | Addysgol | Partner | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Ymchwil a datblygu arbrofol arall ym meysydd y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| Swansea Innovations | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Gweithgareddau ymgynghori rheoli heblaw am reoli ariannol | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| SU Developments | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Segur | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
| SU Pathway College Ltd | Prifysgol Abertawe SA2 8PP | Gweithgareddau cefnogi cyfleusterau cyfunol | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu mesur ar sail pris y trafodiad (gan gynnwys costau trafodiad) a'u hystyried yn flynyddol am amhariad.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **15. STOC** | | | | |
| Nwyddau traul cyffredinol | 37 | - | 32 | - |
| Gwaith ar y gweill | 28 | - | 61 | - |
| | 65 | - | 93 | - |

| | CYFUNOL 2025 £000 | UNIVERSITY 2025 £000 | CONSOLIDATED 2024 £000 | UNIVERSITY 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **16. BUDDSODDIADAU CYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr mewn cyfranddaliadau | - | - | 1,925 | 1,925 |
| Bondiau tymor byr | - | - | 3,183 | 3,183 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | - | - | 203 | 203 |
| Adneuon tymor byr | - | - | 53 | 53 |
| | - | - | 5,364 | 5,364 |

Ym mis Awst 2024, cafodd y cronfeydd gwaddol a gedwid fel portffolio buddsoddiadau gyda Barclays eu datod, a chwblhawyd datod yr holl fuddsoddiadau ym mis Hydref 2024. Ar 31 Gorffennaf 2025, mae'r cronfeydd gwaddol yn cael eu dal ar ffurf arian parod mewn cyfrif cadw wedi'i glustnodi gyda Lloyds, yn aros i gael eu buddsoddi mewn cronfa foesegol yn y dyfodol. Yn sgîl trosi'r portffolio o gronfeydd gwaddol o fuddsoddiad yn arian parod, mae'r buddsoddiadau cyfredol wedi'u lleihau i ddim a cheir cynnydd cyfatebol mewn arian parod.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **17. MASNACH A SYMIAU ERAILL I'W DERBYN** | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn: | | | | |
| Dyledwyr masnach net | 8,816 | 8,758 | 8,829 | 8,727 |
| Hawliadau grant ymchwil i'w derbyn | 1,455 | 1,455 | 3,239 | 3,239 |
| Incwm cronedig – grantiau ymchwil | 11,795 | 11,795 | 12,534 | 12,534 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | 11,792 | 11,749 | 16,850 | 16,911 |
| Symiau taladwy gan gwmnïau'r grŵp | - | 22 | - | 10 |
| | 33,858 | 33,779 | 41,452 | 41,421 |

Nid yw hawliadau grant ymchwil i'w derbyn yn cynnwys gwerthoedd cadw (2024: £211k)

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **18. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN** | | | | |
| Gorddrafft banc | 90 | - | 398 | - |
| Benthyciadau anwarantedig | 6,454 | 6,454 | 6,340 | 6,340 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 6,777 | 6,777 | 6,679 | 6,679 |
| Symiau masnach i'w talu | 3,317 | 3,317 | 7,166 | 7,166 |
| Nawdd cymdeithasol a threthiant arall i'w talu | 5,073 | 5,064 | 4,790 | 4,783 |
| Symiau cronedig ac incwm gohiriedig | 67,670 | 67,515 | 75,248 | 74,997 |
| Symiau taladwy i gwmnïau'r grŵp | - | - | - | 159 |
| | 89,381 | 89,127 | 100,621 | 100,124 |



**CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG**

Mae symiau cronedig ac incwm gohiriedig yn cynnwys yr eitemau canlynol a ohiriwyd:

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ymlaen llaw | 22,725 | 22,725 | 23,743 | 23,743 |
| Grantiau'r Cyngor Cyllido a dderbyniwyd ymlaen llaw | 725 | 725 | 1,578 | 1,578 |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw | 1,064 | 1,064 | - | - |
| Symiau cronedig ac incwm gohiriedig eraill | 43,156 | 43,001 | 49,927 | 49,676 |
| | 67,670 | 67,515 | 75,248 | 74,997 |

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **19. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | | | | |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 102,769 | 102,769 | 109,546 | 109,546 |
| Incwm ymlaen llaw | 1,591 | 1,591 | 1,635 | 1,635 |
| Benthyciadau anwarantedig | 100,179 | 100,179 | 92,023 | 92,023 |
| **CREDYDWYR SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | 204,539 | 204,539 | 203,204 | 203,204 |

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **20. DADANSODDIAD O FENTHYCIADAU ANWARANTEDIG** | | | | |
| Yn ddyledus ymhen blwyddyn neu ar alw | 6,454 | 6,454 | 6,340 | 6,340 |
| Yn ddyledus ymhen un a dwy flynedd | 6,893 | 6,893 | 6,454 | 6,454 |
| Yn ddyledus ymhen dwy a phum mlynedd | 22,418 | 22,418 | 20,089 | 20,089 |
| Yn ddyledus mewn pum mlynedd neu fwy | 70,868 | 70,868 | 65,480 | 65,480 |
| **CYANSWM BENTHYCIADAU ANWARANTEDIG SY'N DDYLEDUS ERBYN 2048** | 106,633 | 106,633 | 98,363 | 98,363 |

Gwaith ar y gweill

| BENTHYCIWR | SWM MEWN £000 | CYFRADD LLOG | CYFNOD | BENTHYCIWR |
|---|---|---|---|---|
| Banc Buddsoddi Ewrop | 6,667 | Sefydlog 2.876% | Mehefin 2033 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 7,500 | Sefydlog 2.723% | Ionawr 2034 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 6,353 | Sefydlog 4.143% | Awst 2034 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 6,377 | Sefydlog 4.264% | Ionawr 2035 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 6,924 | Sefydlog 4.432% | Awst 2035 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 51,810 | Sefydlog 2.938% | Ebrill 2044 | Y Brifysgol |
| Sure Loan | 4,426 | Sefydlog 0.550% | Mawrth 2031 | Y Brifysgol |
| Salix | 1,967 | Sefydlog 0% | Ebrill 2031 | Y Brifysgol |
| Digarbon | 11,477 | Sefydlog 2.050% | Chwefror 2048 | Y Brifysgol |
| Salix 2 | 3,132 | Sefydlog 2.050% | Chwefror 2035 | Y Brifysgol |
| **CYFANSWM** | 106,633 | | | |

Ym mis Awst 2024, cytunodd Banc Buddsoddi Ewrop ar ildiad mewn perthynas â dau gyfamod benthyciad am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2025, gan gyflwyno cyfamod dros dro yn seiliedig ar leiafswm arian parod. Mae'r holl gyfamodau cymwys yn cael eu bodloni yn y flwyddyn bresennol.

| | DARPARIAETH CYNLLUN PENSIWN SUPS £000 | CYFANSWM DARPARIAETHAU PENSIWN £000 |
|---|---|---|
| **21. DARPARIAETH AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU** | | |
| **CYFUNOL A'R BRIFYSGOL** | | |
| **AR 1 AWST 2024** | 19,000 | 19,000 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (1,200) | (1,200) |
| (Gostyngiadau) | (5,400) | (5,400) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 12,400 | 12,400 |

Nid oedd angen cynllun i adennill diffyg USS o dan brisiad 2023 oherwydd bod gwarged gan y cynllun ar sail darpariaeth dechnegol. Nid oedd rhaid i'r sefydliad wneud cyfraniadau i adennill y diffyg o 1 Ionawr 2024, felly rhyddhawyd y ddarpariaeth a oedd yn weddill i'r cyfrif elw a cholled.

Gweler nodyn 31 am ragor o wybodaeth am SUPS a chynllun pensiwn USS.

| | GWADDOLION PARHAOL CYFYNGEDIG £000 | GWADDOLION PARHAOL ANGHYFYNGEDIG £000 | GWADDOLION Y GELLIR EU GWARIO £000 | CYFANSWM 2025 £000 | CYFANSWM 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **22. CRONFEYDD GWADDOL** | | | | | |
| Mae'r asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn: | | | | | |
| **BALANSIAU** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2024** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,411 | 1,791 | 691 | 6,893 | 6,385 |
| Incwm cronedig | 949 | 62 | 68 | 1,079 | 923 |
| | 5,360 | 1,853 | 759 | 7,972 | 7,308 |
| Rhoddion a gwaddolion newydd | 8 | - | - | 8 | 85 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 127 | - | 27 | 154 | 187 |
| Gwariant | (12) | - | (11) | (23) | (31) |
| Cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 15 | 9 | | 24 | 423 |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 5,498 | 1,862 | 775 | 8,135 | 7,972 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,434 | 1,800 | 691 | 6,925 | 6,893 |
| Incwm cronedig | 1,064 | 62 | 84 | 1,210 | 1,079 |
| | 5,498 | 1,862 | 775 | 8,135 | 7,972 |

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| **DADANSODDIAD FESUL MATH O DDIBEN** | | |
| Darlithyddiaethau | 25 | 24 |
| Ysgoloriaethau a bwrsariaethau | 3,543 | 3,453 |
| Cymorth ymchwil | 345 | 331 |
| Cronfeydd Gwobr | 977 | 951 |
| Cyffredinol | 3,245 | 3,213 |
| | 8,135 | 7,972 |
| **DADANSODDIAD FESUL ASED** | | |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol | - | 5,364 |
| Balans yn y Banc - y Brifysgol | 8,135 | 2,608 |
| | 8,135 | 7,972 |

Mae gan y Brifysgol dros 175 o waddolion sy'n cynnwys cronfeydd parhaol a rhai y gellir eu gwario Mae gan bob cronfa waddol ei chyfyngiad penodol ei hun a rheolir gwariant gan y Rheolwyr Cyllideb dynodedig. Mae gan y Brifysgol un gronfa waddol sylweddol gwerth dros £1.0m, sef y gronfa waddol gyffredinol. Dyma waddol parhaol o £1.3m o gronfeydd gwaddol, gwerth £2.1m ar hyn o bryd yn y portffolio. Gan ei fod yn waddol cyffredinol, mae unrhyw incwm yn cael ei ryddhau yn ôl i'r Brifysgol at ddibenion amhenodol. Nid yw'r holl waddolion eraill yn sylweddol ond mae dibenion penodol wedi'u hatodi iddynt.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y gronfa waddol fuddsoddi barhaol ei datod am resymau moesegol. Ar ddiwedd y flwyddyn cedwir y gwaddolion parhaol mewn cyfrif cadw wedi'i glustnodi, yn aros i gael eu buddsoddi'n briodol.

| | RHODDION £000 | CYFANSWM 2025 £000 | CYFANSWM 2024 £000 |
|---|---|---|---|
| **23. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | |
| **CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** | | | |
| **Dyma'r cronfeydd wrth gefn â chyfyngiadau:** | | | |
| **BALANSIAU** | | | |
| **AR 1 AWST 2024** | 835 | 835 | 187 |
| Rhoddion cyfyngedig newydd | 290 | 290 | 728 |
| Gwariant | (576) | (576) | (80) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2025** | 549 | 549 | 835 |
| **DADANSODDIAD O GRONFEYDD / RODDION CYFYNGEDIG ERAILL FESUL MATH O DDIBEN:** | | | |
| Ysgoloriaethau | | 250 | 202 |
| Caledi | | 142 | 90 |
| Y campysau a chyfleusterau chwaraeon | | 3 | 2 |
| Cronfeydd gwobr | | 14 | - |
| Cyffredinol | | 140 | 541 |
| | | 549 | 835 |

| | AR 1 AWST 2024 £000 | LLIFOEDD ARIAN PAROD £000 | AR 31 GORFFENNAF 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **24. ARIAN PAROD AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD** | | | |
| **CYFUNOL** | | | |
| Arian Parod ac Eitemau Cyfwerth ag Arian Parod | 121,154 | (23,464) | 97,690 |
| Gorddrafft banc | (398) | 308 | (90) |
| | 120,756 | (23,156) | 97,600 |

## 25. CYSONIAD DYLEDION NET CYFUNOL

| | 2025 £000 |
|---|---|
| **DYLED NET AR 1 AWST 2024** | **93,832** |
| Newidiadau mewn arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod | (23,464) |
| Newidiadau anariannol eraill | 48,211 |
| **DYLED NET AR 31 GORFFENNAF 2025** | **118,579** |
| **NEWID MEWN DYLED NET** | **24,747** |

**DADANSODDIAD O DDYLED NET:**

| | 2025 £000 | 2024 £000 |
|---|---|---|
| **ARIAN PAROD AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD** | **97,690** | **121,154** |
| **BENTHYCIADAU: SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN** | | |
| Benthyciadau anwarantedig | 6,454 | 6,340 |
| Gorddrafft banc | 90 | 398 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 6,777 | 6,679 |
| | 13,321 | 13,417 |
| **BENTHYCIADAU: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | | |
| Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 102,769 | 109,546 |
| Benthyciadau anwarantedig | 100,179 | 92,023 |
| | 202,948 | 201,569 |
| **DYLED NET** | **118,579** | **93,832** |

## 26. OFFERYNNAU ARIANNOL

| | NODYN | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ARIANNOL** | | | | | |
| **Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** | | 32 | - | 102 | - |
| **Asedau ariannol sy'n offerynnau ecwiti wedi'u mesur ar sail cost namyn amhariad** | | | | | |
| Buddsoddiadau eraill | | 133 | - | 453 | - |
| | 14 | 165 | - | 555 | - |
| **Asedau ariannol sy'n offerynnau dyled wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio** | | | | | |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth | | 97,600 | 97,259 | 120,756 | 120,580 |
| Buddsoddiadau eraill | 16 | - | - | 5,364 | 5,364 |
| Symiau masnach i'w derbyn | 17 | 12,947 | 12,889 | 13,616 | 13,514 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 17 | 1,455 | 1,455 | 3,239 | 3,239 |
| | | 112,002 | 111,603 | 142,975 | 142,697 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | | | | |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio** | | | | | |
| Gorddrafftiau banc | 18 | 90 | - | 398 | - |
| Benthyciadau | 20 | 106,633 | 106,633 | 98,363 | 98,363 |
| Consesiynau gwasanaeth | 17/18 | 109,546 | 109,546 | 116,225 | 116,225 |
| Credydwyr Masnach | 18 | 3,317 | 3,317 | 7,166 | 7,166 |
| | | 219,586 | 219,496 | 222,152 | 221,754 |



## 27. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL

Ni wnaed darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2025:

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf: | 1,082 | 1,082 | 4,144 | 4,144 |
| | 1,082 | 1,082 | 4,144 | 4,144 |

Mae'r gostyngiad mewn ymrwymiadau cyfalaf yn dilyn llwyddiant wrth roi'r rhaglen cynaliadwyedd ariannol ar waith. Gostyngodd ymrwymiadau mewn perthynas â'r prosiect Sylfeini Digidol i £800k (2024: £2,704k) wrth i'r prosiect ddirwyn i ben, ac mae ymrwymiadau i brosiectau adeiladu wedi'u cyfyngu i wariant hanfodol neu brosiectau a ariennir yn allanol yn y flwyddyn, gan leihau ymrwymiadau i £282k yn unig (2024: £1,440k).

## 28. RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwarantau** | | | | |
| **I Lloyds ar gyfer SMaRT Ltd** | - | 500 | - | 500 |
| | - | 500 | - | 500 |

Mae'r Brifysgol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Limited mewn perthynas â'r cyfleuster gorddrafft o £500k yn unig. Cred y Brifysgol fod posibilrwydd bach yn unig y bydd angen talu'r warant gan fod Swansea Materials Research & Testing Limited yn is-gwmni a berchnogir yn llwyr ac a reolir gan uwch-aelodau staff y Brifysgol. Mae'r tebygolrwydd y gofynnir am y warant yn dibynnu ar y gorddrafft presennol yn yr is-gwmni. Os caiff ei dalu, mae'n annhebygol y caiff y rhwymedigaeth ddigwyddiadol hon ei had-dalu.

Mae'r Brifysgol yn aelod o UMAL, cwmni cyfyngedig drwy warant, a sefydlwyd i ddarparu cymdeithas gydfuddiannol ar gyfer risgiau yswiriant. O dan delerau ei aelodaeth, mae pob aelod yn gweithredu fel yswiriwr ac yswiriedig. Os bydd y gymdeithas gyfan yn wynebu diffyg mewn unrhyw flwyddyn yswirio, bydd yr aelodau'n atebol am eu cyfran ar sail pro rata. Mae'r potensial ar gyfer diffyg a gwerth y diffyg mewn unrhyw flwyddyn benodol yn anhysbys. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw bosibilrwydd o ad-daliad os gelwir ar y warant hon.

Mae'r Sefydliad yn rhoi ymrwymiadau ysgrifenedig yn flynyddol i gefnogi'r is-gwmnïau am gyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

## 29. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Cyfanswm rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredol:

| | 2025 TIR AC ADEILADAU £000 | 2024 TIR AC ADEILADAU £000 |
|---|---|---|
| **TALADWY YN YSTOD Y FLWYDDYN** | **1,011** | **974** |
| Isafswm taliadau prydles sy'n ddyledus: | | |
| Ymhen 1 flwyddyn | 938 | 984 |
| Yn hwyrach nag 1 flwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | 2,319 | 2,588 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 4,020 | 4,095 |
| **CYFANSWM Y TALIADAU PRYDLES SY'N DDYLEDUS** | **7,277** | **7,667** |

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Brifysgol yn denant pedair prydles arwyddocaol. Mae'r prydlesi arwyddocaol yn cynnwys Y Coleg, cwmni menter ar y cyd y Brifysgol, Maes Parcio Stiwdios y Bae ac uned ym Mharc Ynni Baglan a gofod ym Mharc Dewi Sant yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r brydles gyda'r Coleg, sydd mewn adeilad ar Gampws y Bae, yn weithredol tan 2038 a bydd y brydles ym Mharc Dewi Sant yn parhau tan 2032. Bydd y prydlesi ar Faes Parcio Stiwdios y Bae a Pharc Ynni Baglan yn dod i ben yn 2026 a 2027 yn y drefn honno.

Ni chafodd unrhyw brydlesi newydd eu negodi yn ystod y flwyddyn a daeth sawl mân brydles i ben cyn mis Gorffennaf 2025.

**Cyfanswm rhenti i'w derbyn o dan brydlesi gweithredol:**

Mae'r Brifysgol yn gosod ardaloedd bach ar brydles ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Mae'r prydlesi'n cynnwys deintyddfa, meddygfa, unedau manwerthu ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, gofod mewn labordy ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Ltd, is-gwmni a berchnogir yn llwyr gan y sefydliad, a gofod mewn labordy ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae'r Brifysgol yn gosod ardaloedd bach a swyddfeydd ar brydles i gwmnïau sy'n cydweithio â'r Brifysgol. Mae tymhorau a chyfnodau terfynu pob prydles yn amrywio a chaiff prydlesi mannau bach eu hadnewyddu'n rheolaidd. Nid oes gan y Brifysgol eiddo buddsoddi fel rhan o'i phortffolio oherwydd mai ardaloedd bach mewn adeiladau mwy sy'n cael eu rhentu ganddi.

| CYFUNOL A'R SEFYDLIAD | 2025 Tir ac Adeiladau | 2024 Tir ac Adeiladau |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau prydles sy'n ddyledus yn y dyfodol:** | £000 | £000 |
| Ymhen 1 flwyddyn | 441 | 362 |
| Yn hwyrach nag 1 flwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | 906 | 943 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 890 | 995 |
| **CYFANSWM Y TALIADAU PRYDLES SY'N DDYLEDUS** | 2,237 | 2,300 |

Nid oedd rhenti digwyddiadol yn daladwy yn ystod 2024/25 (2023/24: £0).

## 30. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Ar 22 Medi, terfynodd SU Devlopments Limited, sef is-gwmni segur a berchnogir yn llwyr gan y Brifysgol, ei benodiad fel aelod o Bay Campus Development LLP (hefyd yn gwmni segur).

## 31. CYNLLUNIAU PENSIWN

Roedd gwahanol gategorïau o staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau canlynol:

- Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS)
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) – Caewyd i aelodau newydd ar 31 Rhagfyr 2011
- Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) – o 1 Ionawr 2012

Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG ar gyfer nifer o'i chyflogeion.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau buddion diffiniedig. Cedwir asedau'r ddau gynllun mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

| | CYFUNOL 2025 £000 | Y BRIFYSGOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR – COST PENSIYNAU NET** | | | | |
| USS | 17,715 | 17,715 | 20,603 | 20,603 |
| Newid yn y cyfraniadau disgwyliedig ar gyfer USS | - | - | (98,742) | (98,742) |
| SUPS | 526 | 526 | 752 | 752 |
| Arall | 1,555 | 1,555 | 1,485 | 1,485 |
| | 19,796 | 19,796 | (75,902) | (75,902) |
| **INCWM CYNHWYSFAWR ARALL – ENILLION ACTIWARAIDD MEWN PERTHYNAS Â CHYNLLUNIAU PENSIWN** | | | | |
| SUPS | 5,400 | 5,400 | (3,400) | (3,400) |
| | 5,400 | 5,400 | (3,400) | (3,400) |
| **DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL – RHWYMEDIGAETH CYNLLUNIAU PENSIWN (NODYN 21)** | | | | |
| SUPS | 12,400 | 12,400 | 19,000 | 19,000 |
| | 12,400 | 12,400 | 19,000 | 19,000 |

Ar 25 Gorffennaf 2024, gwrthododd y Llys Apêl yr apêl yn achos Virgin Media Limited v NLT Pension Trustees II Limited and others. Cyflwynwyd yr apêl gan Virgin Media Ltd yn erbyn agweddau ar ddyfarniad yr Uchel Lys a roddwyd ym mis Mehefin 2023 mewn perthynas â dilysrwydd newidiadau hanesyddol penodol mewn pensiynau oherwydd y diffyg cadarnhad actiwaraidd sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad yr Uchel Lys. Mae'n bosib y bydd gan y dyfarniad oblygiadau ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig eraill yn y DU, ond mae'r effaith yn dal i gael ei hasesu ac nid oes gwybodaeth bellach ar gael ar hyn o bryd.



### (I) CYNLLUN BLWYDD-DAL Y PRIFYSGOLION

Mae'r Brifysgol yn rhan o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), sef y prif gynllun ar gyfer y rhan fwyaf o staff academaidd ac academaidd perthynol. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn hybrid, sy'n darparu buddion diffiniedig (ar gyfer yr holl aelodau), yn ogystal â chyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Cynllun aml-gyflogwr yw'r USS a chyfrifir amdano fel y'i nodir yn y polisïau cyfrifyddu.

Y gost gyfan a nodwyd ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yw £17,715k (2024: £21,503k) gan gynnwys PensionChoice, ond ac eithrio effaith y newid yn y cynllun i adennill y diffyg, fel y'i dangosir yn nodyn 7.

Mae'r prisiad actiwaraidd diweddaraf sydd ar gael ar gyfer adran Retirement Income Builder y Cynllun yn ddyddiedig 31 Mawrth 2023 ("dyddiad y prisiad"), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol.

Gan nad yw'r sefydliad yn gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau USS Retirement Income Builder (buddion diffiniedig), mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

Prisiad 2023 oedd seithfed prisiad y cynllun yn unol â'r gyfundrefn ariannu cynllun penodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004, sy'n mynnu bod gan gynlluniau asedau digonol a phriodol ar gyfer eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £73.1 biliwn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £65.7 biliwn, gan nodi gwarged o £7.4 biliwn a chymhareb ariannu o 111%.

Gall gwargedau neu ddiffygion a nodir gan brisiadau'r dyfodol effeithio ar ymrwymiadau'r Brifysgol i wneud cyfraniadau yn y dyfodol. Gall diffyg olygu y bydd angen cyllid ychwanegol ar ffurf gofynion cyfrannu uwch, ond gallai gwarged gael ei ddefnyddio, efallai, i leihau gofynion i wneud cyfraniadau i'r un graddau.

**Disgrifir isod y rhagdybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2023: Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Egwyddorion Ariannu. (uss.co.uk/about-us/valuation-and-funding/statement-of-funding-principles).**

| | |
|---|---|
| Rhagdybiaeth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | Cyfraddau yn ddibynnol ar dymor yn unol â'r gwahaniaeth rhwng y Llog Sefydlog a'r cromliniau arenillion mynegrifol, namyn:<br>1.0% y flwyddyn hyd at 2030, yn lleihau 0.1% y flwyddyn yn llinol o 2030. |
| Cynyddiadau mewn pensiwn (yn amodol ar lawr o 0%) | Buddion heb gap: Rhagdybiaeth CPI plws 3 phwynt sylfaen<br>Buddion yn amodol ar 'gap meddal' o 5% (yn darparu ar gyfer cynnydd hyd at 5% mewn chwyddiant a hanner unrhyw chwyddiant dros 5% hyd at uchafswm o 10%):<br>Rhagdybiaeth CPI namyn 3 phwynt sylfaen |
| Cyfradd ddisgownt (cyfraddau rhagamcanol) | Cromlin arenillion gilt llog sefydlog plws:<br>Cyn ymddeol 2.5% y flwyddyn<br>Ar ôl ymddeol: 0.9% y flwyddyn |

Mae'r brif ragdybiaeth ddemograffig a ddefnyddiwyd yn ymwneud â rhagdybiaethau ynghylch marwolaeth. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gynhaliwyd fel rhan o brisiad actiwaraidd 2023. Mae'r rhagdybiaethau ynghylch marwolaethau a ddefnyddiwyd yn y ffigurau hyn fel a ganlyn:

| | **Prisiad 2023** |
|---|---|
| Tabl sylfaen marwolaethau | **101% o S2PMA "ysgafn" ar gyfer gwrywod a 95% o S3PFA ar gyfer benywod.** |
| Gwelliannau i gyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. | **CMI_2021 gyda pharamedr llyfnu o 7.5, ychwanegiad cychwynnol o 0.4% y flwyddyn, 10% paramedrau w2020 a w2021, a chyfradd wella hirdymor o 1.8% y flwyddyn ar gyfer gwrywod ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer benywod.** |

| **Y disgwyliadau oes presennol wrth ymddeol yn 65 oed yw:** | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Gwrywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd) | 23.8 | 23.7 |
| Benywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd) | 25.5 | 25.6 |
| Gwrywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd) | 25.7 | 25.4 |
| Benywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd (blynyddoedd) | 27.2 | 27.2 |

Fel rhan o brisiad 2020, rhoddwyd cynllun ar waith i adennill y diffyg a oedd yn gofyn am daliad cyfwerth â 6.2% o gyflogau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2024 pan fyddai'r gyfradd yn cynyddu i 6.3% Nid oedd cynllun adennill y diffyg yn ofynnol yn sgîl prisiad 2023 oherwydd bod gwarged gan y cynllun ar sail darpariaeth dechnegol. Nid oedd hi'n ofynnol bellach i'r sefydliad dalu cyfraniadau i adennill y diffyg o 1 Ionawr 2024, felly rhyddhawyd y ddarpariaeth a oedd yn weddill i'r cyfrif elw a cholled yn y flwyddyn flaenorol.

### (II) CYNLLUN PENSIWN Y GIG

Mae'r Sefydliad hefyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG sydd wedi'i gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P). Asesir asedau tybiannol cynllun pensiwn y GIG gan Actiwari'r Llywodraeth a chaiff y buddion eu gwarantu gan y Llywodraeth.

Mae Cynllun Pensiwn y GIG yn gynllun pensiwn buddion diffiniedig gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu ar sail talu wrth fynd. Cyflwynwyd cynllun diwygiedig newydd ar 1 Ebrill 2015, sy'n cyfrifo buddion pensiwn ar sail cyfartaledd enillion ar hyd gyrfa. Yn unol â threfniadau trosiannol, gall unigolion a oedd o fewn deng mlynedd o oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012, barhau i fod yn rhan o hen drefniadau 'cyflog terfynol' Cynllun Pensiwn y GIG (adrannau 1995 a 2008).

Cynhaliwyd prisiad o'r cynllun pensiwn at ddibenion ariannu gan Drysorlys EM ym mis Mawrth 2012. Mae rheoliadau'r Cynllun wedi cael eu newid i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd bennu cyfraddau cyfraniadau, gyda chydsyniad Trysorlys EF, ac ystyried cyngor Actiwari'r Cynllun a chynrychiolwyr priodol cyflogeion a'r cyflogwr, fel y'i bernir yn briodol. Roedd y gyfradd cyfraniadau i'w thalu gan y Sefydliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 gyfwerth â 14.3% o gyfanswm y cyflogau pensiynadwy, yn unol â chasgliad adroddiad Actiwari'r Llywodraeth ar y cynllun.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig ar sail cyflog terfynol y gall gweithwyr anacademaidd gyfrannu ato, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Caiff y cynllun ei ariannu'n allanol ac mae wedi'i gontractio allan o ddarpariaeth pensiwn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

### (III) CYNLLUN PENSIWN PRIFYSGOL ABERTAWE

**(BUDDION YMDDEOL) DATGELIAD AR GYFER Y CYFNOD CYFRIFYDDU A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2025**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig ar sail cyflog terfynol y gall gweithwyr anacademaidd gyfrannu ato, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Caiff y cynllun ei ariannu'n allanol ac mae wedi'i gontractio allan o ddarpariaeth pensiwn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd ffurfiol diwethaf y cynllun ar 1 Awst 2022 gan actwari cymwysedig proffesiynol. Mae'r canlynol yn rhagamcanion sy'n seiliedig ar ganlyniadau prisiad teirblwydd 1 Awst 2022, gan ganiatáu ar gyfer buddion cronedig, arenillion disgwyliedig ar fuddsoddiad a gwir lifoedd arian parod ac maent wedi'u haddasu ar gyfer tybiaethau FRS102, fel y'u nodir isod.

Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, talodd y Brifysgol gyfraniadau i'r cynllun pensiwn cyfwerth â 10.08% o gyflogau pensiynadwy mewn perthynas â buddion a gronnir yn y dyfodol. Yn ogystal, talodd y Brifysgol £2.51m ychwanegol i'r cynllun yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â chyfraniadau i leihau'r diffyg.Talwyd £0.7m ychwanegol gan y Brifysgol mewn perthynas â phremiymau a threuliau marwolaeth mewn swydd.

### RHAGDYBIAETHAU

| Dyma'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun yn unol â FRS102: | AR 31 GORFFENNAF 2025 | AR 1 AWST 2024 |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau (RPI) | 3.2% | 3.3% |
| Chwyddiant prisiau (CPI) | 2.8% | 2.9% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.1% | 3.2% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliadau i aelodau SUPS | 3.2% | 3.3% |
| Cynyddiadau i bensiynau a ohiriwyd cyn ymddeol | 2.8% | 2.9% |
| Cyfradd ddisgownt | 5.4% | 4.8% |

Y rhagdybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae'r tabl yn dangos y rhagdybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifyddu ar sail disgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd sy'n 65 oed ac aelodau sy'n 45 oed ar hyn o bryd.

| | AR 31 GORFFENNAF 2025 | AR 1 AWST 2024 |
|---|---|---|
| Pensiynwr – gwryw | 19.9 | 19.6 |
| Pensiynwr – benyw | 22.1 | 22.0 |
| Iau nag oedran pensiwn (45 oed ar hyn o bryd) – gwryw | 20.8 | 20.5 |
| Iau nag oedran pensiwn (45 oed ar hyn o bryd) – benyw | 23.2 | 23.1 |

**Asedau'r cynllun a chyfraddau enillion disgwyliedig SUPS**

Cyfrifwyd yr enillion disgwyliedig ar asedau ar sail cyfartaledd wedi'i bwysoli'r enillion disgwyliedig o bob prif ddosbarth asedau (h.y. ecwitïau a bondiau). Mae'r enillion disgwyliedig ar gyfer pob dosbarth asedau yn adlewyrchu cyfuniad o ddadansoddiad o berfformiad hanesyddol, rhagolygon marchnadoedd ariannol ar gyfer y dyfodol (fel yr awgrymir gan yr elw sydd ar gael) a barnau sefydliadau buddsoddi.



| | GWERTH TEG AR 31 GORFFENNAF 2025 | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU YN Y CYNLLUN** | £M | £M | £M |
| Ecwitïau | 18.5 | 41.0 | 37.4 |
| Buddsoddi sy'n Cyfateb i Rwymedigaethau | 54.0 | 25.1 | 21.1 |
| Cronfeydd Rhagfantoli (hedge funds) | 16.2 | 10.5 | 9.7 |
| Arian Parod/Hylifedd | 1.8 | 11.8 | 5.9 |
| Arall | 8.7 | 13.7 | 22.4 |
| Cyfanswm | 99.2 | 102.1 | 96.5 |

Mae'r tablau isod yn cynnwys y datgeliadau ar gyfer Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe.

| | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2025 | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O'R SWM A DDANGOSIR YN Y FANTOLEN AR GYFER SUPS** | | |
| Asedau'r cynllun | 99,200 | 102,100 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | (111,600) | (121,100) |
| **DIFFYG YN Y CYNLLUN - COFNODIR RHWYMEDIGAETH BENSIWN NET O DAN INCWM CYNHWYSFAWR ARALL** | (12,400) | (19,000) |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (1,000) | (1,000) |
| **CYFANSWM Y GOST WEITHREDU** | (1,000) | (1,000) |

| | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2025 | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O'R SWM A GODWYD I LOG TALADWY/GREDYDWYD I INCWM CYLLID ARALL AR GYFER SUPS** | | |
| Cost llog | (5,700) | (5,700) |
| Enillion disgwyliedig ar asedau | 4,800 | 4,900 |
| **TÂL NET I INCWM CYLLID ARALL** | (900) | (800) |

| | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2025 | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER SUPS** | | |
| (Colled) / Enillion ar asedau | (4,300) | 3,500 |
| Enillion / (Colled) ar rwymedigaethau | 9,700 | (6,900) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR ARALL CYN DIDYNNU TRETH** | 5,400 | (3,400) |

| | Y FLWYDDYN I 31 GORFFENNAF 2025 | 31 GORFFENNAF 2024 | 31 GORFFENNAF 2023 | 31 GORFFENNAF 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **PROFIAD ENILLION A CHOLLEDION – SUPS** | | | | |
| **Y GWAHANIAETH RHWNG GWIR ADENILLION AC ADENILLION DISGWYLIEDIG AR ASEDAU'R CYNLLUN:** | | | | |
| Swm (£000) | (4,300) | 3,500 | (13,900) | (14,400) |
| % o asedau ar ddiwedd y flwyddyn | -4.3% | 3.4% | -14.4% | -13.3% |
| **PROFIAD COLLEDION/(ENILLION) AR RWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN:** | | | | |
| Swm (£000) | (9,700) | 6,900 | (32,500) | (38,100) |
| % o rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn | 8.7% | 5.7% | -28.6% | -26.3% |

| | 31 GORFFENNAF 2025 | 31 GORFFENNAF 2024 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **COLLEDION ACTIWARAIDD CRONEDIG A GYDNABYDDIR FEL INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER SUPS** | | |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddechrau'r flwyddyn | 1,500 | 4,900 |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddiwedd y flwyddyn | 6,900 | 1,500 |

| DADANSODDIAD O'R NEWID MEWN (DIFFYG) AR GYFER SUPS | | |
|---|---|---|
| **DIFFYG AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | (19,000) | (17,200) |
| Cyfraniadau neu fuddion a dalwyd gan y Brifysgol | 4,100 | 4,200 |
| Costau gweinyddol | (1,000) | (800) |
| Costau cyllid eraill | (900) | (800) |
| Enillion / (Colled)a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall | 5,400 | (3,400) |
| **DIFFYG AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | (12,400) | (19,000) |

| DADANSODDIAD O NEWID YNG NGWERTH PRESENNOL SUPS | | |
|---|---|---|
| **GWERTH PRESENNOL SUPS AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | 121,100 | 113,700 |
| Costau gwasanaeth cyfredol (net o gyfraniadau aelodau) | 1,000 | 1,000 |
| Cost llog | 5,700 | 5,700 |
| (Enillion) / colled actiwaraidd | (9,700) | 6,900 |
| Gwir daliadau buddion | (6,500) | (6,200) |
| **GWERTH PRESENNOL RHWYMEDIGAETHAU SUPS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | 111,600 | 121,100 |

| DADANSODDIAD O'R NEWIDIADAU YNG NGWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN | | |
|---|---|---|
| **GWERTH TEG ASEDAU AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | 102,100 | 96,500 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau | 4,800 | 4,900 |
| (Colled) / enillion actiwaraidd ar asedau | (4,300) | 3,500 |
| Gwir gyfraniadau a dalwyd gan y Brifysgol | 4,100 | 4,200 |
| Treuliau ac eithrio buddsoddiadau | (1,000) | (800) |
| Gwir daliadau buddion | (6,500) | (6,200) |
| **GWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | 99,200 | 102,100 |

Nid yw asedau SUPS yn cynnwys unrhyw un o offerynnau ariannol y Brifysgol ei hun, nac unrhyw eiddo a feddiannir gan y Brifysgol.

| GWIR ADENILLION AR ASEDAU'R CYNLLUN | | |
|---|---|---|
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 4,800 | 4,900 |
| (Colledion) / enillion ar asedau | (4,300) | 3,500 |
| | 500 | 8,400 |

Amcangyfrifir mai £504k fydd cyfraniadau at SUPS ym mlwyddyn ariannol 2025-26 (2024-25: £568k) gan ragdybio cyfradd gyfrannu o 10.8% ynghyd â chyfraniad blynyddol sefydlog o £3,289k (2024-25: 10.08%, ynghyd â £3,210k y flwyddyn).

Nodwyd nifer o faterion mewn cysylltiad â Chynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe. Mae'r rhain yn ymwneud â chofnodi a gweithredu penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun a allent gynyddu'r rhwymedigaeth ar gyfer y Cynllun. Nid oes modd amcangyfrif amseru ac effaith ariannol unrhyw all-lif gan fod hynny'n dibynnu ar sut caiff y materion hyn eu datrys ac mae hyn yn destun achos cyfreithiol sy'n parhau.



## 32. TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Oherwydd natur gweithrediadau'r Sefydliad a chyfansoddiad ei Gyngor (a dynnir o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol) a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, mae'n anochel y cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor neu'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion o'r fath ar hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol y Sefydliad a gweithdrefnau caffael arferol. Mae'r Sefydliad wedi manteisio ar yr eithriad yn adran 33 o FRS 102, 'Related Party Disclosures' ac nid yw wedi datgelu trafodion gydag endidau grŵp eraill y mae'n berchen yn llwyr arnynt.

| | INCWM O BARTI CYSYLLTIEDIG | GWARIANT I BARTI CYSYLLTIEDIG | BALANS DYLEDUS GAN BARTI CYSYLLTIEDIG |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe | 830 | 678 | 87 |
| Swan Global Education LLP | 554 | 1,301 | 812 |
| | 1,384 | 1,979 | 899 |

Drwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiad y Fantolen, roedd gan y Brifysgol fuddsoddiadau 50% yn y cwmnïau cysylltiedig, Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2024: 50%) a Swan Global Education LLP (2024: 50%). Cyfrifwyd am y berthynas â'r ddau gwmni gan ddefnyddio'r dull ecwiti, i'r perwyl y cafodd 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmnïau eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a chofnodwyd 50% o'r incwm net yng nghyfrif incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol.

Nid yw'r Brifysgol yn berchen ar Undeb y Myfyrwyr nac yn ei reoli ac mae'n cyfreithiol ar wahân; fodd bynnag mae'r Brifysgol yn darparu cyllid grant i'r Undeb i gefnogi'r myfyrwyr. Yn ystod y flwyddyn, darparodd y Brifysgol y prif grant bloc o £1,192k i Undeb y Myfyrwyr (2024: £1,167k)

### AELODAU'R CYNGOR

Aelodau Cyngor y Sefydliad yw'r ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennol. Oherwydd natur gweithrediadau'r Sefydliad a chyfansoddiad ei Gyngor y mae llawer o'r aelodau'n dod o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol, mae'n anochel y cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Caiff yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt eu cynnal hyd braich, gan gynnwys y rhai isod, ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Sefydliad a'r gweithdrefnau caffael arferol. Mae gan y Brifysgol bolisi cadarn ar Ddatganiadau o Fuddiant Allanol ac mae'n ofynnol i bob aelod o'r Cyngor ddatgan pob buddiant yn agored, a chaiff y rhain eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Dyma drafodion trydydd parti a nodwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 y mae ymddiriedolwyr wedi datgan buddiant ynddynt: Cyfoeth Naturiol Cymru, £3,279 ar gyfer gwasanaethau proffesiynol; Compass Group plc £1,650,581 ar gyfer gwasanaethau arlwyo; Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, £1,671,431 ar gyfer trafodion amrywiol; Llywodraeth Cymru, £77,351 ar gyfer yswiriant a gwasanaethau mewn perthynas ag eiddo; Hilton Worldwide group, £16,987 ar gyfer llety; RGM Security, £280,902 ar gyfer staff dros dro a gwasanaethau diogelwch; Clwb Busnes Bae Abertawe, £5,000 ar gyfer tanysgrifiadau; Just Eat Food, £40 ar gyfer gwasanaethau arlwyo; Global Education Matter, £8,684 ar gyfer gweithgarwch ffioedd myfyrwyr; Bevan & Buckland LLP, £2,520 ar gyfer rhaglenni lleoliad gwaith myfyrwyr; Cymdeithas Ddysgedig Cymru, £30,205 ar gyfer tanysgrifiadau; JISC, £2,005,006 ar gyfer meddalwedd/llyfrau a gweithgareddau amrywiol eraill; Age Cymru, £2,520 ar gyfer rhaglenni lleoliad gwaith myfyrwyr; Cyfathrebiadau fideo Zoom, £1,015 ar gyfer meddalwedd/trwyddedau; Sainsbury UK, £320 ar gyfer bwyd a diodydd; Ysgol Gynradd Grange, £170 ar gyfer staff dros dro; Canolfan y Mileniwm Cymru, £50 ar gyfer arlwyo; Opera Cenedlaethol Cymru, £5,897 ar gyfer gwasanaethau cynhyrchu.

Nid yw unrhyw aelod o'r Cyngor wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol nac ildio taliadau yn ystod y flwyddyn (2024: £0).

Yn ystod y flwyddyn ad-dalwyd £5.8k mewn treuliau i Aelodau'r Cyngor (2024: £4.5k) a thalwyd £4.3k ar ran aelodau'r Cyngor (costau teithio/llety a hyfforddiant) (2024: £8.3K)

## 33. COFRESTR ATODOL O GYFRIFOLDEBAU ARIANNOL ADRAN ADDYSG YR UD

I fodloni ei rhwymedigaethau i hwyluso mynediad myfyrwyr at gymorth ariannol ffederal yr UD, mae Adran Addysg yr UD yn gofyn i'r Brifysgol gyflwyno'r Rhestr Atodol ganlynol mewn fformat penodedig.

Mae'r symiau a gyflwynwyd yn y rhestrau wedi cael:

- eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol
- eu paratoi gan ddefnyddio ymarfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a'r cyhoeddiad Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education (argraffiad 2019)
- eu cyflwyno ar sail punnoedd sterling

Mae'r rhestrau'n nodi sut mae pob swm a ddatgelir wedi cael ei dynnu o'r datganiadau ariannol. Fel y'i nodir uchod, ni fwriedir i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth bennu'r symiau a ddatgelwyd gydymffurfio â gofynion egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn Unol Daleithiau America, ac nid ydynt yn cydymffurfio.

| | | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb y Brif Gronfa Wrth Gefn** | | | | |
| **Eitem llinell / datgeliad** | | | | |
| | **Asedau net y gellir eu gwario** | | | |
| | Asedau net heb gyfyngiad gan y rhoddwr | 284,140 | | 318,549 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn Anghyfyngedig | | 245,985 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | | 38,155 | |
| | Asedau net â chyfyngiad gan y rhoddwr | 8,684 | | 8,807 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Waddol Wrth Gefn | | 8,135 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig | | 549 | |
| Nodyn 10, ac eithrio'r Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | | | |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar, cyn gweithredu | 262,942 | | (275,603) |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar heb ddyled i'w thalu o ran y pryniant gwreiddiol. | (85,753) | | (84,010) |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar - wrthi'n cael eu hadeiladu | (21,232) | | (17,402) |
| Nodyn 10 - Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Prydles hawl i ddefnyddio ased - cyn gweithredu | (97,286) | | (104,348) |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Asedau Anniriaethol | (242) | | (444) |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Rhwymedigaethau ar ôl cyflogaeth a phensiynau | 12,400 | | 19,000 |
| | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir | | | |
| Nodiadau 19 ac 20 | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir cyn gweithredu | 85,631 | | 90,944 |
| Nodiadau 19 ac 20 | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir ar ôl gweithredu | 21,002 | | 7,419 |
| Nodyn 13 | Prydles rhwymedigaeth hawl i ddefnyddio ased | | | |
| | Prydles rhwymedigaeth hawl i ddefnyddio ased cyn gweithredu | 109,546 | | 116,225 |
| | Prydles rhwymedigaeth hawl i ddefnyddio ased ar ôl gweithredu | - | | - |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Gwaddolion tymor â chyfyngiadau gan y rhoddwr | (8,135) | | (7,972) |
| | **Cyfanswm Treuliau Gweithredu heb Gyfyngiad gan y Rhoddwr** | | | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac eithrio newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | Cyfanswm treuliau gweithredu heb gyfyngiadau gan y rhoddwyr a gymerwyd o'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr | 373,030 | | 397,521 |
| | Colled nad yw'n ganlyniad i weithredu a cholled net ar fuddsoddiadau | (5,400) | | (95,342) |
| | Colledion net ar fuddsoddiad | - | | - |
| | Taliadau mewn perthynas â phensiynau heblaw am gostau cyfnodol | 5,400 | | 95,342 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Y newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | | - | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | | 5,400 | |



| | | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Ecwiti** | | | | |
| **Eitem llinell / datgeliad** | | | | |
| | **Asedau Net wedi'u Haddasu** | | | |
| | Asedau Net heb Gyfyngiad gan y Rhoddwr | 284,140 | | 318,549 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn Anghyfyngedig | | 245,985 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | | 38,155 | |
| | Asedau Net â Chyfyngiad gan y Rhoddwr | 8,684 | | 8,807 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Waddol Wrth Gefn | | 8,135 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig | | 549 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Asedau anniriaethol | 242 | | 444 |
| | **Asedau wedi'u Haddasu** | | | |
| | Cyfanswm Asedau | 599,144 | | 650,181 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Asedau Anghyfredol | | 467,621 | |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Asedau Cyfredol | | 131,523 | |
| Nodyn 10 - Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Prydles hawl i ddefnyddio ased cyn gweithredu | 97,286 | | 104,348 |
| Nodyn 13 | Cyn gweithredu hawl prydles | 109,546 | | 116,225 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol | Asedau anniriaethol | 242 | | 444 |

| | | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2025 £000 | CYFUNOL 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Incwm Net** | | | | |
| **Eitem llinell / datgeliad** | | | | |
| | **Newid mewn Asedau Net heb Gyfyngiadau gan y Rhoddwr** | | | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Cyfanswm incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn | (34,532) | | 80,341 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Incwm cynhwysfawr cyfyngedig yn y flwyddyn | 123 | | (1,312) |
| **Cyfanswm Refeniw ac Enillion** | | | | |
| | **Cyfanswm Refeniw ac Enillion heb gyfyngiadau gan y rhoddwr** | | | |
| | Cyfanswm refeniw gweithredu ac ychwanegiadau eraill | 333,355 | | 380,967 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Cyfanswm Incwm | | 333,645 | |
| Nodyn 6 - incwm cyfyngedig | Rhoddion cyfyngedig | | (290) | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Refeniw nad yw'n Ganlyniad i Weithredu ac Enillion Eraill | - | | 445 |